# Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant

**Enw'r Awdurdod Lleol: Cyngor Gwynedd**

**Enw'r swyddog cyfrifol: Lowri Jones, Uwch Swyddog Datblygu Gofal Plant**
**Rachel Jones, Swyddog Strategol Gofal Plant**

**Dyddiad Cwblhau: 30ain Mehefin 2022**

# Prif Ddatganiad

Mae Deddf Gofal Plant 2006 yn dweud yn glir fod gan awdurdodau lleol Cymru rôl arweiniol i sicrhau, cyhyd a sy'n rhesymol ymarferol, digon o ofal plant i gwrdd â gofynion rhieni yn eu hardal sydd angen gofal plant i'w galluogi i:

- cymryd gwaith neu aros mewn gwaith; neu
- ddilyn cwrs addysg neu hyfforddiant y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddo eu helpu i gael gwaith.

Mae gan Gyngor Gwynedd ddyletswydd i sicrhau fod digon o lefydd gofal plant ar gael i ateb gofynion rhieni a gofalwyr yng Ngwynedd.
Mae gofal plant yn rhan ganolog o fywyd teuluol ac y mae'n hanfodol i'r economi. Mae rhieni angen mynediad at ofal plant o safon uchel sydd yn fforddiadwy ac yn hyblyg.

Mae'r Cyngor yn cefnogi datblygu gofal plant newydd lle mae digon o alw gan rieni, ac yn cefnogi darparwyr presennol i ofalu eu bod yn cyflwyno gofal plant cynaliadwy o ansawdd. Byddwn yn gweithio'n agos gyda darparwyr o bob sector – Preifat, Gwirfoddol, Annibynnol a Chynhelir.

Mae Cyngor Gwynedd yn rhoi gwerth ar y cydweithredu gyda rhanddeiliaid allweddol yn y sector gofal plant, sydd yn sicrhau y bydd gweithio cadarnhaol mewn partneriaeth i dyfu a chynnal darpariaeth safonol i gwrdd ag anghenion rhieni.

Mae angen i unrhyw bolisïau neu fentrau gan Gyngor Gwynedd neu Lywodraeth Cymru sicrhau fod gofal a lles y plant yn ganolog, yn cefnogi plant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol, tra hefyd yn cydbwyso anghenion rhieni, darparwyr gofal plant a chyflogwyr.

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad / Cyd-destun | 4 |
| 2. Gweithio mewn Partneriaeth ac Ymgynghori | 5 |
| 3. Yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a'r Asesiad o Anghenion Lles Lleol | 6 |
| 4. Poblogaeth | 8 |
| 5. Trosolwg – Gwasanaethau, Lleoedd a Mathau o Ofal Plant | 14 |
| 6. Y Cyflenwad o Ofal Plant | |
| 6.1 Gwarchodwyr<br>6.2 Gofal Dydd Llawn<br>6.3 Gofal Dydd Sesiynol<br>6.4 Crèche<br>6.5 Gofal tu allan i Oriau Ysgol<br>6.6 Darpariaeth Chwarae Agored<br>6.7 Nani | 24<br>29<br>35<br>39<br>39<br>43<br>43 |
| 7. Deall Anghenion Rhieni / Gofalwyr | 44 |
| 8. Trawsffiniol | 67 |
| 9. Cofid-19 | 68 |
| 10. Cynaladwyedd | 72 |
| 11. Hyfforddi a Datblygu'r Gweithlu | 75 |
| 12. CYSGA | 80 |
| 13. Rhaglenni Ariannu Gofal Plant | |
| 13.1 Cynnig Gofal Plant Cymru<br>13.2 Addysg Feithrin<br>13.3 Dechrau'n Deg<br>13.4 Clybiau Brecwast am Ddim<br>13.5 Credyd Treth Gwaith / Credyd Cynhwysol a Gofal Plant gyda Chymorth Cyflogwyr / Gofal Plant Di-dreth | 81<br>85<br>89<br>94<br>97 |
| 14. Canlyniadau'r Ymgynghoriad gyda Rhanddeiliaid (fel yr amlinellir yn adran 2) | 98 |
| 15. Crynodeb – Dadansoddiad o'r Bylchau a Meysydd i'w Gwella | 108 |

## 1. Cyflwyniad/ Cyd-destun

Mae Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Llywodraeth Leol)(Cymru) 2016 yn ehangu ac yn egluro mewn deddfwriaeth y rôl allweddol sydd gan awdurdodau lleol fel arweinwyr strategol wrth ddarparu gofal plant yn lleol. Mae Deddf 2006 yn ategu'r fframwaith y mae awdurdodau lleol yn gweithio ynddi eisoes - mewn partneriaeth â'r sector preifat, gwirfoddol, cymunedol a'r un a gynhelir – i lunio a sicrhau gwasanaethau plant ac yn canoli yn benodol ar ddarparu'r canlynol:

- gofal plant digonol, cynaliadwy a hyblyg sydd yn ymateb i anghenion rhieni, a
- gwybodaeth, cyngor a chymorth ynghylch gofal plant i rieni, darpar-rieni a'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhieni neu ofal am blentyn.

Mae Adran 22 Deddf 2006 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau, cyhyd ag sy'n rhesymol ymarferol, digon o ofal plant i gwrdd â gofynion rhieni yn eu hardal sydd angen gofal plant i'w galluogi i wneud y canlynol:

- cymryd gwaith neu aros mewn gwaith; neu
- ddilyn cwrs addysg neu hyfforddiant y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddo eu helpu i gael gwaith.

Nid yw'n fwriad mynnu bod awdurdodau lleol yn cwrdd ag anghenion gofal plant unigol pob teulu sy'n gweithio, ond sicrhau, ar lefel gymunedol, fod yr awdurdod lleol yn gweithredu yn strategol gyda'i bartneriaid i ymdrin â bylchau mewn gofal plant.

Mae gan yr awdurdod lleol rôl arweiniol i gydgordio'r ymdrech ar draws gwasanaethau i weithio ynghyd er mwyn sicrhau darpariaeth gynaliadwy o ansawdd uchel sydd yn ymateb i anghenion plant a'u teuluoedd. Mae Adran 23 yn caniatáu i awdurdodau lleol ddarparu gofal plant ac yn rhoi i awdurdodau lleol y pwerau sydd eu hangen i ymwneud yn effeithiol â darparwyr gofal plant i gyflawni'r ddyletswydd i sicrhau gofal plant digonol a roddir iddynt gan y Ddeddf hon.

Mae rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru dan Adran 26 y Ddeddf yn mynnu bod awdurdodau lleol yn paratoi asesiadau o ddarpariaeth gofal plant (Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant) yn eu hardal ac i barhau i adolygu'r rhain. Mae hyn yn gam angenrheidiol i sicrhau darpariaeth ddigonol, galluogi awdurdodau lleol i adnabod bylchau a sefydlu cynlluniau i gwrdd ag anghenion rhieni.
Mae disgwyl i awdurdodau lleol gefnogi datblygiad gofal plant lle mae digon o alw gan rieni y gallai darparwr gofal plant ei redeg a bod yn gynaliadwy.

Mae gofyn i awdurdodau lleol gwblhau Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant llawn erbyn 30ain Mehefin 2022, a phob 5 mlynedd wedi hynny, gydag Adroddiad Cynnydd yn cael ei gyflwyno ar y 1af Mehefin bob blwyddyn rhwng hyn.
Yr hyn fu'n allweddol i Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Cyngor Gwynedd yn 2022 fu'r gweithio mewn partneriaeth a'r ymgynghori a ddigwyddodd; amlinellir y rhain yn fanylach yn Adran 2.

## 2. Gweithio mewn Partneriaeth ac Ymgynghori

Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi manteision ymgynghori, cyfranogiad a chynnwys pobl yn ein prosesau gwneud penderfyniadau, er mwyn cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol ar gyfer anghenion trigolion y Sir.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar draws y Sir. Cafwyd barn rhanddeiliaid drwy amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys yr holiaduron i rieni a ddarparwyd at ddibenion yr ADGP gan Lywodraeth Cymru (gweler adran 7 yr adroddiad hwn).
Roedd ymgynghori hefyd gydag ysgolion, cyflogwyr, timau cyflogadwyedd, sefydliadau ambarél CWLWM, phartneriaid o adrannau iechyd ac awdurdodau lleol gerllaw.

Cynhaliwyd ymgynghoriadau a thrafodaethau hefyd gyda'r adrannau/swyddogion canlynol o'r awdurdod lleol:-
Bwrdd Diogelu Plant
Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
Adran Addysg
Athrawon Cyfnod Sylfaen a Dechrau'n Deg
Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar
Teuluoedd yn Gyntat
Dechrau'n Deg
Derwen
Uned Polisi Cynllunio

Bu ystyriaeth lawn o'r wybodaeth yn yr adroddiadau canlynol yn ogystal:-
Asesiad Digonolrwydd Chwarae 2022-2025
CYSGA
Asesiad Llesiant

Nod yr ymgynghoriad oedd ceisio barn ar bob agwedd ar ofal plant gan gynnwys hygyrchedd, fforddiadwyedd a chynaliadwyedd i ystyried unrhyw rwystrau y gallai rhai grwpiau eu hwynebu wrth gael mynediad at ofal plant.
Defnyddiwyd canlyniadau'r ymgynghoriadau i gynhyrchu'r adroddiad hwn, ac i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu a nodi meysydd lle mae angen gwella.
Dymunai Cyngor Gwynedd ddiolch i bawb am eu cyfraniad.

## 3. Yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant a'r Asesiad Anghenion Llesiant Lleol

Daeth Deddf newydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i rym yng Nghymru ar Ebrill 1 2016, ac y mae'n ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.
Mae'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn sicrhau eu bod yn gwneud penderfyniadau sydd yn cwrdd ag anghenion y cenedlaethau presennol a rhai'r dyfodol.


Mae saith nod llesiant yn y Ddeddf:-

- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang
- Cymru ffyniannus
- Cymru wydn
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru gyda diwylliant bywiog a lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu

Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd dros Wynedd a Môn, a'i brif dasg fydd paratoi a chyhoeddi asesiad manwl o gyflwr llesiant , economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yng Ngwynedd a Môn.
Wedi hyn, mae disgwyl i'r Bwrdd dros y blynyddoedd nesaf baratoi a chyhoeddi Cynllun Llesiant Lleol i Wynedd a Môn a fydd yn pennu amcanion lleol ac yn gweithredu ar gamau i ymdrin â'r amcanion hyn a chynhyrchu adroddiadau cynnydd blynyddol.

Dynododd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 8 'Ardal Llesiant' yng Ngwynedd, ac wedi ymgynghori, penderfynwyd y bydd yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant yn defnyddio'r un 8 ardal wrth adrodd, er mwyn asio'r ddau adroddiad.
Cynhaliwyd cyfarfodydd ac ymgynghori ar y cyd gyda'r swyddogion sy'n gyfrifol am yr Asesiad Anghenion Llesiant, gyda'r data perthnasol yn cael ei rannu yn ôl y galw.
Bydd yr ADGP yn cadw mewn cof unrhyw argymhellion yn y Cynllun Llesiant Lleol, yn awr ac yn y dyfodol, gyda gweithio ar y cyd rhwng y naill asesiad a'r llall yn sicrhau'r deilliannau gorau i bobl Gwynedd.

## Ardaloedd Asesiad Llesiant Gwynedd




1 Ardal Bangor
2 Ardal Caernarfon
3 Ardal Llŷn
4 Ardal Porthmadog
5 Ardal Ffestiniog
6 Ardal Dolgellau
7 Ardal Penllyn
8 Ardal Tywyn

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2016 Arolwg Ordnans 100023387

## 4. Poblogaeth

Poblogaeth trigolion Gwynedd yn 2020 oedd 125,171, ar draws ardal o 2,535 cilomedr sgwâr. Mae hyn yn rhoi dwysedd poblogaeth yng Ngwynedd o 49.4 person i bob km, o gymharu â 152.9 o bobl i bob km dros Gymru.

| | Cyfanswm Poblogaeth |
|---|---|
| **Cymru** | 3,169,586 |
| **Gwynedd** | 125,171 |
| | |
| Bangor | 30,519 |
| Caernarfon | 33,798 |
| Llŷn | 19,441 |
| Porthmadog | 12,184 |
| Ffestiniog | 6,470 |
| Dolgellau | 10,558 |
| Penllyn | 4,716 |
| Tywyn | 7,485 |

*Ffynhonnell – cyfrifwyd o 'Amcangyfrifon Poblogaeth Canol 2020, Swyddfa Ystadegau Genedlaethol*

**Genedigaethau**

Mae'r nifer genedigaethau ar draws Gwynedd wedi gostwng dros y 10 mlynedd diwethaf:

| Blwyddyn | Nifer Genedigaethau Byw |
|---|---|
| 2011 | 1,319 |
| 2012 | 1,327 |
| 2013 | 1,229 |
| 2014 | 1,175 |
| 2015 | 1,156 |
| 2016 | 1,156 |
| 2017 | 1,130 |
| 2018 | 1,144 |
| 2019 | 1,016 |
| 2020 | 1,026 |

*Ffynhonnell – Swyddfa Ystadegau Genedlaethol*

Dengys y tabl isod y nifer genedigaethau dros y 5 mlynedd diwethaf fesul ardal llesiant:

| Ardal Llesiant | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| Bangor | 290 | 283 | 294 | 243 | 261 |
| Caernarfon | 371 | 361 | 350 | 332 | 354 |
| Llyn | 161 | 166 | 170 | 154 | 132 |
| Porthmadog | 100 | 95 | 92 | 88 | 91 |
| Ffestiniog | 61 | 57 | 74 | 66 | 56 |
| Dolgellau | 86 | 71 | 70 | 69 | 58 |
| Penllyn (Bala) | 42 | 37 | 55 | 32 | 33 |
| Tywyn | 45 | 60 | 39 | 32 | 41 |

**Rhagamcanion Poblogaeth**
Mae Adran Ymchwil Cyngor Gwynedd wedi cynhyrchu rhagamcanion poblogaeth ar gyfer yr 8 ardal llesiant yng Ngwynedd

Rhagamcanion Poblogaeth Gwynedd.

Amcangyfrifir y bydd poblogaeth Gwynedd yn codi 6.1% o 2019 hyd at y flwyddyn 2043 sydd yn tua 7,600 yn fwy o bobl. Ceir y cynnydd mwyaf yn y grŵp oedran 75+ oed gyda chynnydd o 42.1%; maehyn yn wir am Gymru hefyd gyda 60.3% o gynnydd yn y categori oed yma. Yn groes i'r patrwm ar draws Cymru, rhagwelir rhywfaint o gynnydd yn y grwpiau ieuengach (hyd at 39 oed) hefyd yng Ngwynedd.

Rhagdybir cynnydd yn niferoedd plant o dan 15 oed yn 6 allan o'r 8 Ardal Llesiant rhwng 2019 a 2043.
Ardaloedd Bangor a Dolgellau yn unig y disgwylir lleihad: Bangor -20.8%; Dolgellau -14.3%.

**Tlodi Plant**
Roedd 18% o blant rhwng 0-18 oed yn byw mewn tlodi yng Ngwynedd yn 2019. Mae hyn yn is na'r ffigwr ar gyfer Cymru gyfan, sy'n 24%.

**Plant Bregus**
Ar 31 Mawrth 2022, 'roedd 273 o blant yn derbyn gofal a 53 ar y Gofrestr Amddifyn Plant yng Ngwynedd, yn yr oedrannau canlynol:

| | Oedran 0-4 | Oedran 5-11 | Oedran 12-17 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y plant yn derbyn gofal | 56 | 110 | 107 | 273 |
| Nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | 23 | 15 | 15 | 53 |

**Plant ag Anableddau**

| | Oedran 0-4 | Oedran 5-11 | Oedran 12-17 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y plant sy'n agored i wasanaethau Derwen | 84 | 166 | 134 | 384 |

(**Derwen** yw'r Tîm Integredig Plant Anabl sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc 0-18 oed yng Ngwynedd)

**Sgiliau iaith Gymraeg (fel % o'r boblogaeth 3 oed a throsodd)**

| | Dim sgiliau mewn Cymraeg | Gallu deall Cymraeg llafar yn unig | Gallu siarad Cymraeg | Gallu siarad ond heb allu darllen nac ysgrifennu Cymraeg | Gallu siarad a darllen ond heb allu ysgrifennu Cymraeg | Gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg | Cyfuniad arall o sgiliau mewn Cymraeg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | 26.5 | 6.9 | 65.4 | 5.8 | 3.4 | 56.0 | 1.5 |
| **Cymru** | 73.3 | 5.3 | 19.0 | 2.7 | 1.5 | 14.6 | 2.5 |
| | | | | | | | |
| Bangor | 38.1 | 9.3 | 50.6 | 5.9 | 3.4 | 41.0 | 2.2 |
| Caernarfon | 13.3 | 5.4 | 80.4 | 6.5 | 3.6 | 69.9 | 1.2 |
| Llŷn | 21.0 | 5.3 | 72.9 | 5.2 | 3.0 | 64.5 | 1.0 |
| Porthmadog | 25.8 | 6.6 | 66.6 | 5.3 | 3.0 | 58.0 | 1.3 |
| Ffestiniog | 17.2 | 4.6 | 77.2 | 5.8 | 3.1 | 68.2 | 1.1 |
| Dolgellau | 35.7 | 8.6 | 54.0 | 6.3 | 3.6 | 43.9 | 1.9 |
| Penllyn | 17.7 | 5.4 | 75.8 | 5.9 | 3.5 | 66.3 | 1.2 |
| Tywyn | 51.0 | 8.7 | 38.6 | 4.0 | 3.4 | 31.0 | 1.9 |

*Ffynhonnell – Data'r Cyfrifiad 2011 – SYG, Tabl Nomis KS207WA*

Mae sgiliau iaith Gymraeg pobl sy'n byw yng Ngwynedd yn uwch o lawer nac yng Nghymru yn gyffredinol.

Gall 65.4% o'r boblogaeth dros 3 oed siarad Cymraeg, a gall 56% siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Mae hyn yn cymharu â 19% a 14.6% yng Nghymru.

Fodd bynnag, y mae gwahaniaethau mawr mewn gwahanol ardaloedd o Wynedd, gydag ardal Caernarfon â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg ar 80.4%, ac ardal Tywyn a'r ganran isaf ar 38.6%.
Mae hyn hefyd yn wir am y sawl fedr siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Ardal Caernarfon sydd â'r ganran uchaf ar 69.9%, ac ardal Tywyn sydd â'r ganran isaf ar 31%.
Ardal Tywyn hefyd sydd â'r ganran uchaf o'r boblogaeth heb unrhyw sgiliau Cymraeg - 51%.

**Cyfansoddiad Aelwydydd**

Yng Ngwynedd mae 22,441 o rieni gyda phlant dibynnol, ac o'r rhain mae 19,932 naill ai gyda'r ddau yn gweithio, neu ag un rhiant yn gweithio. Mae 2509 o rieni gyda phlant dibynnol heb fod yn gweithio.

| | Pob categori: Statws teulu yn ôl nifer y rhieni yn gweithio | Teulu cwpl: Cyfanswm | Teulu cwpl: Y ddau riant yn gweithio | Teulu cwpl: Un rhiant yn gweithio | Teulu cwpl: Yr un o'r rhieni yn gweithio | Teulu un rhiant: Cyfanswm | Teulu un rhiant: rhiant yn gweithio | Teulu un rhiant: Rhiant heb fod yn gweithio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Plant Dibynnol** | | | | | | | | |
| Pob categori: Plant dibynnol yn y teulu | 22,441 | 18,907 | 13,486 | 4,218 | 1,203 | 3,534 | 2,228 | 1,306 |
| Un plentyn dibynnol yn y teulu | 9,260 | 7,258 | 5,344 | 1,469 | 445 | 2,002 | 1,333 | 669 |
| Dau blentyn dibynnol yn y teulu | 8,608 | 7,569 | 5,734 | 1,455 | 380 | 1,039 | 656 | 383 |
| Tri neu fwy o blant dibynnol yn y teulu | 4,573 | 4,080 | 2,408 | 1,294 | 378 | 493 | 239 | 254 |

*Ffynhonnell – Data'r Cyfrifiad 2011 – SYG, Tabl Nomis DC1601EWLA*

Yng Ngwynedd mae 16.8% o blant dan 16 oed yn byw mewn teuluoedd ar incwm isel. Mae hyn yn cymharu â 22.6% i Gymru gyfan.

- Mae 2520 o blant yn byw mewn teulu sy'n derbyn Cymorth Incwm neu Lwfans Ceisiwr Swydd Seiliedig ar Incwm.
- Mae 350 o blant yn byw mewn teulu sy'n derbyn Credyd Treth Gwaith a Chredyd Treth Plant, ac y mae eu hincwm yr adroddwyd amdano yn llai na 60% o'r incwm cymedrig.
- Mae 455 o blant yn byw mewn teulu sy'n derbyn Credyd Treth plant yn unig, ac y mae eu hincwm yr adroddir amdano yn llai na 60% o'r incwm cymedrig.
- Mae 19,845 o blant yn byw mewn teulu sy'n derbyn Budd-dâl Plant.


**Cefndir Ethnig**
Dengys y tabl isod ym mha grŵp ethnig y mae pobl o Wynedd yn eu gosod eu hunain.

| Grŵp Ethnig | | |
|---|---|---|
| **Pob preswylydd arferol** | **121,874** | |
| **Gwyn** | **117,573** | **96.5%** |
| Saeson/Cymry/Albanaidd/Gogledd Iwerddon /Prydeinig | 115,072 | 94.4% |
| Gwyddelig | 570 | 0.5% |
| Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | 153 | 0.1% |
| Gwyn Arall | 1,778 | 1.5% |
| **Grŵp ethnig cymysg/lluosog** | **964** | **0.8%** |
| Gwyn a Du Caribiaidd | 287 | 0.2% |
| Gwyn a Du Affricanaidd | 126 | 0.1% |
| Gwyn ac Asiaidd | 332 | 0.3% |
| Cymysg Arall | 219 | 0.2% |
| **Asiaidd/Asiaidd Prydeinig** | **2,170** | **1.8%** |
| Indiaidd | 461 | 0.4% |
| Pacistanaidd | 220 | 0.2% |
| Bangladeshaidd | 176 | 0.1% |
| Tsineaidd | 905 | 0.7% |
| Asiaidd Arall | 408 | 0.3% |
| **Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig** | **289** | **0.2%** |
| Affricanaidd | 195 | 0.2% |
| Caribïaidd | 70 | 0.1% |
| Du Arall | 24 | 0.0% |
| **Grŵp ethnig arall** | **878** | **0.7%** |
| Arabaidd | 700 | 0.6% |
| Unrhyw grŵp ethnig arall | 178 | 0.1% |


*Ffynhonnell – Data'r Cyfrifiad 2011 Tabl KS201EW*

## 5. Trosolwg – Mathau o Ofal Plant, Gwasanaethau a Llefydd

**Nifer y Darparwyr Gofal Plant a Mathau o Wasanaethau**
Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg cyflawn o'r holl leoliadau gofal plant yn y sir gan ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn Mawrth 2022

| Math o Ofal Plant | Cyfanswm Nifer | Cyfanswm Nifer y Llefydd Cofrestredig | |
|---|---|---|---|
| Gwarchodwyr | 52 | 416 |  |
| Meithrinfeydd Gofal Dydd Llawn | 19 | 910 |  |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cylch Meithrin Grŵp Chwarae (Sesiynol) | 62 | 1464 |  |
| Clybiau ar ôl Ysgol (cofrestredig) | 30 | 1147 |  |
| Cofleidiol (Wraparound) | 78 | 1874 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Clybiau Gwyliau | 23 | 934 |  |
| Clybiau Brecwast (dim mewn ysgol) | 11 | 531 |  |
| Clybiau Brecwast (mewn ysgol) | 79 | 1868 |  |

Mae'r data ar gyflenwad a galw canlynol wedi'i gymryd o'r datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (HAG) dienw a ddarparwyd i awdurdodau lleol gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn 2021.
Bydd unrhyw ddata a gymerir o fannau eraill yn cael eu cyfeirio drwyddi draw. Gan ddefnyddio gwybodaeth leol y Timau Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwybodaeth i Deuluoedd, mae'n amlwg o rai o'r ymatebion nad yw darparwyr wedi deall y cwestiynau'n llawn. Fodd bynnag, mae'r data wedi'i ddadansoddi fel y'i cyflwynwyd ac eithrio lle mae gwarchodwyr plant wedi nodi eu bod yn darparu llefydd Addysg Feithrin. Nid yw Cyngor Gwynedd yn ariannu unrhyw warchodwyr plant i ddarparu Addysg Feithrin, fodd bynnag, gallant ddilyn y cwricwlwm yn agos.

Nid oes data gennym yn y tablau canlynol am leoliadau heb eu cofrestru – y rhai sy'n gweithredu am lai na 2 awr y dydd a heb gofrestru gydag AGC. Yr ydym yn ymwybodol o 9 Clwb ar ôl Ysgol heb eu cofrestru yng Ngwynedd.

Mae'r lleoliadau gofal plant wedi cwblhau eu data HAG yn ôl eu cofrestriad AGC, sydd weithiau yn golygu fod eu 'Math o Ofal Plant' fymryn yn wahanol i'r hyn a nodir gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.
e.e. mae llawer o'r Cylchoedd Meithrin yn awr yn gofrestredig gydag AGC fel 'Gofal Dydd Llawn' oherwydd yr oriau y maent ar agor, fodd bynnag nid ydynt yn darparu lleoedd i blant dan 2 / 2½ oed fel y mae meithrinfeydd gofal dydd llawn.

| Math o Ofal Plant | Cofrestredig | Heb gofrestru/ Cymeradwywyd | Gwasanaethau Gofal Plant a Gynigir | Nifer |
|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 61 | | Gofal dydd llawn trwy gydol y flwyddyn | 58 |
| | | | Gofal dydd tymor ysgol yn unig | 3 |
| | | | Gofal hanner diwrnod | 20 |
| | | | Cyn ysgol | 26 |
| | | | Ar ôl ysgol | 40 |
| Gofal Dydd | | | | |
| Gofal Dydd Llawn | 57 | | Gofal dydd llawn trwy gydol y flwyddyn | 30 |
| | | | Gofal dydd tymor ysgol yn unig | 27 |
| | | | Gofal hanner diwrnod | 21 |
| | | | Cyn ysgol | 13 |
| | | | Grŵp chwarae / Cylch Meithrin bore | 29 |
| | | | Grŵp chwarae / Cylch Meithrin prynhawn | 21 |
| | | | Ar ôl ysgol | 25 |
| | | | Amser cinio | 23 |
| | | | Crèche | 3 |
| Gofal Dydd Sesiynol | 30 | | Gofal sesiynol trwy gydol y flwyddyn | 1 |
| | | | Gofal sesiynol tymor ysgol yn unig | 29 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Grŵp Chwarae / Cylch Meithrin Bore | 26 |
| | | | Grŵp Chwarae / Cylch Meithrin Prynhawn | 6 |
| | | | Amser cinio | 14 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Crèches | 0 | | | |
| Gofal Tu Allan i oriau Ysgol | 12 | | Gofal trwy gydol y flwyddyn | 4 |
| | | | Gofal tymor ysgol yn unig | 7 |
| | | | Gwyliau yn unig | 1 |
| | | | Cyn ysgol | 1 |
| | | | Ar ôl ysgol | 11 |
| Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored | 0 | | | |
| Nani | 0 | | | |
| CYFANSWM | 160 | | | |

*Ffynhonnell: Data HAG AGC 2021*

**Dosbarthiad Daearyddol Darparwyr Gofal Plant a'r Gwasanaethau a Ddarperir**

Mae dosbarthiad yr holl ddarparwyr gofal plant yn anwastad iawn ar draws Gwynedd.

Ardaloedd 1 a 2 (Bangor a Chaernarfon) sydd â'r cyflenwad mwyaf o bob math o ofal plant; hwy hefyd yw ardaloedd mwyaf poblog y sir - cyfanswm poblogaeth o 30,519 a 33,798. Dyma hefyd yr ardaloedd gyda chyflogwyr mwyaf y sir - Cyngor Gwynedd, Ysbyty Gwynedd a Phrifysgol Bangor.

Mae gostyngiad graddol yn nifer y darparwyr wrth i chi deithio ymhellach i dde'r sir, gydag Ardaloedd 6 ac 8 (Dolgellau a Thywyn) â chyflenwad cyfyngedig o bob math o ofal plant.

Ardal 1 (Bangor): dosbarthiad da o bob math o ofal plant, ac un darpariaeth gofal dydd llawn ar agor ar benwythnosau.

Ardal 2 (Caernarfon) : dosbarthiad da o bob math o ofal plant

Ardal 3 (Llŷn) : er yr ymddengys bod cyflenwad da o ofal plant yn yr ardal, mae'r rhan fwyaf ohono ym 'mhen uchaf' yr ardal ( Pwllheli / Nefyn) heb fawr ddim cyflenwad ym mhen draw Llŷn.

Cylchoedd Meithrin sesiynol yn unig sydd gan Aberdaron a Bryncroes, ac y mae hon yn ardal eang heb ddarpariaeth addysg feithrin nas-gynhelir, ar ôl ysgol nac yn ystod y gwyliau, ac eithrio'r hyn a ddarperir gan warchodwyr plant.

Ardal 4 (Porthmadog) : er yr ymddengys bod cyflenwad da o ofal plant yn yr ardal, mae'r rhan fwyaf ohono ym mhrif dref Porthmadog neu'r cyffiniau, heb fawr ddim cyflenwad yn yr ardaloedd gwledig.

Ardal 5 (Ffestiniog) : mae cyflenwad da o warchodwyr plant ym Mlaenau Ffestiniog, 1 meithrinfa gofal dydd llawn wedi bod yn gwasanaethau ers nifer o flynyddoedd, ac 1 feithrinfa gofal dydd llawn newydd wedi agor mis Ionawr 2022. Mae Cylchoedd Meithrin yn Llan Ffestinog a Trawsfynydd, a Cylch newydd wedi agor ym Mlaenau Ffestiniog mis Hydref 2021. Ychydig os o gwbl o ofal plant sydd ar gael yng nghefn gwlad.

Ardal 6 (Dolgellau) : cyfyngedig dros ben yn y cyflenwad o warchodwyr plant, gyda dim ond 1 gwarchodwyr plant cofrestredig yn gweithio o fewn yr ardal. 2 Feithrinfa Gofal Dydd Llawn sy'n ymdrin ag ardal eang, a darpariaeth gyfyngedig iawn sydd ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau.

Ardal 7 (Penllyn) : cyflenwad gofal plant wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf, yn rhannol oherwydd buddsoddiad arian cyfalaf Llywodraeth Cymru.
Lleoliad gofal dydd llawn wedi agor ar safle Ysgol Bro Tryweryn, sydd ar agor yn ystod tymor ysgol a gwyliau;
Clwb ar ôl Ysgol cofrestredig wedi agor ger Ysgol Ffridd y Llyn o dan cofrestriad y Cylch Meithrin;
Datblygiad newydd ar safle hen Ysgol Beuno Sant wedi cychwyn, fydd yn cyfuno'r Feithrinfa a'r Cylch Meithrin yn un Ganolfan Deulu i'r dref.
Un gwarchodwraig ar agor ar benwythnosau.

Ardal 8 (Tywyn) : cyflenwad sefydlog o ofal plant gyda meithrinfa dydd llawn, 2 Gylch Meithrin, Grŵp Chwarae a 2 warchodwraig yn ardal Tywyn / Aberdyfi / Bryncrug. Dim gofal plant tu allan i'r ardaloedd yma.
Cylch Meithrin a Grŵp Chwarae yn Nhywyn wedi ymestyn i gynnig darpariaeth yn ystod gwyliau ysgol yn dilyn y galw lleol.

**Llefydd Gofal Plant - Cyflenwad a Galw yn ôl y Math o Ofal Plant**
**Darpariaeth Gofrestredig – Adeg Tymor**

| Math o Ofal Plant | Nifer llefydd cofrestredig | Tymor Ysgol | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Nifer ar gyfartaledd yn mynychu bob wythnos yn ôl canlyniadau SASS | Cyfanswm lleoedd gwag | Cyfanswm nifer plant ar restr aros. |
| Gwarchodwr Plant | 486 | 531 | 40 | 62 |
| Gofal Dydd | | | | |
| Gofal Dydd Llawn | 1974 | 1928 | 201 | 36 |
| Gofal Dydd Sesiynol | 552 | 956 | 197 | 23 |
| Gofal tu allan i oriau Ysgol | 371 | 513 | 141 | 11 |

**Darpariaeth Gofrestredig - Gwyliau Ysgol**

Nid oedd dyddiadau'r HAG yn disgyn yn ystod wythnos gwyliau ysgol. Felly nid yw'n bosibl dadansoddi presenoldeb ar gyfer gofal plant yn ystod y gwyliau trwy ddefnyddio data'r HAG.

Y cwestiwn a ofynnwyd gan yr HAG, a oedd lleoliadau yn bwriadu agor yn ystod y gwahanol gyfnodau gwyliau. Er y gofynnwyd i ddarparwyr nodi sawl diwrnod y byddent yn agor yn ystod pob gwyliau, mae'n ymddangos bod rhai wedi ymateb gyda nifer y diwrnodau'r wythnos tra bod eraill wedi ateb gyda nifer y diwrnodau y byddent ar agor dros gyfnod y gwyliau yn gyfan gwbl. Felly nid yw'n bosibl asesu nifer y diwrnodau y byddent ar agor.

Fodd bynnag, dangosir nifer y lleoliadau sydd ar agor yn ystod gwyliau:

| Math o Ofal Plant | Gwyliau Haf | Hanner Tymor Hydref | Nadolig | Hanner Tymor Chwefror | Pasg | Hanner Tymor Mai |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| Gwarchodwr Plant | 56 | 44 | 16 | 50 | 46 | 42 |
| Gofal Dydd Llawn | 30 | 26 | 17 | 25 | 27 | 26 |
| Gofal Dydd Sesiynol | 1 | 1 | | 1 | 1 | 1 |
| Gofal tu allan i oriau Ysgol | 4 | 4 | 1 | 4 | 4 | 4 |

Dengys y tabl isod nifer y plant ar rest aros ar gyfer y gwyliau, fesul math o ddarpariaeth:

| Math o Ofal Plant | Gwyliau Haf | Hanner Tymor Hydref | Nadolig | Hanner Tymor Chwefror | Pasg | Hanner Tymor Mai |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| Gwarchodwr Plant | 14 | 6 | 7 | 12 | 9 | 5 |
| Gofal Dydd Llawn | 21 | 6 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal Dydd Sesiynol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofal tu allan i oriau Ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

**Cyflenwad a Galw**

**Adeg Tymor**

Mae gwarchodwyr plant, darpariaeth gofal dydd llawn, gofal dydd sesiynol a gofal tu allan i oriau ysgol i gyd yn adrodd lleoedd gwag yn ystod tymor ysgol, ond hefyd rhai gyda rhestrau aros.

Mae’r lleoedd gwag a rhestrau aros wedi dosbarthu ar draws y Sir.
Rydym yn ymwybodol, o drafodaethau mwy diweddar na’r HAG(2021) bod rhestrau aros gan nifer o feithrinfeydd gofal dydd llawn ar gyfer plant 0 - 2oed, gyda rhai yn nodi dim argaeledd tan fis Medi 2023.

Gyda’r nifer o warchodwyr wedi disgyn yn sylweddol dros y 5 mlynedd diwethaf, rydym yn ymwybodol bod y galw wedi cynyddu’n sylweddol i’r rhai sy’n parhau i weithredu, gyda nifer bellach ddim yn cadw rhestr oherwydd y nifer plant sydd ganddynt arno yn barod.

**Gwyliau Ysgol**
Gwarchodwyr plant yn nodi rhestr aros ar gyfer yr holl wyliau, a darparwyr gofal dydd llawn yn nodi rhestr aros ar gyfer gwyliau haf a hanner tymor Hydref yn unig.

**Darpariaeth Iaith**
Mae'r tabl isod yn dangos y brif iaith a ddefnyddir yn y lleoliadau gofal plant ar draws y Sir

| Iaith y Ddarpariaeth | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cymraeg | 108 | 67.50% |
| Dwyieithog | 30 | 18.75% |
| Saesneg | 22 | 13.75% |

Dengys y tabl isod iaith y ddarpariaeth fesul ardal:

| Iaith y Ddarpariaeth | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| **Ardal 1** | | |
| Dwyieithog | 11 | 6.88% |
| Saesneg | 9 | 5.63% |
| Cymraeg | 15 | 9.38% |
| **Ardal 2** | | |
| Dwyieithog | 7 | 4.38% |
| Saesneg | 2 | 1.25% |
| Cymraeg | 39 | 24.38% |

| | | |
|---|---|---|
| **Ardal 3** | | |
| Dwyieithog | 8 | 5.00% |
| Saesneg | 3 | 1.88% |
| Cymraeg | 22 | 13.75% |
| **Ardal 4** | | |
| Dwyieithog | 1 | 0.63% |
| Saesneg | 1 | 0.63% |
| Cymraeg | 10 | 6.25% |
| **Ardal 5** | | |
| Dwyieithog | 2 | 1.25% |
| Cymraeg | 5 | 3.13% |
| **Ardal 6** | | |
| Saesneg | 3 | 1.88% |
| Cymraeg | 7 | 4.38% |
| **Ardal 7** | | |
| Saesneg | 1 | 0.63% |
| Cymraeg | 8 | 5.00% |
| **Ardal 8** | | |
| Dwyieithog | 1 | 0.63% |
| Saesneg | 3 | 1.88% |
| Cymraeg | 2 | 1.25% |

**Dadansoddiad iaith staff:**
O'r rhai a atebodd yr adran hon o'r HAG dangosir y dadansoddiad o allu staff i siarad Cymraeg yn y tabl isod:

| Gallu staff i siarad Cymraeg | Faint o staff sy'n rhugl yn y Gymraeg | Faint o staff sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg | Faint o staff sy'n gallu siarad ychydig neu ddim Cymraeg |
|---|---|---|---|
| Gwarchodwyr | 44 | 8 | 9 |
| Gofal Dydd Llawn | 422 | 30 | 19 |
| Gofal Dydd Sesiynol | 97 | 3 | 2 |
| Gofal Tu Allan i Oriau Ysgol | 37 | 4 | 6 |
| **Cyfanswm** | **600** | **45** | **36** |

**Darpariaeth Bwyd**
O'r data HAG, nododd 98 o ddarpariaethau eu bod yn darparu bwyd, a 62 ddim.
Gofal sesiynol oedd â'r ganran uchaf ddim yn darparu bwyd gyda 56%, gyda gwarchodwyr plant yn dilyn, gyda 42%.

Roedd 22 darparwr yn codi cost ychwanegol, ar ben ffioedd gofal plant, i ddarparu bwyd.
Gofal sesiynol oedd â'r ganran uchaf yn codi cost ychwanegol gyda 54%, gyda gofal dydd llawn yn dilyn, gyda 28%.

Roedd 89% o ddarpariaeth gyda system rheoli diogelwch bwyd, a 76.5% wedi cofrestru fel busnes bwyd gyda'r awdurdod lleol.
Mae 92% wedi cael eu harolygu gan yr Awdurdod Lleol, gyda 93.75% wedi derbyn sgôr o 5, 5% sgôr o 4, a 1.25% heb ymateb.

**Lleoliad y ddarpariaeth**
Dengys y tabl isod lleoliad y ddarpariaethau ar draws y Sir

| Lleoliad | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cymunedol | 28 | 17.50% |
| Cyngor | 1 | 0.63% |
| Cyflogwr | 4 | 2.50% |
| Preifat | 24 | 15.00% |
| Ysgol | 44 | 27.50% |
| Heb ateb | 59 | 36.88% |

## 6. Cyflenwad Gofal Plant

### 6.1 Gwarchodwr Plant

**Dadansoddiad o'r Cyflenwad o Ddarpariaeth Gofal Plant**

Mae data presennol y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn nodi yng Ngwynedd mae gennym gyfanswm o 52 o leoliadau gwarchodwyr plant cofrestredig yn darparu cyfanswm o 416 o lefydd cofrestredig. Hefyd, mae 8 gwarchodwr plant sydd ar hyn o bryd wedi atal eu cofrestriad yn wirfoddol (h.y. wedi cofrestru gydag AGC ond ddim yn darparu gwasanaeth ar hyn o bryd)

Yn ystod y 5 flwyddyn ddiwethaf cawsom 16 cofrestriad newydd mewn lleoliadau ar draws y sir, ond yn ystod y 5 flynedd yma mae 70 o warchodwyr plant wedi dadgofrestru, gan roi gostyngiad net i ni o 54 gwarchodwr plant mewn 5 mlynedd.
Mae gennym ar hyn o bryd 4 ymgeisydd naill ai ar hyfforddiant cyn-gofrestru, wrthi'n cwblhau eu cais am gofrestriad AGC neu sydd wedi cyflwyno eu cais ac yn aros am eu cofrestriad AGC.

**Iaith darpariaeth**

Dengys y tabl isod prif iaith darpariaeth gwarchodwyr fesul ardal:

| Iaith y Ddarpariaeth | Ardal 1 | Ardal 2 | Ardal 3 | Ardal 4 | Ardal 5 | Ardal 6 | Ardal 7 | Ardal 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymraeg | 1 | 12 | 9 | 1 | 3 | | 2 | |
| Dwyieithog | 3 | 5 | 7 | | 1 | | | |
| Saesneg | 7 | 2 | 3 | 1 | | 1 | 1 | 2 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGC 2021*

**Amred gwasanaethau a ddarperir**

Dengys y tabl isod amred y gwasanaethau a gynigir gan warchodwyr plant ym mhob un o'r ardaloedd:

| | Ardal 1 | Ardal 2 | Ardal 3 | Ardal 4 | Ardal 5 | Ardal 6 | Ardal 7 | Ardal 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Nifer Gwarchodwyr Plant** | **11** | **19** | **19** | **2** | **4** | **1** | **3** | **2** |
| Gofal Dydd Llawn | 10 | 19 | 19 | 2 | 4 | 1 | 3 | 2 |
| Gofal am Hanner Diwrnod | 6 | 3 | 9 | 1 | 1 | 0 | 1 | 1 |
| Cyn Ysgol | 2 | 14 | 9 | 1 | 0 | 1 | 1 | 2 |
| Ar ôl Ysgol | 7 | 15 | 10 | 2 | 1 | 1 | 3 | 1 |
| Darpariaeth Gwyliau | 10 | 18 | 18 | 2 | 4 | 1 | 3 | 2 |
| Arall:- penwythnosau/gyda'r nos wedi 6yh | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGC 2021*

Dengys y tabl isod nifer y gwarchodwr gyda rhestr aros am wasanaethau ym mhob ardal:

| | Ardal 1 | Ardal 2 | Ardal 3 | Ardal 4 | Ardal 5 | Ardal 6 | Ardal 7 | Ardal 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofal Dydd Llawn | 5 | 6 | 9 | 1 | 4 | 1 | | |
| Gofal am Hanner Diwrnod | | | 1 | | | | | |
| Cyn Ysgol | | 1 | 1 | | | | | |
| Ar ôl Ysgol | 1 | 3 | | 1 | | | | |

Mae mwyafrif y gwarchodwyr plant yn cynnig darpariaeth gofal dydd llawn drwy gydol y flwyddyn.
Mae 3 gwarchodwr plant yn gweithio tymor ysgol yn unig.
Dim ond un warchodwraig plant a nododd ei bod yn cynnig gwasanaeth penwythnos i rieni.

Mae prinder amlwg o warchodwyr plant yn Ardaloedd 4,5,6,7 ac 8, a gwarchodwyr yn Ardaloedd 1, 2 a 3 yn nodi rhestrau aros am wasanaeth gofal dydd llawn.

**Gwyliau Ysgol**
Dengys y tabl isod nifer gwarchodwyr sydd ar agor ym mhob ardal yn ystod y gwyliau:

| | Ardal 1 | Ardal 2 | Ardal 3 | Ardal 4 | Ardal 5 | Ardal 6 | Ardal 7 | Ardal 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwyliau Haf | 10 | 18 | 18 | 2 | 3 | 1 | 3 | 2 |
| Hanner Tymor Hydref | 9 | 15 | 14 | 2 | 3 | 1 | 3 | 2 |
| Nadolig | 4 | 6 | 6 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Hanner Tymor Chwefror | 10 | 15 | 18 | 2 | 3 | 1 | 3 | 2 |
| Pasg | 10 | 15 | 18 | 2 | 4 | 1 | 1 | 2 |
| Hanner Tymor Mai | 9 | 15 | 15 | 2 | 3 | 1 | 3 | 2 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGC 2021*

Dim ond gwarchodwyr yn Ardal 2 a 3 a nodwyd bod ganddynt restr aros ar gyfer darpariaeth yn ystod y gwyliau, dengys y tabl isod y nifer gwarchodwyr gyda rhestr aros:

| | Ardal 2 | Ardal 3 |
|---|---|---|
| Gwyliau Haf | 2 | 4 |
| Hanner Tymor Hydref | 2 | 1 |
| Nadolig | 1 | 2 |
| Hanner Tymor Chwefror | 1 | 4 |
| Pasg | 1 | 3 |
| Hanner Tymor Mai | 1 | 1 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGC 2021*

**Amseroedd Agor**
Dangosodd data yr HAG amrywiaeth eang o amseroedd agor a chau i warchodwyr plant ar hyd a lled Gwynedd.
Oriau Agor:
24 ar agor rhwng 07:00 – 07:45
36 ar agor rhwng 08:00 – 08:30
1 ar agor am 09:00

Oriau Cau:
42 yn cau rhwng 17:30 – 18:00
15 yn cau rhwng 17:00 – 17:15
1 yn cau am 16:45
3 yn cau am 16:00

Mae nifer o warchodwyr yn gweithio llai na 5 diwrnod yr wythnos:

| | Nifer gwarchodwyr ar gau |
|---|---|
| Dydd Llun | 9 |
| Dydd Mawrth | 2 |
| Dydd Mercher | 3 |
| Dydd Iau | 1 |
| Dydd Gwener | 19 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGC 2021*

**Ystod Oedran y Plant**
Mae mwyafrif y gwarchodwyr yn gofalu am blant rhwng 12 mis a 7 mlwydd oed, gyda llai yn gofalu am blant iau na 12 mis a hŷn nac 8 oed, a dim ond 1 gwarchodwraig oedd yn gofalu am blentyn 12-14 oed.
Dyma ddadansoddiad o nifer y plant ar y llyfrau gan warchodwyr plant dros y sir.

| Ystod Oedran | Nifer Gwarchodwyr | Nifer Plant |
|---|---|---|
| Dan 12 mis | 10 | 11 |
| 1 oed | 43 | 82 |
| 2 oed | 43 | 90 |
| 3 oed | 49 | 108 |
| 4 oed | 30 | 62 |
| 5 – 7 oed | 33 | 85 |
| 8 – 11 oed | 27 | 55 |
| 12 – 14 oed | 1 | 1 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGC 2021*

**Amrywiaeth Tâl a Godir**
Mae cost yr awr ar gyfer darparaieth gwarchodwr plant yn amrywio rhwng £4.00 - £5.00
Mae cost y dydd yn amrywio rhwng £30.00 - £40.00

Mae'r gyfradd gofal dydd lawn isaf ac uchaf yn Ardal 2 (Caernarfon)
Nododd 12 gwarchodwr plant eu bod yn cynnig gostyngiad i frodyr a chwiorydd.

**Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Anghenion Addysgol Arbennig**
Dengys y tabl isod data Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sirol ar gyfer gwarchodwyr plant:

| | Nifer |
|---|---|
| Gwasanaeth yn gwneud atgyfeiriadau i'r Awdurdod Lleol a/neu'n cysylltu â nhw o ran darpariaeth/cefnogaeth i blant ag ADY/AAA | 3 |
| Nifer y gwasanaethau yn ymwybodol o'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol | 10 |
| Nifer y gwasanaethau lle mae gan unrhyw staff hyfforddiant ychwanegol/arbenigol i gefnogi plant ag ADY/AAA. | 0 |

| | |
|---|---|
| Gwasanaethau ag unigolion dynodedig sy’n gwneud trefniadau ar gyfer darpariaeth ADY/AAA i blant | 2 |
| Cyfanswm y plant (o bob oed) a ddynodwyd yn ffurfiol ag anawsterau dysgu neu anableddau | 1 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGC 2021*

Gweler isod y mathau o ADY/AAA y darperir ar eu cyfer / a gefnogir gan y gwasanaeth ar hyn o bryd:

| | **Nifer** |
|---|---|
| Gwybyddiaeth a Dysgu | 4 |
| Datblygiad ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol | 4 |
| Cyfathrebu a Rhyngweithio | 5 |
| Synhwyraidd a/neu gorfforol | 5 |

**Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol**

Nid oes dosbarthiad gwastad o warchodwyr plant ar draws y sir, gyda gostyngiad sylweddol yn Ardaloedd 4,5,6,7 ac 8

Mae trosiant uchel iawn o gofrestriadau gwarchodwyr plant o gymharu â mathau eraill o ofal plant.
Yn ystod y 5 flwyddyn ddiwethaf cawsom 16 cofrestriad newydd mewn lleoliadau ar draws y sir, ond yn ystod y 5 flynedd yma mae 70 o warchodwyr plant wedi dadgofrestru, gan roi gostyngiad net i ni o 54 gwarchodwr plant mewn 5 mlynedd.

Mae gwarchodwyr yn Ardaloedd 1, 2 a 3 yn nodi rhestrau aros am wasanaeth gofal dydd llawn.

Dim ond 16% nododd eu bod yn ymwybodol or Côd Anghenion Dysgu Ychwanegol
Dim ond 5 o blant gydag ADY neu anabledd sy’n mynychu lleoliad gwarchodwr plant; fodd bynnag, mae’r mwyafrif yn nodi ar eu ffurflenni GGD y buasent yn barod i ofalu am blentyn gydag ADY neu anabledd.

Mae cyflenwad da o ddarpariaeth yn y Gymraeg / Dwyieithog ar draws y rhan fwyaf o’r sir, gyda 72% o warchodwyr plant yn dweud eu bod yn lleoliad Cymraeg neu Ddwyieithog. Fodd bynnag, dim ond darpariaeth Saesneg sydd ar gael yn Ardal 6(Dolgellau) ac Ardal 8(Tywyn)

Mae gwarchodwyr plant yn darparu ystod eang o wasanaethau gyda'r mwyafrif yn darparu dewis o ofal amser llawn neu ran-amser.
Mae'r rhan fwyaf o warchodwyr plant ar agor yn ystod y gwyliau ysgol, gyda dim ond 3 yn nodi mae tymor ysgol yn unig yr oeddent ar agor

Mae gwarchodwyr plant yn cynnig gofal i ystod eang o grwpiau oedran.

## 6.2 Gofal Dydd Llawn

**Dadansoddiad o Gyflenwad Darpariaeth Gofal Plant**
Mae data presennol y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn nodi yng Ngwynedd mae gennym gyfanswm o 19 meithrinfa gofal dydd llawn, yn darparu cyfanswm o 910 lle cofrestredig.

Yn ychwanegol i'r meithrinfeydd gofal dydd llawn hyn, mae lleoliadau eraill wedi'u cofrestru fel gofal dydd llawn ond yn darparu ystod o sesiynau trwy gydol y dydd, neu maent ar agor yn ystod tymor ysgol yn unig.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, cawsom 1 feithrinfa ddydd llawn newydd yn cofrestru yn Ardal 5 (Ffestiniog) -hyn yn Ionawr 2022, felly nid yw'r manylion yn dangos o fewn yr wybodaeth HAG isod.
Bu i 2 feithrinfa ddydd llawn gau yn ystod yr amser hwn, un yn Ardal 6 (Dolgellau) ac un yn Ardal 1 (Bangor). Ail agorwyd yr un yn Ardal 1(Bangor) o dan berchnogaeth newydd.

**Iaith darpariaeth**
Dengys y tabl isod prif iaith darpariaeth gofal dydd llawn fesul ardal:

| Iaith y Ddarpariaeth | Ardal 1 | Ardal 2 | Ardal 3 | Ardal 4 | Ardal 5 | Ardal 6 | Ardal 7 | Ardal 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymraeg | 12 | 12 | 6 | 6 | 1 | 4 | 4 | 1 |
| Dwyieithog | 5 | 1 | | 1 | | | | 1 |
| Saesneg | | | | | | 2 | | 1 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGC 2021*

**Amred gwasanaethau a ddarperir**
Dengys y tabl isod amred y gwasanaethau a gynigir ym mhob un o'r ardaloedd:

| | Ardal 1 | Ardal 2 | Ardal 3 | Ardal 4 | Ardal 5 | Ardal 6 | Ardal 7 | Ardal 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm nifer darpariaeth Gofal Dydd Llawn** | **17** | **13** | **6** | **7** | **1** | **6** | **4** | **3** |
| Gofal Dydd Llawn | 9 | 4 | 2 | 2 | 1 | 6 | 2 | 2 |
| Gofal am Hanner Diwrnod | 8 | 4 | | | 1 | 5 | 1 | 2 |
| Cyn Ysgol | 5 | 2 | | 1 | | 1 | 2 | 2 |
| Ar ôl Ysgol | 9 | 4 | | 2 | 1 | 4 | 2 | 3 |
| Grŵp chwarae / Cylch Meithrin bore | 7 | 9 | 3 | 5 | | 3 | 2 | 2 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp chwarae / Cylch Meithrin prynhawn | 6 | 6 | 2 | 3 | | 2 | 1 | 2 |
| Amser cinio | 6 | 5 | 3 | 2 | | 4 | 2 | 1 |
| Crèche | | 1 | 1 | | | | | 1 |
| Darpariaeth Gwyliau | 11 | 4 | 1 | 2 | 1 | 5 | 3 | 3 |
| Arall:- penwythnosau/gyda'r nos wedi 6yh | 1 | | | | | | | |

*Ffynhonnell: Data HAG AGC 2021*

Dengys y tabl isod nifer y darparwyr gyda rhestr aros am wasanaethau ym mhob ardal:

| | **Ardal 1** | **Ardal 2** | **Ardal 3** | **Ardal 4** | **Ardal 5** | **Ardal 6** | **Ardal 7** | **Ardal 8** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofal Dydd Llawn | 3 | 1 | 1 | 2 | | 1 | | |
| Gofal am Hanner Diwrnod | 2 | 1 | | | | | | |
| Cyn Ysgol | | | | | | | | |
| Ar ôl Ysgol | | 1 | | | | | | |
| Grŵp chwarae / Cylch Meithrin bore | | 1 | | 1 | | | | |
| Grŵp chwarae / Cylch Meithrin prynhawn | 1 | | | | | 1 | | |
| Amser cinio | | 1 | | 1 | | | | |

Dim ond 28 allan o'r 57 darpariaeth sydd yn cynnig darpariaeth gofal dydd llawn, mae gweddill y lleoliadau yn cynnig ystod o sesiynau drwy gydol y dydd.
Mae 27 o ddarpariaethau ar agor tymor ysgol yn unig, sydd yn golygu prinder darpariaeth yn ystod y gwyliau ym mhob ardal, heblaw Ardal 1(Bangor).
Dim ond un darparwr yn Ardal 1 sydd wedi nodi eu bod yn cynnig gwasanaeth penwythnos i rieni.

Mae prinder amlwg o ddarpariaeth gofal dydd llawn yn Ardaloedd 3,4,5,7 ac 8, a darparwyr yn Ardaloedd 1, 2, 3 a 4  yn nodi rhestrau aros am wasanaeth gofal dydd llawn.

**Gwyliau Ysgol**
Dengys y tabl isod nifer y darparwyr sydd ar agor ym mhob ardal yn ystod y gwyliau:

| | Ardal 1 | Ardal 2 | Ardal 3 | Ardal 4 | Ardal 5 | Ardal 6 | Ardal 7 | Ardal 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwyliau Haf | 11 | 4 | 1 | 2 | 1 | 5 | 3 | 3 |
| Hanner Tymor Hydref | 10 | 4 | 1 | 2 | 1 | 3 | 2 | 3 |
| Nadolig | 7 | 3 | 1 | 1 | 1 | 3 | 0 | 1 |
| Hanner Tymor Chwefror | 10 | 4 | 1 | 2 | 1 | 2 | 2 | 3 |
| Pasg | 10 | 4 | 1 | 2 | 1 | 3 | 2 | 3 |
| Hanner Tymor Mai | 10 | 4 | 1 | 2 | 1 | 3 | 2 | 3 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGC 2021*

Dim ond darparwyr yn Ardaloedd 1,4,6 ac 8 a nodwyd bod ganddynt restr aros ar gyfer darpariaeth yn ystod y gwyliau, dengys y tabl isod y nifer gyda rhestr aros:

| | Ardal 1 | Ardal 4 | Ardal 6 | Ardal 8 |
|---|---|---|---|---|
| Gwyliau Haf | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Hanner Tymor Hydref | | | | 1 |
| Nadolig | | | | |
| Hanner Tymor Chwefror | | | | |
| Pasg | | | | |
| Hanner Tymor Mai | | | | |

*Ffynhonnell: Data HAG AGC 2021*

**Amseroedd Agor**
Dangosodd data yr HAG amrywiaeth eang o amseroedd agor a chau ar hyd y Sir.

Oriau Agor:
14 ar agor rhwng 07:00 – 07:45
16 ar agor rhwng 08:00 – 08:30
24 ar agor rhwng 08:45 – 09:15
3 ar agor rhwng 10:30 – 11:00

Oriau Cau:
27 yn cau rhwng 17:30 – 18:00
4 yn cau rhwng 17:00 – 17:30
22 yn cau rhwng 15:00 – 16:00
4 yn cau am 13:00

Mae rhai darparwyr yn Ardaloedd 3 a 4 ar agor llai na 5 diwrnod yr wythnos:

| | Nifer darparwyr ar gau |
|---|---|
| Dydd Llun | 0 |
| Dydd Mawrth | 1 |
| Dydd Mercher | 2 |
| Dydd Iau | 3 |
| Dydd Gwener | 3 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGC 2021*

**Ystod Oedran y Plant**
Meithrinfeydd gofal dydd llawn ydi'r unig ddarparwyr sydd yn gofalu am blant rhwng 0 – 2 oed.
Mae amrywiaeth fwy eang o ddarparwyr yn cynnig gofal i blant o 2 – 4 oed, a niferoedd uwch yn mynychu.
Darpariaeth cyfyngedig iawn sydd ar gael i blant dros 8 oed, a dim darpariaeth ar gyfer plant dros 12 oed.
Dyma ddadansoddiad o nifer y plant ar y llyfrau gan ddarparwyr gofal dydd llawn dros y sir.

| Ystod Oedran | Nifer Darparwyr | Nifer Plant |
|---|---|---|
| Dan 12 mis | 19 | 61 |
| 1 oed | 20 | 292 |
| 2 oed | 55 | 622 |
| 3 oed | 55 | 774 |
| 4 oed | 48 | 503 |
| 5 – 7 oed | 20 | 254 |
| 8 – 11 oed | 17 | 177 |
| 12 – 14 oed | 0 | 0 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGC 2021*

**Amrywiaeth Tâl a Godir**
Mae cost yr awr ar gyfer darpariaeth gofal dydd llawn yn amrywio rhwng £3.00 - £7.00
Mae cost y dydd yn amrywio rhwng £14.00 - £55.00

Mae'r ffioedd isaf ar gyfer darpariaeth sydd ar agor 4 awr y dydd, tymor ysgol un unig.
Mae cost y dydd ar gyfer meithrinfa dydd llawn, sydd ar agor trwy'r flwyddyn yn amrywio o £35 - £55, gyda'r cyfradd isaf yn Ardal 2(Caernarfon) ar uchaf yn Ardal 1(Bangor)

Nododd 17 darpariaeth eu bod yn cynnig gostyngiad i frodyr a chwiorydd.

**Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Anghenion Addysgol Arbennig**
Dengys y tabl isod data Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sirol ar gyfer darparwyr gofal dydd llawn:

| | **Nifer** |
|---|---|
| Gwasanaeth yn gwneud atgyfeiriadau i'r Awdurdod Lleol a/neu'n cysylltu â nhw o ran darpariaeth/cefnogaeth i blant ag ADY/AAA | 52 |
| Nifer y gwasanaethau yn ymwybodol o'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol | 53 |
| Nifer y gwasanaethau lle mae gan unrhyw staff hyfforddiant ychwanegol/arbenigol i gefnogi plant ag ADY/AAA. | 45 |
| Gwasanaethau ag unigolion dynodedig sy'n gwneud trefniadau ar gyfer darpariaeth ADY/AAA i blant | 48 |
| Cyfanswm y plant (o bob oed) a ddynodwyd yn ffurfiol ag anawsterau dysgu neu anableddau | 57 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGC 2021*

Gweler isod y mathau o ADY/AAA y darperir ar eu cyfer / a gefnogir gan y gwasanaeth ar hyn o bryd:

| | **Nifer** |
|---|---|
| Gwybyddiaeth a Dysgu | 35 |
| Datblygiad ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol | 37 |
| Cyfathrebu a Rhyngweithio | 42 |
| Synhwyraidd a/neu gorfforol | 32 |

**Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol**

Nid oes dosbarthiad gwastad o ddarparwyr gofal dydd llawn ar draws y sir: mae'r niferoedd uchaf yn Ardal 1 (Bangor) ac Ardal 2 (Caernarfon), a hwy hefyd yw'r ardaloedd gyda'r boblogaeth uchaf a'r mwyaf o gyfleoedd gwaith.

Mae prinder amlwg o ddarpariaeth gofal dydd llawn sydd ar agor drwy'r flwyddyn yn Ardaloedd 3,4,5,7 ac 8
Allan o'r 57 darpariaeth sydd wedi cofrestru gyda AGC fel 'darpariaeth gofal dydd llawn', dim ond 30 sydd ar agor yn ystod y gwyliau, a 4 o rhain mond ar agor yn ystod y gwyliau haf.

Mae meithrinfeydd dydd llawn ar draws y sir yn gallu ateb anghenion rhieni sy'n gweithio, gydag 14 lleoliad ar agor erbyn 07:45 bob dydd; Mae 16 o leoliadau eraill ar agor cyn 08:30. Mae 27 lleoliad ar agor tan 17:30 – 18:00 bob diwnrod.
Mae'r lleoliadau sesiynol a gofrestrwyd fel gofal dydd llawn ar agor am lai o oriau bob dydd o gymharu â meithrinfeydd dydd llawn, ar mwyafrif ar agor tymor ysgol un unig.

Dim ond un feithrinfa dydd llawn yn Ardal 1 (Bangor) a ddywedodd ei bod ar agor ar benwythnos.

Darparwyr yn Ardaloedd 1, 2, 3 a 4 yn nodi rhestrau aros am wasanaeth gofal dydd llawn, a darparwyr yn Ardaloedd 1, 4, 6 ac 8 yn nodi rhestr aros ar gyfer darpariaeth yn ystod y gwyliau.

Mae darpariaeth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol neu anabledd yn dda, gyda 57 o blant yn derbyn cefnogaeth, a 52 darpariaeth yn nodi eu bod yn gwneud atgyfeiriadau i'r Awdurdod Lleol a/neu'n cysylltu o ran darpariaeth/cefnogaeth i blant ag ADY/AAA.
53 o'r 57 darpariaeth yn ymwybodol o'r Côd Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae cyflenwad da o ddarpariaeth Cymraeg ar draws y sir - mae 93% o'r ddarpariaeth gofal dydd llawn yng Ngwynedd naill ai trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.
Darpariaeth yn Ardaloedd 6 ac 8 yn unig nododd eu bod yn ddarpariaeth Saesneg.

Mae amrywiaeth darparwyr a nifer llefydd sydd ar gael yn uwch ar gyfer plant 2 – 4 oed, hyn yn cyd fynd gyda'r nifer Cylchoedd Meithrin sydd wedi cofrestru fel gofal dydd lawn yn y Sir.
Darpariaeth cyfyngedig iawn sydd ar gael i blant dros 8 oed, a dim darpariaeth ar gyfer plant dros 12 oed.

Mae amrywiaeth yn y tâl a godir am ddarpariaeth meithrinfa dydd llawn, gyda'r gyfradd isaf o £35 yn Ardal 2 (Caernarfon), a'r gyfradd uchaf o £55 yn Ardal 1 (Bangor).

## 6.3 Gofal Dydd Sesiynol

**Dadansoddiad o Gyflenwad Darpariaeth Gofal Plant**

Mae data presennol y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn nodi yng Ngwynedd mae gennym gyfanswm o 62 o Gylchoedd Meithrin / Grŵp Chwarae sy'n darparu cyfanswm o 1464 o lefydd cofrestredig.
Mae nifer o rhain wedi cofrestru fel gofal dydd llawn, a'u data o fewn y pennawd blaenorol. Mae'r data isod yn benodol ar gyfer y lleoliadau eraill sydd ar agor am sesiynau llai na 4 awr y dydd.

Yn ystod y 2 flynedd diwethaf, caeodd 1 lleoliadau gofal sesiynol cofrestredig yn Ardal 3(Llŷn).
Mae 2 lleoliad gofal sesiynol cofrestredig yn Ardal 2 (Caernarfon) wedi atal eu cofrestriad yn wirfoddol (h.y. wedi cofrestru gydag AGC ond ddim yn darparu gwasanaeth ar hyn o bryd)

**Iaith darpariaeth**

Dengys y tabl isod prif iaith darpariaeth sesiynol fesul ardal:

| Iaith y Ddarpariaeth | Ardal 1 | Ardal 2 | Ardal 3 | Ardal 4 | Ardal 5 | Ardal 6 | Ardal 7 | Ardal 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymraeg | 2 | 9 | 6 | 3 | 1 | 3 | 2 | 1 |
| Dwyieithog | | | 1 | | 1 | | | |
| Saesneg | 1 | | | | | | | |

*Ffynhonnell: Data HAG AGC 2021*

**Amred gwasanaethau a ddarperir**

Dengys y tabl isod amred y gwasanaethau a gynigir ym mhob un o'r ardaloedd:

| | Ardal 1 | Ardal 2 | Ardal 3 | Ardal 4 | Ardal 5 | Ardal 6 | Ardal 7 | Ardal 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm nifer darpariaethau** | **3** | **9** | **7** | **3** | **2** | **3** | **2** | **1** |
| Grŵp chwarae / Cylch Meithrin bore | 2 | 9 | 7 | 2 | 2 | 2 | 1 | 1 |
| Grŵp chwarae / Cylch Meithrin prynhawn | 1 | 2 | 1 | 1 | | 1 | 2 | |
| Amser cinio | 2 | 4 | 2 | 2 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Darpariaeth Gwyliau | | | | | | | 1 | |

*Ffynhonnell: Data HAG AGC 2021*

Ni nodwyd unrhyw restrau aros gan y darparwyr gofal sesiynol, fodd bynnag bu i un ddarpariaeth yn Ardal 3 ac un yn Ardal 5 nodi bod ganddynt restr aros ar gyfer darpariaeth Addysg Feithrin, er nad oeddynt wedi nodi rhestr aros ar gyfer y sesiwn.

Mae mwy o sesiynau ar gael yn ystod y bore a 14 o ddarparwyr yn cynnig clwb cinio.
Dim ond 1 darparwr sesiynol sydd yn cynnig gofal yn ystod y gwyliau, a hynny am bob cyfnod gwyliau heblaw y Nadolig. Ni nodwyd unrhyw restr aros.

**Amseroedd Agor**
Dangosodd data yr HAG amrywiaeth eang o amseroedd agor a chau ar hyd y Sir.

Oriau Agor:
8 ar agor rhwng 08:20 – 08:55
17 ar agor rhwng 09:00 – 09:15
4 ar agor rhwng 09:55 – 11:30
1 ar agor 12:45

Oriau Cau:
6 yn cau rhwng 11:05 – 11:40
16 yn cau rhwng 12:00 – 13:00
7 yn cau rhwng 14:45 – 15:30
1 yn cau am 17:30

Mae rhai darparwyr ar agor llai na 5 diwrnod yr wythnos:

| | **Nifer darparwyr ar gau** |
|---|---|
| Dydd Llun | 4 |
| Dydd Mawrth | 1 |
| Dydd Mercher | 2 |
| Dydd Iau | 1 |
| Dydd Gwener | 9 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGC 2021*

**Ystod Oedran y Plant**
Darpariaeth cyfyngedig iawn o ran oedran sydd i'w gael mewn gofal sesiynol, gyda dim ond plant 2 – 4 oed yn mynychu. Dyma ddadansoddiad o nifer y plant ar y llyfrau gan ddarparwyr sesiynol dros y sir.

| Ystod Oedran | Nifer Darparwyr | Nifer Plant |
|---|---|---|
| Dan 12 mis | | |
| 1 oed | | |
| 2 oed | 24 | 123 |
| 3 oed | 29 | 273 |
| 4 oed | 21 | 140 |
| 5 – 7 oed | | |
| 8 – 11 oed | | |
| 12 – 14 oed | | |

*Ffynhonnell: Data HAG AGC 2021*

**Amrywiaeth Tâl a Godir**
Mae cost yr awr ar gyfer darpariaeth sesiynol yn amrywio rhwng £3.00 - £4.00
Mae cost sesiwn yn amrywio rhwng £4.50 - £18.00

Mae'r gyfradd tâl isaf ac uchaf yn Ardal 2 (Caernarfon)

Nododd 2 darpariaeth eu bod yn cynnig gostyngiad i frodyr a chwiorydd.

**Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Anghenion Addysgol Arbennig**
Dengys y tabl isod data Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sirol ar gyfer darparwyr sesiynol:

| | Nifer |
|---|---|
| Gwasanaeth yn gwneud atgyfeiriadau i'r Awdurdod Lleol a/neu'n cysylltu â nhw o ran darpariaeth/cefnogaeth i blant ag ADY/AAA | 29 |
| Nifer y gwasanaethau yn ymwybodol o'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol | 29 |
| Nifer y gwasanaethau lle mae gan unrhyw staff hyfforddiant ychwanegol/arbenigol i gefnogi plant ag ADY/AAA. | 21 |

| | |
|---|---|
| Gwasanaethau ag unigolion dynodedig sy’n gwneud trefniadau ar gyfer darpariaeth ADY/AAA i blant | 26 |
| Cyfanswm y plant (o bob oed) a ddynodwyd yn ffurfiol ag anawsterau dysgu neu anableddau | 30 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGC 2021*

Gweler isod y mathau o ADY/AAA y darperir ar eu cyfer / a gefnogir gan y gwasanaeth ar hyn o bryd:

| | **Nifer** |
|---|---|
| Gwybyddiaeth a Dysgu | 16 |
| Datblygiad ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol | 18 |
| Cyfathrebu a Rhyngweithio | 21 |
| Synhwyraidd a/neu gorfforol | 13 |

**Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol**

Nid oes dosbarthiad gwastad o ddarparwyr gofal dydd sesiynol ar draws y sir; mae’r niferoedd uchaf yn Ardal 2 (Caernarfon) ac Ardal 3 (Llŷn)

Mae ystod y gwasanaethau a gynigir yn gyfyngedig o gymharu â’r mathau eraill o ddarparwyr gofal plant, ac mae cyfran uchel yn cynnig sesiynau bore yn unig - 86% o leoliadau sy’n cynnig sesiynau bore, a dim ond 26% sy’n cynnig sesiynau prynhawn.
Mae 46% yn cynnig clwb cinio.

Nid yw gofal dydd sesiynol yn ateb anghenion y rhan fwyaf o rieni sy’n gweithio, gan nad oes yr un lleoliad ar agor cyn 08:20, a’r mwyafrif o sesiynau bore yn cychwyn rhwng 09:00 a 09:15.
Nid oes lleoliad gofal dydd sesiynol ar agor ar benwythnosau, a dim ond un ar agor yn ystod y gwyliau.

Mae darpariaeth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol neu anabledd yn dda iawn, gyda 30 o blant yn derbyn cefnogaeth, a 29 darpariaeth yn nodi eu bod yn gwneud atgyfeiriadau i'r Awdurdod Lleol a/neu’n cysylltu o ran darpariaeth/cefnogaeth i blant ag ADY/AAA.
29 o’r 30 darpariaeth yn ymwybodol o’r Côd Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae cyflenwad da o ddarpariaeth Cymraeg ar draws y sir - mae 97% o’r ddarpariaeth sesiynol yng Ngwynedd naill ai trwy gyfrwng y Gymraeg neu’n ddwyieithog.

Un darpariaeth yn Ardal 1 un nododd eu bod yn ddarpariaeth Saesneg.

Darpariaeth ar gyfer plant 2 – 4oed yn unig sydd ar gael, gyda'r niferoedd uchaf sydd yn mynychu yn blant 3 oed.

Mae amrywiaeth enag yn y tâl a godir gyda'r cyfradd isaf ac uchaf yn Ardal 2 (Caernarfon)

### 6.4 Crèches

**Dadansoddiad o Gyflenwad Darpariaeth Gofal Plant**
Nid oes lleoliadau crèche cofrestredig penodol yn y sir; fodd bynnag, dywedodd 3 darparwr gofal dydd llawn eu bod yn cynnig gwasanaeth crèche.

### 6.5 Gofal Tu Allan i Oriau Ysgol

**Dadansoddiad o Gyflenwad Darpariaeth Gofal Plant**
Mae data presennol y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn nodi yng Ngwynedd mae gennym gyfanswm o 30 o glybiau tu allan i oriau ysgol cofrestredig yn darparu cyfanswm o 1147 o lefydd.
Rydym yn ymwybodol o 7 clwb ar ol ysgol heb gofrestriad yn y Sir, mae nifer o rhain wedi cau yn ystod cyfnod Cofid, ac heb ail agor hyd yma.

Mae'r data HAG yn nodi 12 darpariaeth sydd wedi cofrestru fel darparwr tu allan i oriau ysgol.
Mae gweddill y ddarpariaeth tu allan i oriau ysgol wedi cofnodi yn y penawdau blaenorol -gofal dydd llawn a gofal sesiynol.

**Iaith darpariaeth**
Dengys y tabl isod prif iaith darpariaeth clybiau tu allan i oriau ysgol fesul ardal:

| Iaith y Ddarpariaeth | Ardal 1 | Ardal 2 | Ardal 3 | Ardal 4 | Ardal 5 | Ardal 6 | Ardal 7 | Ardal 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymraeg | | 6 | 1 | | | | | |
| Dwyieithog | 3 | 1 | | | | | | |
| Saesneg | 1 | | | | | | | |

*Ffynhonnell: Data HAG AGC 2021*

**Amred gwasanaethau a ddarperir**
Dengys y tabl isod amred y gwasanaethau a gynigir ym mhob un o'r ardaloedd:

| | Ardal 1 | Ardal 2 | Ardal 3 | Ardal 4 | Ardal 5 | Ardal 6 | Ardal 7 | Ardal 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm nifer darpariaethau** | **5** | **11** | **1** | | | | | |
| Cyn Ysgol | | 1 | | | | | | |
| Ar ôl Ysgol | 3 | 7 | 1 | | | | | |
| Darpariaeth Gwyliau | 2 | 3 | | | | | | |

*Ffynhonnell: Data HAG AGC 2021*

Nodwyd un ddarpariaeth yn Ardal 1 ac un yn Ardal 2 bod ganddynt restr aros ar gyfer gofal ar ôl ysgol.

**Gwyliau Ysgol**
Dengys y tabl isod nifer y darparwyr sydd ar agor ym mhob ardal yn ystod y gwyliau:

| | Ardal 1 | Ardal 2 | Ardal 3 | Ardal 4 | Ardal 5 | Ardal 6 | Ardal 7 | Ardal 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwyliau Haf | 2 | 3 | | | | | | |
| Hanner Tymor Hydref | 2 | 2 | | | | | | |
| Nadolig | 0 | 1 | | | | | | |
| Hanner Tymor Chwefror | 2 | 2 | | | | | | |
| Pasg | 2 | 2 | | | | | | |
| Hanner Tymor Mai | 2 | 2 | | | | | | |

*Ffynhonnell: Data HAG AGC 2021*

Nododd un darparwr yn Ardal 1 y byddent yn agor pe bai galw.
Ni nodwyd unrhyw restrau aros ar gyfer darpariaeth yn ystod y gwyliau.

**Amseroedd Agor**
Mae 7 clwb ar ôl ysgol ar agor o 15:00 – 18:00, gyda'r 4 arall yn cau rhwng 17:00 – 17:30

Mae bob clwb tu allan i oriau ysgol ar agor 5 diwrnod yr wythnos

**Ystod Oedran y Plant**
Mae clybiau tu allan i oriau ysgol yn cynnig gwasanaeth i ystod oedran plant hyn, o gymhariaeth i ddarpariaethau eraill, ond nifer fach iawn o blant 12-14 oed sydd yn mynychu
Dyma ddadansoddiad o nifer y plant ar y llyfrau gan ddarparwyr gofal tu allan i oriau ysgol dros y sir.

| Ystod Oedran | Nifer Darparwyr | Nifer Plant |
|---|---|---|
| Dan 12 mis | | |
| 1 oed | | |
| 2 oed | | |
| 3 oed | 4 | 10 |
| 4 oed | 9 | 39 |
| 5 – 7 oed | 12 | 168 |
| 8 – 11 oed | 12 | 147 |
| 12 – 14 oed | 1 | 2 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGC 2021*

**Amrywiaeth Tâl a Godir**
Mae cost clwb ar ôl ysgol yn amrywio o £5.50 yn Ardal 3 i £10.00 yn Ardal 1
Mae cost clwb gwyliau yn amrywio o £20.00 - £38.50, gyda'r gyfradd tâl uchaf yn Ardal 2 (Caernarfon)

Nododd 3 darpariaeth eu bod yn cynnig gostyngiad i frodyr a chwiorydd.

**Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Anghenion Addysgol Arbennig**
Dengys y tabl isod data Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sirol ar gyfer darparwyr gofal tu allan i oriau ysgol:

| | Nifer |
|---|---|
| Gwasanaeth yn gwneud atgyfeiriadau i'r Awdurdod Lleol a/neu'n cysylltu â nhw o ran darpariaeth/cefnogaeth i blant ag ADY/AAA | 7 |
| Nifer y gwasanaethau yn ymwybodol o'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol | 9 |
| Nifer y gwasanaethau lle mae gan unrhyw staff hyfforddiant ychwanegol/arbenigol i gefnogi plant ag ADY/AAA. | 11 |
| Gwasanaethau ag unigolion dynodedig sy'n gwneud trefniadau ar gyfer darpariaeth ADY/AAA i blant | 12 |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm y plant (o bob oed) a ddynodwyd yn ffurfiol ag anawsterau dysgu neu anableddau | 11 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGC 2021*

Gweler isod y mathau o ADY/AAA y darperir ar eu cyfer / a gefnogir gan y gwasanaeth ar hyn o bryd:

| | **Nifer** |
|---|---|
| Gwybyddiaeth a Dysgu | 4 |
| Datblygiad ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol | 6 |
| Cyfathrebu a Rhyngweithio | 4 |
| Synhwyraidd a/neu gorfforol | 4 |

**Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol**

Mae dosbarthiad clybiau gofal plant tu allan i oriau ysgol yn anwastad iawn, gyda darpariaeth mond ar gael yn Ardaloedd 1, 2 a 3.
Fel sydd wedi nodi yn flaenorol, mae darpariaeth ar ôl ysgol a gwyliau yn cael ei gynnig gan darparwyr gofal dydd llawn a sesiynol yn ogystal.

Mae 11 allan or 12 clwb yn cynnig gwasanaeth ar ôl ysgol, a 5 yn cynnig gwasanaeth yn ystod y gwyliau.
Nid oes yr un lleoliad gofal tu allan i oriau ysgol ar agor ar ôl 6yh nac ar benwythnosau.

Nodwyd un ddarpariaeth yn Ardal 1 ac un yn Ardal 2 bod ganddynt restr aros ar gyfer gofal ar ôl ysgol.

Mae gofal tu allan i oriau ysgol yn helpu i ateb anghenion rhieni sy’n gweithio trwy ddarparu gwasanaethau ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau, ac mae llawer o’r lleoliadau cofrestredig ar safleoedd ysgolion cynradd y Sir.

Mae cyflenwad da o ddarpariaeth Gymraeg, gyda 11 allan o’r 12 lleoliad yn darparu’n Gymraeg neu dwyieithog, a dim ond 1 darparwr yn Ardal 1 yn nodi eu bod yn cynnig gwasanaeth Saesneg.

## 6.6 Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored

| **Dadansoddiad o Ddarpariaeth Cyflenwad Gofal Plant** |
|---|
| Nid oedd data am ddarpariaeth chwarae mynediad agored yn y cofnod HAG.<br><br>Mae 2 cynllun chwarae cofrestredig adeg gwyliau yng Ngwynedd, rhoddwyd manylion amdanynt yn yr adrannau blaenorol. |

## 6.7 Nani

| **Dadansoddiad o Ddarpariaeth Cyflenwad Gofal Plant** |
|---|
| Nid oedd data am Nanis yn y cofnod HAG.<br>Mae 1 Nani yng Ngwynedd ar cynllun cymeradwyo gwirfoddol CIW ar hyn o bryd, ac yn gweithio i deulu gyda 3 o blant. Rydym yn ymwybodol ei bod yn newid gyrfa o haf 2022. |

## 7. Deall Anghenion Rhieni/Gofalwyr

**Trosolwg o'r Ymgynghoriad**
Cynhaliwyd Arolwg Cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru i gasglu barn rhieni/gofalwyr am ofal plant yn ei ardal/ sir. Roedd yr arolwg yn edrych ar y defnydd presennol o ofal plant a'r galw am y gofal.
Cwblhawyd 309 o rieni/gofalwyr yng Ngwynedd yr arolwg oedd yn agored rhwng yr 1af o Hydref a 31ain o Hydref, 2021.

Mae'r adroddiad hyn yn seiliedig ar yr 309 o ymatebion a dderbyniwyd i'r arolwg.
Mae'r adroddiad wedi ei osod yn yr un drefn ar arolwg. Mae pob pennawd yn cyfeirio at y cwestiynau a ofynnwyd i'r rhieni.

Pan fydd dyfyniadau gan rieni'n cael ei gynnwys yn yr asesiad yma, maen nhw wedi ei gynnwys yn union fel maent yn ymddangos yn yr Arolwg rieni. Nid oes unrhyw newidiadau gramadegol na sillafu wedi'u gwneud. Mae dyfyniadau rhieni mewn italig. Mae sylwadau rieni wedi ei gyfieithu ac nid ydynt o reidrwydd yn yr iaith a defnyddiodd y rhiant.

Roedd nifer fwyaf o'r ymatebwyr o Ardal 1 ag y nifer lleiaf o Ardal 7

| Ardal | Nifer Ymatebion |
|---|---:|
| Ardal 1 | 80 |
| Ardal 2 | 76 |
| Ardal 3 | 51 |
| Ardal 4 | 24 |
| Ardal 5 | 17 |
| Ardal 6 | 20 |
| Ardal 7 | 5 |
| Ardal 8 | 19 |
| Heb nodi | 17 |
| **Cyfanswm** | **309** |

**Ymatebwyr yn ôl grŵp ethnig**

| Grŵp Ethnig | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|
| **Gwyn** | |
| Cymro/Cymraes/ Sais/Saesnes/ Albanwr/Albanes/ Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon/ Prydeinig | 293 |
| Gwyddelig | 2 |
| Unrhyw gefndir Gwyn arall* | 5 |
| * Ewropeaidd, Ffraneg, Pwyleg,Almaeneg | |
| **Grŵp Ethnigrwydd Cymysg/Lluosog** | |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 3 |
| Unrhyw gefndir Cymysg/Aml-ethnig arall | 1 |
| **Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig** | |
| Indiaidd | 2 |
| Tsieineaidd | 1 |
| Unrhyw gefndir Asiaidd arall * | 2 |

**Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich cartref orau?**
Cwblhawyd yr arolwg gan rieni, darpar rieni, gofalwyr maeth a neiniau a theidiau. Mae'r tabl isod yn dangos cyfansoddiad yr aelwyd gan bawb a ymatebodd a hynny fesul ardal.

| Disgrifiad o'r aelwyd | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Gen i mae'r unig gyfrifoldeb am fy mhlant. | 21.36% | 66 |
| Rydw i'n rhannu cyfrifoldeb am fy mhlant gyda rhywun rydw i'n byw â nhw | 72.82% | 225 |
| Rydw i'n rhannu cyfrifoldeb am fy mhlant gyda rhywun nad ydw i'n byw â nhw | 11.97% | 37 |
| Rydw i'n ddarpar riant | 0.97 | 3 |
| Rydw i'n ofalwr maeth. | 0.65% | 2 |
| Rydw i'n daid neu'n nain | 0.65% | 2 |
| Arall | 0.65% | 2 |

**Faint yw oedran eich plant/ plentyn?**
O’r rhieni a atebodd roedd yn nifer fwyaf yn rhieni i blant cyn oed ysgol (0-4 oed)

| Oedran y Plant | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| O dan 2 oed | 20.13% | 62 |
| 2 oed | 25.00% | 77 |
| 3 oed | 20.78% | 64 |
| 4 oed | 15.58% | 48 |
| 5 - 8 oed | 48.70% | 150 |
| 9 – 11 oed | 33.77% | 104 |
| 12 – 17 oed | 21.10% | 65 |

**A yw eich plentyn / plant 3 neu 4 oed yn manteisio ar le Addysg Gynnar a ariennir yn yr ysgol neu feithrinfa?**
Atebodd 108 y cwestiwn yma, bu i 201 beidio ymateb.

| Ydi eich plentyn/plant 3 neu 4 oed yn manteisio ar le Addysg y Blynyddoedd Cynnar a ariennir mewn ysgol neu gyda darparwr gofal plant? | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydi, yn yr Awdurdod Lleol rydw i’n byw | 76.85% | 83 |
| Ydi, mewn Awdurdod Lleol gwahanol i’r un rydw i’n byw | 0 % | 0 |
| Yn mynd i ddechrau’n fuan | 5.56% | 6 |
| Nac Ydi | 9.26% | 10 |
| Ddim yn siŵr | 2.78% | 3 |
| Amherthnasol | 7.41% | 8 |

Bu i 6 rhiant nodi bod eu plant am dderbyn addysg gynnar yn fuan, mae’n debygol mae plant a fyddai yn gymwys am ei addysg feithrin yn ystod tymor y Gwanwyn yw’r plant hyn. Nodwyd y gweddill ‘Na’, amherthnasol neu ddim yn siŵr. Nid yw darpariaethau, oni bai am un yn Ardal 7 yn cynnig addysg gynnar yn ystod tymor yr Hydref. Gan fod yr arolwg wedi ei gynnal yn ystod mis Hydref mae rhaid i’r plant a nodwyd fod yn rhai sydd yn mynychu dosbarth meithrin yn ysgolion cynradd y sir.
O’r rhai a nodwyd ‘Na’ fe nodwyd y rhan helaeth bod eu plentyn bellach yn derbyn addysg llawn amser yn yr ysgol gynradd.

**A yw eich plentyn / plant 3 neu 4 oed yn manteisio ar ofal plant a ariennir gan y Llywodraeth (Y Cynnig Gofal Plant)?**
Atebodd 107 o rieni'r cwestiwn yma, gyda 62 yn nodi eu bod yn manteisio ar y Cynnig rŵan ag gyda darpariaeth yng Ngwynedd.

| Ydi eich plentyn 3 neu 4 oed yn manteisio ar y Cynnig Gofal Plant? | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydi, yn yr awdurdod lleol rydw i'n byw | 57.94% | 62 |
| Ydi, mewn Awdurdod Lleol gwahanol i'r un rydw i'n byw | 0% | 0 |
| Na - ond mae'n bosibl y byddaf yn manteisio arno yn fuan/yn y dyfodol | 14.02% | 15 |
| Na - nid oes gen i fwriad o fanteisio arno | 7.48% | 8 |
| Ddim yn siŵr | 5.61% | 6 |
| Amherthnasol | 15.89% | 17 |

Gofynnwyd i'r rhieni a benderfynodd beidio derbyn y Cynnig, be oedd y rheswm. Bu i 18 ymateb ag yr ymatebion yn amrywio.
Bu i 4 rhiant nodi bod ei blentyn bellach yn derbyn addysg yn llawn amser.
Nodwyd un rhiant nad oedd hi wedi medru cael darpariaeth yn yr ardal mae hi yn gweithio

*wedi methu cael darparwr gofal plant. Dewis yn Ne Gwynedd a Powys ( Machynlleth) lle rydw i yn gweithio yn ofnadwy o wael. ddim digon o ddewis na lleoliadau.*

Dywedodd rhai rhieni nad oedd y Cynnig yn gweddu sefyllfa bresennol y plentyn ag dywed rhiant arall ei bod yn teimlo bod oriau ychwanegol yn ormod i'w plentyn ar y funud.
*Mae oriau gwaith yn gweddu i'n bywyd teuluol. Ac rwy'n teimlo bod oriau ychwanegol yn ymddangos yn llawer iddi ar hyn o bryd.*

Nid yw rhai rhieni yn llawn ymwybodol o'r cynllun, ag rydym wedi sylweddoli bod rhai yn ymgeisio drwy ffynonellau anghywir. Fe nodir un rhiant ei bod wedi methu'r cyfnod cau. Mae'r cynllun yn agored drwy'r adeg ac nid oes cyfnod cau, sydd yn neud inni feddwl bod y rhiant wedi ceisio ymgeisio am gynllun arall.
*Ie, ond wedi methu dyddiad cau felly gorfod talu tan Ionawr.*
*Ddim yn siŵr a oes rhaid i'r ddau riant allu gweithio i wneud cais?*

Cafwyd ymateb gan riant oedd yn dilyn cwrs nyrsio, a nodwyd ei phryder nad oedd yn gymwys i'r Cynnig:
*Rwy'n fyfyriwr nyrsio amser llawn ac nid yw'r cynnig yn berthnasol i mi nes byddaf yn cael fy nghyflogi am 16 awr neu fwy. Hyd yn oed wedyn bydd y grŵp gofal plant yn dal i godi tâl ychwanegol ar ben y 30awr a ariennir gan y llywodraeth.*

**Ydych chi'n dymuno manteisio ar ofal plant a ariennir gan y Llywodraeth (y Cynnig Gofal Plant) pan fydd eich plentyn yn gymwys yn 3 oed?**
Atebodd 77 rhiant y cwestiwn uchod, gyda 70 yn ymateb yr hoffent fanteisio

| Hoffech chi fanteisio ar y Cynnig Gofal Plant pan fydd eich plentyn yn gymwys yn 3 oed? | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Hoffwn | 90.91% | 70 |
| Na | 2.60% | 2 |
| Ddim yn siŵr | 5.19% | 4 |
| Amherthnasol | 1.30% | 1 |

Gofynnwyd i'r rhai oedd wedi dewis peidio manteisio ar y Cynnig Gofal Plant beth oedd eu rhesymau. Atebodd un rhiant
*Dim ond yn rhan amser rydw i'n gweithio ac mae gen i deulu i helpu gyda gofal plant*

**A yw eich plentyn / plant 2 neu 3 oed yn manteisio ar ofal plant Dechrau'n Deg?**
Atebodd 135 y cwestiwn uchod, ond nid yw rhieni yn llawn ymwybodol o gynlluniau ariannu gwahanol mewn ardaloedd gwahanol. Er ei fod wedi nodi bod plentyn yn manteisio ar ofal plant Dechrau Deg yn Ardal 3, nid yw'r ardal yma yn cael ei adnabod fel ardal Dechrau Deg o fewn y Sir.
Nodwyd 23 (17.4%) o rieni ei bod yn manteisio ar ofal plant Dechrau Deg ar ran helaeth o rhai hynny yn Ardal 2.

| Ydi eich plentyn 2 neu 3 oed yn manteisio ar ofal plant Dechrau'n Deg? | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydi | 17.04% | 23 |
| Na | 62.96% | 85 |
| Ddim yn siŵr | 10.37% | 14 |
| Amherthnasol | 12.59% | 17 |

O'r rhai a nodwyd nad oeddynt yn manteisio ar ofal plant Dechrau Deg gofynnwyd am ei rhesymau.
Roedd nifer fawr yn nodi nad oeddent yn byw mewn ardal Dechrau Deg, ag roedd hyn yn rhwystredig i rai rhieni:-
*Ddim yn cyfro ein cyfeiriad ni sydd yn bechod mawr*
*Ddim yn fy ardal i, ond mae milltir i lawr y ffordd.*

Bu i 6 rhiant nodi nad oeddent nhw yn ymwybodol o ofal Plant Dechrau Deg
*Dydw i ddim yn gwybod am ofal plant Dechrau'n Deg*
*Heb glywed amdano.*

**Oes gan rai o'ch plant anabledd neu salwch hirdymor?**
Cafwyd ymateb gan 307 o rieni i'r cwestiwn, gyda 19 yn nodi bod gan ei plentyn anabledd neu salwch hirdymor

| A oes gan unrhyw un o'ch plant anabledd neu salwch hirdymor? | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Oes | 6.19% | 19 |
| Na | 93.16% | 286 |
| Dymuno peidio ateb | 0.65% | 2 |

**A oes gan unrhyw un o'ch plant anghenion addysgol arbennig / anghenion dysgu ychwanegol (mae angen cymorth ychwanegol arnynt gyda'u dysgu)?**
O blith y 308 a atebodd y cwestiwn yma, dywedodd 35 o rieni bod gan eu plentyn/plant anghenion addysgol arbennig anghenion dysgu ychwanegol.

| Oes gan rai o'ch plant anghenion addysgol arbennig / anghenion dysgu ychwanegol)? | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Oes | 11.36% | 35 |
| Na | 87.01% | 268 |
| Dymuno peidio ateb | 1.62% | 5 |

**Ydych chi'n defnyddio unrhyw un o'r mathau canlynol o ofal plant neu addysg gynnar yn ystod tymor ysgol?**
Atebodd 305 o rieni'r cwestiwn yma. Gofynnwyd i rieni nodi'r gofal plant oeddent yn ei ddefnyddio yn ystod y tymor. Mae nifer y rhieni yn defnyddio mwy nag un math o ofal plant. Mae'r mathau o ofal plant maent yn ei defnyddio i'w weld yn y tabl isod.

| Ydych chi'n defnyddio unrhyw rai o'r mathau canlynol o ofal plant neu Addysg Gynnar yn ystod y tymor? | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Gwarchodwr Plant | 20.98% | 64 |
| Clwb Cyn Ysgol / Clwb Brecwast | 33.11 % | 101 |
| Clwb ar ôl Ysgol | 21.97% | 67 |
| Meithrinfa Ddydd Preifat | 15.74% | 48 |
| Meithrinfa'r Ysgol | 6.89% | 21 |
| Cylch Chwarae | 0.66% | 2 |
| Cylch Meithrin | 29.84% | 91 |
| Gollwng mewn Crèche | 4.59% | 14 |
| Nani | 0.66% | 2 |

| | | |
|---|---|---|
| Au Pair | 0 | 0 |
| Teulu/Ffrindiau (derbyn tâl) | 4.92% | 15 |
| Teulu/Ffrindiau (di-dâl) | 53.44% | 163 |
| Dim byd yn ystod y tymor | 9.51% | 29 |
| Arall | 2.62% | 8 |

Yr opsiwn sydd yn cael ei ddefnyddio fwyaf gan rieni yng Ngwynedd yw Teulu/Ffrindiau (di-dâl) gyda 163 o'r 305 yn eu defnyddio.

Rhoddwyd opsiwn i'r rhieni ddweud pa fathau eraill o ofal plant roeddynt yn ei defnyddio. Nododd un rhiant gan nad ydi ar y funud yn gweithio yn swyddfa nad oedd yn defnyddio gofal plant:
*Ar hyn o bryd ddim yn ofynnol oherwydd gweithio o gartref ond fel arfer bydd yn defnyddio clwb brecwast a chlwb ar ôl ysgol sydd ar gael.*
Nododd rhiant arall nad oedd darpariaeth ar gael iddi:
*Na, dim cefnogaeth o gwbwl yn fy mhentref.*
**Ydych chi'n defnyddio unrhyw un o'r mathau canlynol o ofal plant neu addysg gynnar yn ystod gwyliau'r ysgol?**
Dewisodd 273 o rieni ateb y cwestiwn yma. Gofynnwyd i rieni gynnwys pob math o ofal plant maent yn ei ddefnyddio. Mae'r mathau o ofal plant maent yn ei defnyddio i'w weld yn y tabl isod.

| Ydych chi'n defnyddio rhai o'r mathau canlynol o ofal plant neu Addysg Gynnar yn ystod gwyliau'r ysgol? | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Gwarchodwr Plant | 19.78% | 54 |
| Gofal yn ystod gwyliau | 13.92% | 38 |
| Meithrinfa Ddydd Preifat | 19.41% | 53 |
| Ysgol Baratoadol (Preifat) | 0.00% | 0 |
| Cylch Chwarae | 0.00% | 0 |
| Cylch Meithrin | 5.49% | 15 |
| Gollwng mewn Crèche | 3.30% | 9 |
| Nani | 0.37% | 1 |
| Au Pair | 0.00% | 0 |
| Cynllun Chwarae | 3.30% | 9 |
| Teulu/Ffrindiau (derbyn tâl) | 4.40% | 12 |
| Teulu/Ffrindiau (di-dâl) | 55.31% | 151 |
| Dim byd yn ystod gwyliau'r ysgol | 19.05% | 52 |
| Arall | 4.40% | 12 |

Yn ystod gwyliau'r ysgol mae'r nifer o'r rhieni sydd yn defnyddio Teulu/Ffrindiau (di-dâl) yr un mor boblogaidd ag yn ystod tymor ysgol gyda 151(55.31%) o rieni yn eu defnyddio.
Bu i un rhiant nodi nad oedd darpariaeth fforddiadwy ar gael yn lleol iddi:
*Dim ar gael yn lleol sy'n fforddiadwy. Felly dwi'n ei chael hi'n anodd gwyliau ysgol gan na allaf ddod o hyd i glwb gwyliau.*

Bu i nifer o rieni nodi nad ydynt yn defnyddio gofal plant cofrestredig:
*Talu am weithgareddau hanner diwrnod / gweithgareddau diwrnod llawn gyda darparwyr gwahanol fel ffordd o gael gofal ee Urdd, Canolfan Hamdden, Dyddiau gan Glybiau Chwaraeon lleol, Gweithdai gan fudiadau celf leol*

*Sports activities run by local sports centres and outdoor activities centres*

*Clwb Gwyliau Gymnasteg*

**Ar gyfartaledd, am sawl awr yr wythnos rydych chi'n defnyddio unrhyw fath o ofal plant?**

Gofynnwyd i rieni ddweud sawl awr o ofal plant roeddynt yn ei ddefnyddio ar gyfartaledd bob wythnos. Os nad oeddent yn gallu rhoi cyfartaledd am fod yr oriau'n amrywio, gofynnwyd iddynt roi ystod o'r nifer yr oriau roeddynt yn ei ddefnyddio. Roedd hi'n eithaf anodd dadansoddi a chymharu, yn enwedig peidio gwybod faint o blant roeddynt yn defnyddio gofal plant ar eu cyfer ac yn darparu gwybodaeth amdanynt. Serch hynny, mae dadansoddiad cyflym yn awgrymu ar gyfartaledd bod rhieni yn defnyddio 20 (ystod o 19 - 22 awr) yn ystod y tymor ac ar gyfartaledd 21 (ystod 19 - 23) awr yn ystod y gwyliau.

**Ar gyfartaledd, faint rydych chi'n ei dalu bob wythnos am eich gofal plant (heb gynnwys gofal plant a ariennir gan y Llywodraeth)?**

Atebodd 278 o rieni'r cwestiwn yma. Er y gallwn ni edrych drwy eu hatebion, yn anffodus nid oes gennym syniad os ydynt yn talu gofal plant am un plentyn neu am fwy. Ni ofynnwyd i rieni egluro'r symiau, felly nid oes gennym ragor o wybodaeth i'w ddefnyddio heblaw'r ffaith nad yw hyn yn cynnwys unrhyw ofal plant a ariennir gan y Llywodraeth.

Mae'r tabl isod yn dangos faint mae rhieni yn ei dalu ar gyfartaledd ar gyfer eu gofal plant bob wythnos:

| Ar gyfartaledd, faint ydych chi'n ei dalu fesul wythnos am eich gofal plant? (Heb gynnwys gofal plant a ariennir gan y Llywodraeth) | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| £0.00 | 20.14% | 56 |
| £0.01 - £10.00 | 3.60% | 10 |
| £10.00 - £49.00 | 24.82% | 69 |
| £50.00 - £99.00 | 23.38% | 65 |
| £100.00 - £199.00 | 20.50% | 57 |

| | | |
|---|---|---|
| £200.00 - £299.00 | 5.04% | 14 |
| £300.00+ | 2.52% | 7 |

**Pa mor fodlon ydych chi gyda'ch darparwr gofal plant presennol?**

Bu i 280 o rieni ateb y cwestiwn yma. Roedd y mwyafrif o rieni'n fodlon iawn gyda'u darparwr presennol - 153 (54.64%) ac roedd 86 (30.71%) yn fodlon.
Mae'n bryder darllen bod 11 o rieni yn eithaf anfodlon a 8 rhiant yn anfodlon iawn gyda'u darparwr.

| Pa mor fodlon ydych chi gyda'ch darparwr Gofal Plant presennol? | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Bodlon iawn | 54.64% | 153 |
| Eithaf Bodlon | 30.71% | 86 |
| Eithaf anfodlon | 3.93% | 11 |
| Anfodlon Iawn | 2.86% | 8 |
| Amherthnasol | 7.86% | 22 |

Gofynnwyd i rieni sut y gellir gwella eu gofal plant os nad oeddent yn hapus. Cawsant restr o feysydd yr hoffent eu gweld yn cael eu gwella a gofynnwyd iddynt farcio'r rhai roeddynt yn meddwl oedd yn bwysig. Yn anffodus dim ond 19 o rieni atebodd y cwestiwn yma.

Roedd 10 o rieni yn dymuno gweld mwy o ddarpariaeth fforddiadwy ar gael

| Os ydych chi'n anhapus gydag agweddau penodol o'ch gofal plant, beth y gellir ei wella? | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Mwy o oriau ar gael (lleoliadau yn rhy brysur neu'n rhy llawn) | 42.11% | 8 |
| Ymestyn oriau agor- Boreau cynnar | 36.84% | 7 |
| Ymestyn oriau agor- Nosweithiau | 31.58% | 6 |
| Ymestyn oriau agor dros benwythnosau | 15.79% | 3 |
| Ymestyn oriau agor dros nos | 5.26% | 1 |
| Mwy o ofal hyblyg (sesiynau ad hoc) | 26.32% | 5 |
| Mwy fforddiadwy | 52.63% | 10 |
| Lleoliad gwahanol | 5.26% | 1 |
| Gofal plant sy'n bodloni anghenion dysgu ychwanegol fy mhlentyn yn well | 15.79% | 3 |
| Darpariaeth o ansawdd gwell | 15.79% | 3 |
| Nid oes angen gwelliannau | 0.00% | 0 |
| Arall | 26.32% | 5 |

Roedd sylwadau gan rhieni yn cynnwys:
*Ddim yn ddibynadwy iawn, yn cau yn aml oherwydd problemau staffio* - rydym yn mawr obeithio mae oherwydd oblygiadau cofid mae hyn.

Ag rhiant arall yn nodi nad oedd clwb gwyliau ar gael iddi:
*Clybiau ar gael mewn lleoliad ysgol yn ystod gwyliau ysgol. Rwy'n rhiant sengl llawn amser gyda chefnogaeth gyfyngedig gan y teulu ac nid oes unrhyw glybiau gwyliau yn ystod gwyliau'r ysgol.*

**Os nad ydych chi'n manteisio ar unrhyw ofal plant, beth yw'r rheswm?**

Gofynnwyd i rieni nad oedd yn manteisio ar ofal plant ei rhesymau pam oedd hynny. Allan o'r 122 a atebodd bu i 46 rhiant nodi ei bod yn defnyddio gofal plant anffurfiol megis ffrind neu aelod o'r teulu, bu i 43 rhiant nodi bod cost gofal plant yn rhy ddrud.
Mae'r rhesymau eraill dros beidio â defnyddio Gofal Plant i'w gweld yn y tabl isod:

| Beth yw'ch rhesymau dros beidio â manteisio ar ofal plant? | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Mae fy mhlentyn ar restr aros ar gyfer darparwr ac rydym yn aros i le ddod ar gael | 0.82% | 1 |
| Rydw i'n defnyddio gofal plant anffurfiol megis ffrind neu aelod o'r teulu | 37.70% | 46 |
| Rydw i'n dewis peidio manteisio ar ofal plant | 5.74% | 7 |
| Rydw i'n rhiant sy'n aros gartref ac felly does gen i ddim angen am ofal plant | 18.85% | 23 |
| Mae fy mhlant yn ddigon hen i edrych ar ôl eu hunain | 8.20% | 10 |
| Nid oes yna ofal plant sydd o safon ddigonol | 4.10% | 5 |
| Nid oes yna ddarpariaeth Gymraeg addas | 0.82% | 1 |
| Nid oes yna ddarpariaeth addysg yn ein hiaith nad yw'n Gymraeg neu'n Saesneg | 0.82% | 1 |
| Nid yw'r gofal plant sydd ar gael yn ddigon hyblyg ar gyfer fy anghenion | 11.48% | 14 |
| Mae cost gofal plant yn rhy ddrud | 35.25% | 43 |
| Mae amseroedd gofal plant yn anaddas | 8.20% | 10 |
| Nid oes yna ofal plant ar gael sy'n addas ar gyfer oedran fy mhlentyn | 15.57% | 19 |
| Mae yna broblem gyda chludiant | 4.92% | 6 |
| Nid oes yna ofal plant lle rydw i ei angen | 9.84% | 12 |
| Nid oes yna ofal plant sy'n gallu darparu ar gyfer anghenion penodol fy mhlentyn | 4.92% | 6 |
| Dim ond ar sail ad hoc ydw i'n defnyddio gofal plant ac mae hi'n amhosibl cynllunio | 4.10% | 5 |
| Arall | 13.93% | 17 |

Gofynnwyd i rieni roi gwybodaeth ychwanegol ynghylch pam nad ydynt yn defnyddio gofal plant. Roedd yr ymatebion yn amrywio, gyda nifer yn nodi nad oedden nhw angen gofal plant:
*Mae bywyd gwaith yn hyblyg o amgylch ein hanghenion.*

*Roedd fy mhartner yn gweithio'n rhan amser er mwyn darparu ar gyfer bod gartref cyn ac ar ôl i'r plant fynd i'r ysgol, rwy'n gweithio'n hyblyg fel y gallaf fod ar gael i aros adref os oes angen nes iddynt adael am yr ysgol.*

Er bod un rhiant yn defnyddio darpariaeth gofal plant, mae rhaid iddi addasu ei oriau gweithio gan nad ydi'r ddarpariaeth yn agored digon hwyr:
*Er fy mod yn defnyddio gofal plant, hoffwn nodi bod yn rhaid i mi orffen yn rheolaidd cyn fy amser contract (e.e 4:30 yn lle 5) er mwyn codi plentyn oherwydd diffyg gofal plant y tu hwnt i 5pm neu golli diwrnod llawn yn ystod gwyliau oherwydd diffyg fforddiadwy/cau gofal plant.*

Mae dau riant yn nodi eu pryder am ddiffyg darpariaeth yn eu hardal:
*Nid yw clwb brecwast yn cychwyn yn ddigon cynnar. Dim clwb ar ôl ysgol ar gael yn ein hysgol gynradd.*
*Rwy'n defnyddio teulu gan nad oes darpariaeth ar ôl ysgol yn yr ysgol gynradd.*

Roedd rieni yn codi ei pryder am gostau gofal plant:

*Ddim yn gymwys i gael cymorth ychwanegol gyda gofal plant gan fy mod yn rhiant unigol*
*Rwy'n defnyddio nain neu daid ond dim ond oherwydd bod gofal plant mor ddrud. Byddai'n braf pe bai rhywfaint o arian ar gael i blant 1-3 oed, efallai 10/20 awr yr wythnos.*

**Ydych chi'n manteisio ar ofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg?**

Atebodd 186 o rieni'r cwestiwn yma. O blith y rhain, dywedodd 158 eu bod yn manteisio ar ofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg

| Ydach chi'n defnyddio Gofal Plant drwy gyfrwng y Gymraeg? | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydw | 84.95% | 158 |
| Na | 9.14% | 17 |
| Ddim yn siŵr/ddim yn gwybod | 5.91% | 11 |

Gofynnwyd i rieni nad ydynt yn defnyddio gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg a hoffent wneud hynny. Bu i 26 ymateb gyda 15 yn nodi 'na'

| Hoffech chi fanteisio ar Ofal Plant drwy gyfrwng y Gymraeg? | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Hoffwn | 0.00% | 0 |
| Efallai | 19.23% | 5 |
| Na | 57.69% | 15 |
| Ddim yn siwr | 23.08% | 6 |

**Fe ddywedoch chi wrthym nad ydych chi'n defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg, ond efallai yr hoffech wneud hynny. Pa broblemau rydych chi'n eu hwynebu o ran mynediad at ofal plant cyfrwng Cymraeg?**

Atebodd 4 o rieni yr cwestiwn uchod, gyda'r rhesymau i weld isod:

| Pa broblemau ydych chi'n eu hwynebu wrth geisio cael mynediad at Ofal Plant cyfrwng Cymraeg? | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Pellter | 25.00% | 1 |
| Argaeledd | 25.00% | 1 |
| Ansawdd y gofal | 0.00% | 0 |
| Gallu iaith y staff | 25.00% | 1 |
| Y gost | 0.00% | 0 |
| Oriau annigonol o ofal | 25.00% | 1 |

Bu i un rhiant nodi:
*Mae clwb ysgol yn siarad Cymraeg a Saesneg ac rydw i'n hapus iawn. Mae fy nghymraeg yn sylfaenol a fy 2il iaith.*

**A allwch chi ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?**

Gofynnwyd i rieni os oeddent yn medru deall, siarad, darllen neu ysgrifennu yn Gymraeg. Cafwyd ymateb gan 281 o rieni

| A allwch chi ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg? | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Deall | 93.24% | 262 |
| Siarad | 86:48% | 243 |
| Darllen | 85.41% | 240 |
| Ysgrifennu | 81.14% | 228 |

**Gan feddwl am yr holl ofal plant rydych chi'n ei ddefnyddio ar gyfer eich plant, neu'n ymwybodol ohono, i ba raddau rydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol?**

**Boddhad gyda gofal plant yn ystod y tymor**

Atebodd 307 y cwestiwn gyda rhan helaeth y rhieni yn cytuno ag yn fodlon gyda gofal plant yn ystor tymor ysgol

| Rydw i’n fodlon gyda fy ngofal plant yn ystod y tymor | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Cytuno’n gryf | 48.5% | 149 |
| Tueddu i gytuno | 31.9% | 98 |
| Tueddu i anghytuno | 6.5% | 20 |
| Anghyntuno’n gryf | 4.2% | 13 |
| Amherthnasol | 8.8% | 27 |

**Boddhad gyda gofal plant yn ystod gwyliau’r ysgol.**

Rhoddodd 304 ymateb i’r cwestiwn gyda 169 o rieni yn fodlon gyda'i gofal plant yn ystod gwyliau’r ysgol. Ar yr ochr arall, nid oedd 64 o rieni yn fodlon gyda gofal plant yn ystod gwyliau’r ysgol.

| Rydw i’n fodlon gyda fy ngofal plant yn gwyliau ysgol | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Cytuno’n gryf | 29.9% | 91 |
| Tueddu i gytuno | 25.7% | 78 |
| Tueddu i anghytuno | 12.5% | 38 |
| Anghyntuno’n gryf | 8.6% | 26 |
| Amherthnasol | 23.4% | 71 |

**Ansawdd y Gofal**

Ymatebodd 306 i’r cwestiwn hwn gyda 244 o rieni yn cytuno bod ansawdd y gofal plant yn uchel

| Mae ansawdd y gofal plant yn uchel | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Cytuno’n gryf | 47.4% | 145 |
| Tueddu i gytuno | 32.4% | 99 |
| Tueddu i anghytuno | 7.8% | 24 |
| Anghytuno’n gryf | 2.0% | 6 |
| Amherthnasol | 10.5% | 32 |

**Dewis o Ofal Plant**

Fe ymatebodd 307 o rieni i'r datganiad – 'Mae yna ddewis da o ofal plant yn fy ardal'. O'r rhain dywedodd y nifer fwyaf o rieni, 80, eu bod yn tueddu i anghytuno bod gofal plant wedi'i leoli'n dda, ac roedd 79 yn anghytuno'n gryf:

| Mae yna ddewis da o ofal plant yn fy ardal i | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 16.3% | 50 |
| Tueddu i gytuno | 25.4% | 78 |
| Tueddu i anghytuno | 26.1% | 80 |
| Anghytuno'n gryf | 25.7% | 79 |
| Amherthnasol | 6.5% | 20 |

**Lleoliad y Gofal Plant**

Fe ymatebodd 306 o rieni i'r datganiad – 'Mae Gofal Plant wedi'i leoli'n dda'. O'r rhain dywedodd 204 o rieni eu bod yn cytuno'n gryf neu yn tueddu i gytuno

| Mae gofal plant wedi'i leoli'n dda | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 30.7% | 94 |
| Tueddu i gytuno | 35.9% | 110 |
| Tueddu i anghytuno | 15.7% | 48 |
| Anghytuno'n gryf | 12.4% | 38 |
| Amherthnasol | 5.2% | 16 |

**Anghenion Gofal**

Fe ymatebodd 305 o rieni i'r datganiad – 'Mae Gofal Plant yn darparu ar gyfer anghenion fy mhlentyn.' O'r rhain dywedodd 224 o rieni eu bod yn cytuno'n gryf neu yn tueddu i gytuno

| Mae gofal plant yn darparu ar gyfer anghenion fy mhlentyn | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 41.6% | 127 |
| Tueddu i gytuno | 31.8% | 97 |
| Tueddu i anghytuno | 8.2% | 25 |
| Anghytuno'n gryf | 5.9% | 18 |
| Amherthnasol | 12.5% | 38 |

**Faint o ofal plant a fynychwyd**

Fe ymatebodd 305 o rieni i'r datganiad – 'Fe hoffwn i i fy mhlentyn fynychu mwy o ofal plant cofrestredig'.

| Hoffwn i fy mhlentyn fynychu mwy o ofal plant cofrestredig | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 18.0% | 55 |
| Tueddu i gytuno | 24.3% | 74 |
| Tueddu i anghytuno | 11.5% | 35 |
| Anghytuno'n gryf | 6.6% | 20 |
| Amherthnasol | 39.7% | 121 |

**Cost Gofal Plant**

Atebodd 307 i'r datganiad – 'Mae gofal plant rhy ddrud', gyda nifer uchel y rhieni yn cytuno'n gryf / tueddu i gytuno

| Mae gofal plant yn rhy ddrud | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 49.8% | 153 |
| Tueddu i gytuno | 27.7% | 85 |
| Tueddu i anghytuno | 10.1% | 31 |
| Anghytuno'n gryf | 2.3% | 7 |
| Amherthnasol | 10.1% | 31 |

**Teulu a ffrindiau**

Fe ymatebodd 307 i'r datganiad – 'Fe fyddai'n well gen i ddefnyddio teulu/ffrindiau ar gyfer gofal plant'. O'r rhain dywedodd 121 eu bod yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno

| Fe fyddai'n well gen i ddefnyddio teulu/ffrindiau ar gyfer Gofal Plant | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 12.4% | 38 |
| Tueddu i gytuno | 27.0% | 83 |
| Tueddu i anghytuno | 28.7% | 88 |
| Anghytuno'n gryf | 10.7% | 33 |
| Amherthnasol | 21.2% | 65 |

**Dibynadwyedd gofal plant**

Fe ymatebodd 306 o rieni i'r datganiad – 'Mae gen i broblem gyda threfniadau gofal plant sy'n annibynadwy'. O'r rhain dywedodd 63 o rieni eu bod yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno

| Mae gen i broblem gyda threfniadau gofal plant sy'n annibynadwy | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 11.1% | 34 |
| Tueddu i gytuno | 9.5% | 29 |
| Tueddu i anghytuno | 13.4% | 41 |
| Anghytuno'n gryf | 27.8% | 85 |
| Amherthnasol | 38.2% | 117 |

Mae angen ystyried bod y cyfnod pam gwblhawyd yr arolwg yn gyfnod o ansicrwydd iawn i'r ddarpariaeth gofal plant gyda nifer yn gorfod cau oherwydd amgylchiadau Cofid-19.

**Rhwystr i gael mynediad at waith**

Fe ymatebodd 305 o rieni i'r datganiad – 'Mae gofal plant yn rhwystr i fy atal rhag gweithio'. O'r rhain dywedodd 113 o rieni eu bod yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno

| Mae gofal plant yn rhwystr i fy atal rhag gweithio neu hyfforddi | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 17.7% | 54 |
| Tueddu i gytuno | 19.3% | 59 |
| Tueddu i anghytuno | 18.0% | 55 |
| Anghytuno'n gryf | 17.0% | 52 |
| Amherthnasol | 27.9% | 85 |

**Gwybodaeth am ofal plant**

Fe ymatebodd 305 o rieni i'r datganiad – 'Dwi'n gwybod lle i gael gwybodaeth am ofal plant'. O'r rhain, dywedodd 180 o rieni eu bod yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno, tra bod 101 wedi dweud eu bod naill ai yn tueddu i anghytuno neu anghytuno'n gryf.

| Dwi'n gwybod lle i gael gwybodaeth am ofal plant | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 25.6% | 78 |
| Tueddu i gytuno | 33.4% | 102 |
| Tueddu i anghytuno | 22.6% | 69 |
| Anghytuno'n gryf | 10.5% | 32 |
| Amherthnasol | 7.9% | 24 |

**Gwybodaeth am gymorth ariannol**

Fe ymatebodd 305 o rieni i'r datganiad – 'Dwi'n gwybod lle i gael gwybodaeth am gymorth ariannol'. O rhain, dywedodd 133 o rieni eu bod yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno, tra bod 144 wedi dweud eu bod naill ai yn tueddu i anghytuno neu anghytuno'n gryf.

| Dwi'n gwybod lle i gael gwybodaeth am gymorth ariannol | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 14.4% | 44 |
| Tueddu i gytuno | 29.2% | 89 |
| Tueddu i anghytuno | 25.9% | 79 |
| Anghytuno'n gryf | 21.3% | 65 |
| Amherthnasol | 9.2% | 28 |

**Yn ystod y flwyddyn flaenorol, a ydych chi neu'ch partner wedi profi problemau yn ymwneud â gofal plant?**

Atebodd 210 o rieni'r cwestiwn. Nodwyd nifer fwyaf o rheini bod gofal plant wedi achosi problemau yn y gwaith, gyda 62 yn nodi ei bod wedi atal parhad o ran gwaith, ag 51 wedi ei atal rhag hyfforddi.

| Yn y flwyddyn flaenorol a ydych chi wedi cael problemau yn ymwneud â gofal plant? | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Wedi achosi problemau yn y gwaith | 70.95% | 149 |
| Wedi atal parhad o ran gwaith | 29.52% | 62 |
| Wedi eich atal rhag gweithio neu gael gwaith | 21.43% | 45 |
| Wedi eich atal rhag hyffordi | 24.29% | 51 |
| Arall | 13.33% | 28 |

Gofynnwyd i rieni roi rhagor o wybodaeth. Un o'r prif bethau sydd yn codi ydi problemau oherwydd cofid:-

*Cau oherwydd cofid - wedi gorfod cymryd dyddiau ddi-dâl ffwrdd o'r gwaith gan fod gwyliau blynyddol fi gyd di mynd oherwydd cofid hefyd!*

*Oherwydd cofid, addysg gartref (clwb ar ôl ysgol ar gau)*

*Canslo sesiynau yn fyr rybudd gorfod gadael gwaith*

*Mae rheoliadau cofid 19 ar gyfer meithrinfeydd yn golygu bod yn rhaid i mi fynd â fy mhlentyn adref cyn gynted ag y bydd yn peswch. Sy'n digwydd yn rhy aml.*

Roedd rhesymau eraill a rhoddwyd yn nodi diffyg darpariaeth ag methu gweithio oherwydd:

*Methu mynychu gwaith yn ystod gwyliau ysgol gan nad oes clybiau gwyliau ar gyfer fy mab.*

*Gwarchodwr preifat dim ond yn agor Mawrth - gwener, felly stryglo i ffeindio teulu i warchod bob dydd llun. gwarchodwyr eraill i gyd yn llawn ar ddydd llun.*

*Rwyf wedi colli cymaint o incwm oherwydd diffyg gofal plant. Mae gorfod gofyn am gael gadael yn gynnar/cymryd amser i ffwrdd heb dâl yn golygu fy mod yn teimlo na allaf symud ymlaen yn y gwaith na chwilio am waith gwahanol gan fy mod yn teimlo fy mod yn gadael gwaith i lawr yn gyson ac yn gadael fy mhlentyn i lawr.*

*Nid oedd gofal plant ar gael felly yn mynd lawr yn rhan amser.*

*Dim clwb ar ôl ysgol ar gael, anodd pam rwyf fi a fy mhartner yn gweithio tan 5yh*

*Achosi 'friction' gartref- pwy fydd yn gweithio llai o oriau/cymryd amser i ffwrdd i fod adref i'r ieuengaf.*

*Wedi atal fy mhartner rhag gweithio gan fod fy mhlentyn canol yn yr ysgol o 9yb tan 11yb, weithiau 1yp a neb i ofalu am fy mhlentyn bob dydd wedi oriau hyn. Ddim eisiau iddo fynd i ofal plant gyda cofid. Bydd yr un peth yn digwydd pan af yn ôl i'r gwaith, bydd adref ac ni all weithio'n llawn amser gan y bydd ei holl gyflog yn mynd ar ofal plant.*

**Beth yw eich statws cyflogaeth bresennol?**

Dengys y tabl isod statws cyflogaeth y rhieni a lenwodd yr arolwg:

| Statws Cyflogaeth Cyfredol | Chi | Eich partner (os yn berthnasol ) |
|---|---|---|
| Yn chwilio am waith ond ddim yn gweithio eto | 20 | 3 |
| Yn gyflogedig | 250 | 179 |
| Yn hunangyflogedig | 28 | 60 |
| Mewn addysg neu hyfforddiant | 27 | 5 |
| Ddim yn gweithio a ddim yn chwilio am waith | 6 | 2 |
| Methu gweithio | 14 | 3 |

**Incwm gros eich cartref yr wythnos.**

Dengys y tabl isod incwm gros y cartref yr wythnos:

| | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Hyd at £100 | 0.66% | 2 |
| £100 - £149 | 2.33% | 7 |
| £150 - £249 | 7.97% | 24 |
| £250 - £349 | 9.30% | 28 |
| £350 - £449 | 10.96% | 33 |
| £500 - £580 | 8.97% | 27 |
| £581 - £750 | 14.29% | 43 |
| £750 - £999 | 16.28% | 49 |
| Mwy na £1000 | 14.62% | 44 |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | 14.62% | 44 |

**Ydych chi’n rhagweld y bydd angen mwy neu lai o ofal plant arnoch yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf?**

Mae’r tabl isod yn nodi’r canlyniadau.

| Ydach chi’n rhagweld y bydd angen mwy neu lai o ofal plant arnoch yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf? | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Mwy | 36.16% | 111 |
| Aros yr un fath | 34.85% | 107 |
| Llai | 18.57% | 57 |
| Ddim yn gwybod / ddim yn siwr | 10.42% | 32 |

Gofynnwyd i’r rhieni a ddywedodd y byddent yn defnyddio llai o ofal plant beth oedd eu rhesymau. Mae’r rhesymau i weld yn y tabl isod:

| Rhesymau dros ddefnyddio llai o ofal plant | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Bydd y plentyn/plant yn hŷn | 98.31% | 58 |
| Disgwyl gweithio/astudio llai o oriau | 5.08% | 3 |
| Disgwyl gweithio/astudio mwy o adref | 5.08% | 3 |
| Ceisio cael mwy o amser gyda’r teulu | 3.39% | 2 |

| | | |
|---|---|---|
| Pryderon am cofid 19/heintiau | 0.00% | 0 |
| Pryderon am amhariad cofid 19 ar wasanaethau/cau | 0.00% | 0 |
| Arall | 3.39% | 2 |

Gofynnwyd i'r rhieni a ddywedodd y byddent yn defnyddio mwy o ofal plant i ddweud pa fath o ofal plant roeddynt yn rhagweld ei ddefnyddio. Mae'r tabl isod yn nodi'r canlyniadau.

| Y math o ofal plant roeddynt yn rhagweld ei ddefnyddio | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 31.14% | 36 |
| Clwb Cyn Ysgol/ Clwb Brecwast | 58.93% | 66 |
| Clwb ar ôl Ysgol | 55.36% | 62 |
| Meithrinfa Dydd Preifat | 16.07% | 18 |
| Meithrinfa'r Ysgol | 19.64% | 22 |
| Cylch Chwarae | 7.14% | 8 |
| Cylch Meithrin | 44.64% | 50 |
| Gollwng mewn creche | 6.25% | 7 |
| Nani | 0.89% | 1 |
| Au Pair | 0.00% | 0 |
| Ysgol Baratoadol (Preifat) | 0.00% | 0 |
| Clwb Gwyliau | 34.82% | 39 |
| Teulu/Ffrindiau (derbyn tâl) | 6.25% | 7 |
| Teulu/Ffrindiau (ddim yn derbyn tâl) | 44.64% | 50 |
| Amherthnasol | 0.00% | 0 |
| Arall | 4.46% | 5 |

Allan o'r 5 rhiant ddaru nodi rhesymau arall, bu i dri ymateb isod:-

*Gofal sy'n addas i blant hyn 8-13oed, llawn amser sydd o ddiddordeb iddyn nhw, ac nad ydio yn ei weld fel gwarchod/gofal drwy lygaid y plentyn.*

*Rwy'n gobeithio y bydd clwb ar ôl ysgol yn y dyfodol agos.*

*Hoffwn gael clwb ar ôl ysgol ond dim un yn yr ysgol*

**Rhwystrau i Ofal plant**
Mae angen ystyried bod y cyfnod pam gwblhawyd yr arolwg yn gyfnod o ansicrwydd  i'r ddarpariaeth gofal plant gyda nifer yn gorfod cau oherwydd amgylchiadau Cofid-19.
Mae sylwadau rhieni yn nodi problemau gyda gofal plant yn ystod y flwyddyn flaenorol sydd wedi achosi problemau yn y gwaith, atal parhad o ran gwaith, atal rhag gweithio neu gael gwaith neu atal rhag hyfforddi.

Yr oedd cyfradd boddhad o 80% gyda gofal plant yn ystod tymor ysgol, ond cwympodd hyn i 55% yn ystod gwyliau'r ysgol.

Roedd canran uchaf y rhieni a gwblhawyd yr arolwg yn defnyddio teulu neu ffrindiau (di-dâl) ar gyfer eu hanghenion gofal plant.

Y prif resymau nodwyd gan rieni pam nad oeddynt yn manteisio ar unrhyw ofal plant oedd:

- am eu bod yn defnyddio gofal plant anffurfiol megis ffrind neu aelod o'r teulu
- mae cost gofal plant yn rhy ddrud
- rydw i'n rhiant sy'n aros gartref ac felly does gen i ddim angen am ofal plant
- nid oes yna ofal plant ar gael sy'n addas ar gyfer oedran fy mhlentyn
- nid yw'r gofal plant sydd ar gael yn ddigon hyblyg ar gyfer fy anghenion

Fforddiadwyedd gofal plant yw'r prif faes yr awgrymodd rhieni fel un sydd angen ei wella.
Cytunodd 77.5% o rieni gyda'r datganiad 'mae gofal plant rhy ddrud'

Roedd 52% o rieni yn anghytuno bod dewis da o ofal plant yn eu hardal, a 28% yn anghytuno bod gofal plant wedi'i leoli'n dda.

Buasai 42% o rieni yn hoffi i'w plentyn fynychu mwy o ofal plant cofrestredig.

Roedd 37% o rieni yn cytuno bod gofal plant yn rhwystr yn eu hatal rhag gweithio neu hyfforddi.

Nid oedd 33% o rieni yn gwybod lle i gael gwybodaeth am ofal plant, a doedd 47% ddim yn gwybod lle i gael gwybodaeth am gefnogaeth ariannol i helpu i dalu costau gofal plant.

Mae 85% o rieni yn manteisio ar ofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg yng Ngwynedd.

Rhwystrau i grwpiau targed penodol

(i) Rhieni sy'n Gweithio
Roedd canran uchaf o'r rhieni a lenwodd yr arolwg yn gyflogedig neu hunangyflogedig.
Fe nodwyd rhieni fod diffyg hyblygrwydd gofal plant yn enwedig oherwydd diffyg darpariaeth yn ystod gwyliau i blant hŷn. Roedd hefyd yn amlwg y byddai'r rhai a oedd yn gweithio oriau annodweddiadol yn cael trafferth dod o hyd i ofal plant.
Nodwyd o fewn yr ymgynghoriad gyda Adran Gwaith a Phensiynau – "mae teuluoedd di-waith a theuluoedd incwm isel yn derbyn cymorth, ond mae pobl mewn cyflogaeth yn talu hyd at £1000 y mis am ofal plant heb gymorth, dyma'r teuluoedd y dylid eu cefnogi i aros mewn cyflogaeth".
Roedd sylwadau gan rieni yn cynnwys:
*"Anawsterau dod o hyd i ofal plant sy'n dechrau'n ddigon cynnar ac yn gorffen yn ddigon hwyr ar gyfer fy mhatrymau gwaith"*
*"Yr anhawster yw dod o hyd i ofal plant sy'n gweithio o gwmpas oriau gwaith arferol sy'n fforddiadwy. Mae gen i hefyd ffrindiau sy'n gweithio shifftiau 12 awr ac oriau anghymdeithasol sydd wedi cael trafferth dod o hyd i ofal plant sy'n addas i'w hanghenion".*

(ii) Rhieni sydd yn chwilio am waith neu gyfleoedd hyfforddiant
Roedd 37% o rieni a lenwodd yr arolwg yn cytuno bod gofal plant yn rhwystr yn eu hatal rhag gweithio neu hyfforddi.
Roedd sylwadau gan mudiadau CWLWM yn cynnwys:
*"Sicrhau bod y gallu gan leoliadau i gynnig rhywfaint o ofal am ddim i deuluoedd sy'n chwilio am waith e.e i rieni fynd i gyfweliadau*."

(iii) Aelwydydd Di-waith
Roedd 13% o rieni a lenwodd yr arolwg unai yn chwilio am waith ond ddim yn gweithio eto, ddim yn gweithio a ddim yn chwilio am waith, neu methu gweithio.
Roedd 18% o rieni a lenwodd yr arolwg yn aros gartref ac felly dim angen am ofal plant.
O'r ymgynghoriad gydag Adran Gwaith a Phensiynau, roedd pob un ddaru ymateb yn credu bod y Cynnig Gofal Plant i Gymru wedi helpu teuluoedd di-waith, gyda phlant 3 i 4 oed, i gael gwaith.

(iv) Teuluoedd ar incwm isel
Fforddiadwyedd yw'r prif rwystr i deuluoedd ar incwm isel. Mater o bryder yw nifer uchel y rhieni nad ydynt yn gwybod lle i gael gwybodaeth am gefnogaeth ariannol i helpu i dalu costau gofal plant.
Fodd bynnag, nododd 73% eu bod yn derbyn cefnogaeth ariannol drwy unai elfen Gofal Plant y Credyd Treth Gwaith, Credyd Cynhwysol, Talebau gofal plant neu Gofal Plant Di-dreth

(v) Teuluoedd un rhiant
Roedd 21% o'r ymatebwyr i'r holiadur gyda'r unig gyfrifoldeb am eu plentyn / plant.
Y prif rwystr i'r rhieni hyn rhag cael mynediad i ofal plant oedd y gost, ac hefyd cael gofal plant os yn gweithio oriau annodweddiadol

*“Mae fy oriau yn amrywio o 7am i 8pm felly rwy'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i ofal plant. Rhiant sengl ar fy mhen fy hun, dim teulu o gwmpas ond rydw i eisiau gweithio. Rwy'n gwneud 16 awr er mwyn i mi allu cael cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd teuluol”*
*“Rwy’n rhiant sengl llawn amser gyda chefnogaeth gyfyngedig gan y teulu ac nid oes unrhyw glybiau gwyliau yn ystod gwyliau’r ysgol”*

(vi) Teuluoedd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol
Ychydig iawn o deuluoedd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig sy’n byw yng Ngwynedd, a dim ond 3% o rieni a lenwodd yr arolwg ar-lein a ddywedodd eu bod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.
O ganlyniadau'r arolwg nid oedd unrhyw rwystrau cyffredin na chyson i gyflogaeth yn amlwg ar gyfer rhieni o leiafrifoedd ethnig. Nid oedd yn glir a oedd unrhyw rwystrau oherwydd ethnigrwydd y teulu neu a oeddent yn rhwystrau a oedd yn gyffredin i unrhyw riant.

(vii) Teuluoedd gyda phlant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, neu anabledd
Mae adborth o'r arolwg rhieni a rhanddeiliaid mewn perthynas â phlant ag anghenion dysgu ychwanegol neu anabledd yn dangos y gall hwn fod yn faes heriol i deuluoedd a darparwyr gofal plant.
Roedd 6% o rieni a lenwodd yr arolwg gyda phlentyn hefo anabledd neu salwch hirdymor ac 11% gyda phlentyn anghenion addysgol arbennig / anghenion dysgu ychwanegol.
Roedd sylwadau gan 2 riant yn nodi:
*“Ni allaf ddod o hyd i feithrinfeydd preifat ar gyfer fy mhlentyn sydd ag anghenion ychwanegol”*
*“Mae fy mab sy'n 11 oed wedi cael diagnosis o awtistiaeth, mae ganddo oedi gyda lleferydd ac mae ganddo broblemau synhwyraidd...mae'n tueddu i daro allan yn aml pan fydd yn mynd yn rhwystredig ac rydw i bob amser yn cael galwadau ffôn i'w godi felly nid yw'n werth y drafferth”*

O fewn cofnod HAG y darparwyr, roedd ymwybyddiaeth a chefnogaeth dda wedi nodi ar gyfer plant oedd angen cefnogaeth ychwanegol. Fodd bynnag dim ond 16% o warchodwyr plant nododd eu bod yn ymwybodol o’r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol, a dim ond 5 plentyn oedd yn derbyn cefnogaeth gan warchodwyr.

## 8. Trawsffiniol

Gofynnwyd i ddarparwyr gofal plant ddarparu'r wybodaeth ganlynol, i asesu nifer y plant sy'n byw mewn awdurdodau lleol cyfagos sy'n defnyddio gofal plant yng Ngwynedd.

- Faint o blant ydych chi'n gofalu amdanynt sy'n byw y tu allan i ardal Cyngor Gwynedd?
- A oes gennych unrhyw blant o'r tu allan i ardal Cyngor Gwynedd ar eich rhestr aros?

Derbyniwyd 54 o ymatebion:

Dengys y tabl isod nifer y plant o siroedd eraill a'r mathau o ddarpariaeth gofal plant a ddefnyddir:

| | Meithrinfa Dydd Llawn | Gwarchodwr Plant | Cylch Meithrin / Grŵp Chwarae | CYFANSWM | Siroedd |
|---|---|---|---|---|---|
| Ardal 1 | 20 | 2 | 2 | 24 | Conwy, Ynys Môn a Fflint |
| Ardal 2 | 1 | | 2 | 3 | Ynys Môn |
| Ardal 3 | | 1 | | 1 | Ynys Môn |
| Ardal 4 | | | | | |
| Ardal 5 | | | | | |
| Ardal 6 | 2 | | 3 | 5 | Powys |
| Ardal 7 | | 1 | 7 | 8 | Conwy |
| Ardal 8 | | 2 | 3 | 5 | Powys |

Cynnig Gofal Plant – Plant o Siroedd eraill sydd yn cael eu hariannu mewn lleoliadau yng Ngwynedd:
2 blentyn Conwy
5 plentyn Môn
3 plentyn Powys

Plant Gwynedd sydd yn cael eu hariannu mewn Siroedd eraill:
2 blentyn yng Nghonwy
7 plentyn ym Môn

Addysg Feithrin - 2 blentyn Gwynedd yn cael eu cyllido i dderbyn Addysg Feithrin ym Mhowys

Er y gall plant o siroedd eraill derbyn eu hawl i Addysg Feithrin Blynyddoedd Cynnar am ddim mewn ysgolion yng Ngwynedd, ar hyn o bryd, ni allant wneud hynny yn y lleoliadau Addysg Feithrin nas cynhelir.

**Gweithio Trawsffiniol**
Mae Uned Gofal Plant a Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Gwynedd yn gweithio ar y cyd â holl Dimau Gofal Plant Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru a Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd.

Cyngor Gwynedd yw'r Awdurdod Cyflawni ar gyfer y Cynnig Gofal Plant i Awdurdodau Conwy a Môn.
Mae Cyngor Gwynedd yn awdurdodi ceisiadau rhieni, ac yn gweinyddu'r taliadau misol ar gyfer y Cynnig i ddarparwyr gofal plant y 3 Sir.

## 9. Cofid-19

Mae pandemig Cofid-19 wedi bod yn gyfnod heriol i ddarparwyr gofal plant y Sir.
Dangosodd y pandemig werth gofal plant ar adegau o argyfwng cenedlaethol. Heb barodrwydd lleoliadau i ddarparu gofal i weithwyr allweddol rheng flaen ni fyddai wedi bod yn bosib i wasanaethau a busnesau y Sir ymateb i anghenion y gymuned yn ystod y pandemig.

Bu i nifer fawr o leoliadau gofal plant ac Addysg Feithrin y Sir gau ar ddechrau'r pandemig yn Mawrth 2020.
Fodd bynnag, daeth yn amlwg yn fuan fod gofal plant yn hanfodol i gefnogi gwasanaethau rheng flaen ble oedd eu gweithwyr angen gofal plant.
Roedd yn gyfnod heriol iawn i Uned Gofal Plant Cyngor Gwynedd yn ceisio sicrhau gofal plant digonol ar gyfer gweithwyr allweddol pan nad oedd lleoliadau'n gallu, neu'n anfodlon, agor.
Roedd hefyd yn anodd iawn ar adegau cael data ar ba leoliadau oedd ar agor neu ar gau, ynghyd â gwybodaeth am leoliadau yn ailagor.

**Rhesymau Cau**
Bu i leoliadau gau am amrywiaeth o resymau gan gynnwys:


- Angen staff i warchod (shielding)
- Ar gyngor sefydliadau ymbarél a oedd yn teimlo y byddai lleoliadau'n fwy cynaliadwy pe bai'r holl staff ar ffyrlo
- Lleoliadau ar rai safleoedd ysgol neu neuaddau cymunedol heb ganiatâd i ailagor
- Diffyg eglurder ynghylch pa rieni y dylid eu hystyried yn weithwyr allweddol o'r rhestr a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Diffyg argaeledd PPE ar ddechrau'r pandemig.
- Cau oherwydd plant a staff positif neu symptomatig.

**Lleoliadau ar Gau**

Dengys y tabl isod wybodaeth a gymerwyd o'r datganiad HAG (Mehefin 2021) ynghylch nifer ac amlder y cau yn y sector gofal plant. Mae nifer o'r lleoliadau wedi cael cyfnodau o gau ers y dyddiad hwn oherwydd achosion positif o Cofid.

| | Cyfanswm gwasnaethau | Nifer y gwasanaethau a gaeodd ar unrhyw adeg oherwydd Cofid 19 | Nifer y gwasanaethau ar gau oherwydd Cofid 19 ar dyddiad Yr HAG | Cyfanswm y nifer o weithiau y caeodd gwasanaethau dros dro oherwydd Cofid 19 | Cyfanswm dyddiau calendr bu gwasanaethau ar gau dros dro oherwydd Cofid 19 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwyr | 61 | 36 | 1 | 45 | 3589 |
| Gofal Dydd Llawn | 57 | 48 | 2 | 72 | 6258 |
| Sesiynol | 30 | 27 | 0 | 45 | 5052 |
| Clybiau ar ôl ysgol / gwyliau | 12 | 11 | 1 | 17 | 2265 |
| **Cyfanswm** | **160** | **122** | **4** | **179** | **17,161** |

Ymhlith y lleoliadau hynny a gaeodd, y lleoliadau Addysg Feithirn (llawer ar safleoedd ysgol) oedd y rhai a arhosodd ar gau hiraf. Dim ond 1 Cylch Meithrin fu ar agor yn mis Ebrill 2020, 6 Meithrinfa Gofal Dydd a 21 gwarchodwr.
Dengys y tabl isod nifer y darpariaethau fu ar agor yn ystod y cyfnod cychwynnol o'r pandemig yn 2020:



**Cynllun Cymorth Gofal Plant Coronavirus (C-CAS) a Taliadau'r Cynnig Gofal Plant**
Mis Ebrill 2020 bu i Lywodraeth Cymru cyhoeddi ganllawiau anstatudol er mwyn helpu awdurdodau lleol i roi trefniadau brys ar waith i ddarparu cymorth gofal plant cyn ysgol, i weithwyr hanfodol a phlant agored i niwed, yn ystod y pandemig.

Fel yr Awdurdod Cyflenwi ar gyfer y Cynnig Gofal Plant i Môn a Conwy, cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd oedd gweinyddu'r ceisiadau a taliadau 'C-CAS' i'r 3 Sir o Ebrill 2020 hyd at cau'r cynllun diwedd Awst 2020.
Roedd taiadau'r Cynnig Gofal Plant hefyd yn parhau i'r lleoliadau oedd ar agor, ac ar gau, am y cyfnod hyd at 19 Mehefin 2020.

Bu i swyddogion yr Uned Gofal Plant ddilyn yr holl newidiadau mewn canllawiau a trefniadau cyllido gan y Llywodraeth yn ystod 2020 – 2021, gan sicrhau bod y darparwyr yn derbyn taliadau cywir ac amserol ar hyd yr amser.

**Grantiau Cefnogi yn ystod Cofid 19**
Darparwyd cymorth i'r sector drwy arian grant i fynd i'r afael â'r gofynion a osodwyd ar leoliadau gofal plant oherwydd y pandemig.

**Grant Darparwyr Gofal Plant – Cofrestru drwy Busnes Cymru**
Roedd y grant hwn yn rhoi cymorth ariannol i fusnesau gofal plant oedd wedi cofrestru gydag AGC a'u hincwm net wedi disgyn oherwydd Cofid-19, ac nid oeddynt wedi gallu cael grantiau drwy gynlluniau eraill Llywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru.
Roedd y grant yn cael ei roi os oedd incwm net y busnes wedi disgyn yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2020 i 30 Mehefin 2020 o'i gymharu ag 1 Ebrill i 30 Mehefin 2019.
Bu i 16 darpariaeth yng Ngwynedd dderbyn yr arian grant.

**Grant Cymorth Darparwyr**
Roedd y grant hwn ar gael i ddarparu cyllid cynaliadwyedd i gefnogi lleoliadau gofal plant i barhau i weithredu drwy gydol heriau Cofid-19 lle na ddarparwyd unrhyw arian cyhoeddus arall i dalu'r un costau.

**2020/21**
112 darpariaeth wedi derbyn Grant Costau Uwch ar gyfer unrhyw gostau uwch oedd yn gysyllitedig a cofid e.e. prynu cyfarpar diogelu personol (PPE), costau gwresogi ychwanegol, neu gostau'n gysylltiedig a gofynion glanhau ychwanegol.
14 darpariaeth wedi derbyn Grant Hunan Ynysu i gefnogi lleoliadau unigol y bu'n ofynnol iddynt gau yn llawn neu rhannol oherwydd cofid.
8 darpariaeth wedi derbyn Grant Colled Incwm i gefnogi darparwyr a oedd yn profi colled incwm o ganlyniad i lai o alw am leoedd gofal plant, lle y credwyd bod hyn dros dro ac y gellir ei briodoli i Cofid-19. Roedd y cyfnod yn cwmpasu colled incwm rhwng 14 Medi a 31 Rhagfyr 2020, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

**2021/22**
93 darpariaeth wedi derbyn Grant Costau Uwch ar gyfer unrhyw gostau uwch oedd yn gysyllitedig a cofid e.e. prynu cyfarpar diogelu personol (PPE), costau gwresogi ychwanegol, neu gostau'n gysylltiedig a gofynion glanhau ychwanegol.

40 darpariaeth wedi derbyn un o'r grant isod:-
Grant Hunan Ynysu i gefnogi lleoliadau unigol y bu'n ofynnol iddynt gau yn llawn neu rhannol oherwydd cofid.
Neu
Grant Costau Staff Ychwanegol – Cefnogi lleoliadau unigol y bu'n ofynnol iddynt dalu costau staff ychwanegol ar gyfer sicrhau ei bod yn parhau yn agored.

**Cynllun Grantiau Bach Cyfalaf a Chynllun Grantiau Bach Cofid Ychwanegol**
Cafodd darparwyr gofal plant gyfle i wneud cais am gyllid i gynyddu nifer y lleoedd Cynnig Gofal Plant y gallent eu cynnig neu i wella ansawdd eu cyfleusterau.
Defnyddiodd llawer o ddarparwyr y cyllid grant i wneud addasiadau i'w hadeiladau er mwyn cadw at ganllawiau ymbellhau cymdeithasol, ac i wella mannau chwarae tu allan, o ystyried bod tystiolaeth wyddonol yn awgrymu bod trosglwyddiad y feirws yn llawer llai yn yr awyr agored.

Cymeradwywyd 30 o geisiadau yn 2020/21 a 28 cais yn 2021/22.
Gan nad oedd cyllideb ddigonol i ariannu'r ceisiadau i gyd, bu i swyddogion yr Uned Blynyddoedd Cynnar ymgeisio am ragor o gyllideb grant gan y Llywodraeth ar gyfer y 2 flynedd gyllido yma. Roedd llwyddiant i dderbyn rhagor o gyllideb yn sicrhau cefnogaeth i gyfran fwy o ddarparwyr.
Grant Cyfalaf (Offer TG) – er mwyn cefnogi'r sector i drosglwyddo i'r system ddigidol genedlaethol newydd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant yn 2022 bu inni annog unrhyw ddarparwr oedd angen offer TG (at ddibenion rhedeg eu busnes) i wneud cais. Cymeradwywyd 59 cais.

Grant Monitrau Carbon Deuocsid ($CO_2$) - diben y cyllid oedd cefnogi darparwyr gofal plant i brynu dyfeisiau monitro Carbon Deuocsid ($CO_2$) er mwyn helpu i reoli lefelau awyru. Cymeradwywyd 37 cais.

**Profion (LFT's) a Hylif Dwylo**
Rhannwyd gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru ar argaeledd Profion Cofid gyda lleoliadau gofal plant yng Ngwynedd. Er gwaethaf rhywfaint o wybodaeth wrthgyferbyniol gychwynnol, daeth y system gyflenwi yn rhan annatod o weithdrefnau ymateb Cofid 19. Derbyniodd pob lleoliad heblaw gwarchodwyr plant eu pecynnau prawf ar sail cyflwyno genedlaethol.
Trefnodd yr Uned Gofal Plant, gyda chefnogaeth Tîm Priffyrdd a Bwrdeistrefol i ddanfon cyflenwad cyson o becynnau prawf i bob gwarchodwraig yn y Sir, nes i drefniadau cenedlaethol ddod i rym.

Bu cynnig o gyflenwad hylif dwylo i bob darpariaeth gofal plant yn y Sir, am ddim, ac wedi danfon i'w lleoliad gan Dîm Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar hyd y flwyddyn ddiwethaf.

Bu i 79 darpariaeth dderbyn hynny o gyflenwad ac yr oedd angen ganddynt.

**Cynaladwyedd**
Mae'r heriau a wynebwyd o ganlyniad i'r pandemig wedi effeithio ar gynaladwyedd rhai rhannau o'r sector gofal plant i raddau mwy nag eraill. Cafwyd ymchwyddiadau achlysurol ac yna gostyngiad yn y galw am ofal plant pan gyflwynwyd mesurau gwahanol ac yna llacio a greodd ansicrwydd i lawer o ddarparwyr gofal plant o ran gwybod beth fyddai gwir natur y farchnad yn y dyfodol.
Mae'r sector clybiau ar ôl wedi gweld mwy o effaith o ran niferoedd yn mynychu oherwydd y cyfarwyddyd i bobl weithio o gartref lle bo modd.

Yn gyffredinol yn ystod 2020-21 a 2021-22 mae'r pecynnau cymorth a roddwyd gan y Llywodraeth wedi helpu'r sector i aros yn gynaliadwy. Roedd yn heriol gweinyddu rhai o'r cynlluniau oherwydd amserlenni byr iawn a'r heriau logistaidd a ddaeth yn sgil mesurau cloi.

## 10. Cynaladwyedd

Mae Uned Blynyddoedd Cynnar Cyngor Gwynedd yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi cynaliadwyedd yr holl sector gofal plant yn y sir.
Mae Grantiau Cychwynnol ar gael i unrhyw ddarpariaeth gofal plant newydd sy'n agor, neu'n ymestyn mewn ardaloedd o'r sir sydd wedi adnabod gyda diffyg darpariaeth. Mae hefyd cefnogaeth gan dîm profiadol o'r Uned Gofal Plant, gyda gwybodaeth, chefnogaeth busnes, a chofrestriad AGC.
Rhaid i unrhyw gyllid cychwynnol basio proses asesu, gyda chofrestriad AGC yn ofyniad gorfodol i unrhyw leoliad dderbyn arian.

Mae pecyn helaeth o hyfforddiant gyda chymhorthdal yn cael ei ddarparu i bob lleoliad gofal plant bob blwyddyn. Darperir cyrsiau hyfforddiant gorfodol, (e.e. Cymorth Cyntaf i Blant / Diogelu Plant / Hylendid Bwyd) yn ogystal ag amrywiaeth o gyrsiau DPP ar gost enwol o £20/person, neu'n rhad ac am ddim. Mae hyn yn sicrhau y gall staff fynychu cyrsiau heb i gost fod yn broblem.
Yn ystod y pandemig ataliodd yr Uned Blynyddoedd Cynnar yr holl ffioedd costau hyfforddi er mwyn cefnogi'r lleoliadau a oedd yn wynebu straen ariannol oherwydd niferoedd is o blant yn mynychu a chostau rhedeg uwch.

Yn ogystal a'r grantiau sydd wedi nodi yn Rhan 9 (Cofid19) uchod, bu i Cyngor Gwynedd rannu'r grantiau canlynol gyda darparwyr y Sir:
**Grant Datblygiad Plentyn**
Grant Oriau Ychwanegol
Yn rhan o Grant Datblygiad Plentyn o Ebrill 2021 bu inni i gynnig oriau ychwanegol i blant 2½ - 3 oed i fynychu lleoliadau gofal plant. Roedd y plant yn gallu mynychu uchafswm o 30awr yn ystod y tymor cyn iddynt dderbyn ei hawliad Addysg Feithrin.
Pwrpas yr oriau ychwanegol yw cynnig cyfle i blant ddal i fyny â phrofiadau chwarae a datblygu yn dilyn y cyfnod clo a chyfyngiadau Cofid 19.

Mae'r oriau ychwanegol yn allweddol wrth ddatblygu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu, sgiliau motor man a mawr, datblygiad personol a chymdeithasol ac iechyd a lles y plant. Mae'r grant yn parhau.
Grant Adnoddau
Bu i bob darpariaeth gofal plant oedd yn derbyn plant o dan 5 oed dderbyn grant adnoddau yn ystod y cyfnod cofid.
Yn ystod 2020-21 a 2021-22 roedd swm penodol wedi ei neilltuo ar gyfer y darpariaethau er mwyn iddynt brynu adnoddau a llyfrau i hyrwyddo a chefnogi gweithgareddau i gefnogi plant oedd yn dangos oediad yn eu hiaith, llefaredd a chyfathrebu, sgiliau motor man a mawr a datblygiad cymdeithasol.

**Grant Gwella Addysg (GGA)**
Fel rhan o Gynllun Adnewyddu a Diwygio Llywodraeth Cymru bu i arian o'r Grant GGA yn 2021-22 gael ei neilltuo i ddarpariaethau gofal plant y sir oedd ddim yn ddarparwyr addysg Feithrin. Prif bwrpas y grant oedd cryfhau'r ddarpariaeth Cyfnod Sylfaen, i sicrhau bod anghenion plant yn cael eu diwallu yn y meysydd canlynol: Anghenion Emosiynol, Anghenion Corfforol ac Anghenion Dysgu. Neilltuwyd yr arian ar gyfer ariannu oriau staff i gwblhau modiwlau hyfforddiant perthnasol, costau cyrsiau hyfforddiant a ddarparwyd gan fudiadau Cwlwm, adnoddau i baratoi neu wella'r darpariaeth i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen neu lyfrau addas i'r staff.

**Grant Darparwyr Addysg Feithrin**
Mae'r gyllideb grant yma yn benodol i ganolbwyntio ar gymorth ac adnoddau ymarferwyr mewn meysydd datblygiadol allweddol i ddiwallu anghenion emosiynol, corfforol a dysgu sy'n cefnogi dull addysgeg y Cyfnod Sylfaen.

Yn ogystal ar grantiau uchod, mae Cyngor Gwynedd yn cynnig y grantiau isod yn flynyddol:

**Grant Cymorth Ychwanegol**
Grant i ariannu cymorth ychwanegol i blant ADY sydd yn mynychu clybiau ar ôl ysgol neu glybiau gwyliau.

**Grant Cymhorthdal**
Grant i ariannu unrhyw blentyn sydd yn derbyn cefnogaeth Cydlynydd TAT (Tîm o Amgylch y Teulu) i fynychu darpariaeth addysg feithrin y tymor cyn maent yn gymwys i'w hawliad Addysg Feithrin am ddim.

**Grant Adnoddau**
Swm penodol yn cael ei gynnig yn flynyddol i ariannu adnoddau addas.
Amodau a thelerau ar gyfer grant 2021-22, roedd yn ofynnol archebu adnoddau chwarae tu allan/ neu i gwblhau gweithgareddau tu allan.
Mae'r grant hefyd yn ariannu adnoddau iechyd a diogelwch neu adnoddau er mwyn cydymffurfio gyda chanllawiau cofid19.

**Grantiau Cychwynnol**
Grantiau Cychwynnol ar gael i ddarpariaethau cofrestredig newydd. Mae swm y grant yn ddibynnol ar y math o ddarpariaeth ag os ydi wedi cael ei adnabod fel ardal sydd angen darpariaeth newydd.

Mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn grantiau cyfalaf gan Lywodraeth Cymru yn y blynyddoedd diwethaf, i fuddsoddi mewn lleoliadau Gofal Plant ac Addysg Feithrin y Sir.
Cymeradwywyd **29** o geisiadau yn 2019/20; **30** o geisiadau yn 2020/21, a **28** cais yn 2021/22 ar gyfer grantiau 'bach' cyfalaf hyd at £10,000. Mae'r grantiau wedi cefnogi addasiadau i adeiladau ac ardaloedd tu allan, ac yn sicrhau'r ddarpariaeth o'r ansawdd orau i'r plant.

Yn ogystal, mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn llwyddiannus i dderbyn grantiau cyfalaf ar gyfer datblygiadau Gofal Plant ac Addysg Feithrin newydd gan y Llywodraeth.
Hyd yma, mae datblygiadau newydd ar safle ysgolion Cynradd Llanllechid; Y Garnedd; Yr Hendre; Bro Tryweryn wedi cwblhau.
Mae datblygiadau ar safle ysgol Gynradd Y Faenol; Maesincla a Beuno Sant yn y broses adeiladu ar hyn o bryd.

I gyd fynd gyda'r datblygiadau newydd, mae'r Cyngor yn sicrhau darpariaeth gofal plant, gan un darparwr, ar gyfer plant 2 –12 oed, o 8 y.b. hyd at 6 y.h. am 48 wythnos y flwyddyn.
Mae cael un ddarpariaeth yn darparu'r holl wasanaethau yn ystod y dydd yn cefnogi eu cynaladwyedd os yw'r niferoedd yn isel ar adegau penodol o'r ddarpariaeth. Mae hefyd yn cefnogi oriau gwaith mwy sefydlog ar gyfer y staff.

Mae cynaliadwyedd yn dod yn fwy o broblem i leoliadau gofal plant ac y mae cyflwyno'r isafswm cyflog a'r cyflog byw wedi cael effaith. Mae'n anodd i leoliadau ddarparu gofal plant o safon uchel a hefyd ei wneud yn fforddiadwy i rieni.

Mae heriau recriwtio staff yn y maes gofal plant wedi amlygu yn ystod cyfnod cofid, ac yn fater o bryder i'r sector cyfan ar hyn o bryd.
Mae rhai sylwadau gan darparwyr yn nodi:
*"Dydy'r cyllid addysg a gofal y Cynllun Gofal Plant ddim yn ddigonol i gyfro costau cyffredinol, rent a cyflogau staff"*

*"Mae disgwyliadau uchel a phwysau aruthrol ar y staff o ran eu dyletswyddau dyddiol ond dydy'r cyflog mae staff yn ennill yn fisol ddim yn adlewyrchu'r cyfrifoldeb, disgwyliadau a phwysau sydd arnynt yn ddyddiol wrth gyflawni eu swydd.*
*Gyda'r costau uchel sydd yn wynebu busnesau bach ynghŷd â rent uchel dydy hi ddim yn gynnaladwy i'r cwmni godi cyflogau yn uwch na'r lefel isafswm cyflog"*

*"Mae hi'n anodd iawn i recriwtio staff profiadol sydd efo'r cymwysterau gofynnol. Mae 'na brinder staff dirfawr ym maes gofal ac addysg blynyddoedd cynnar. O ganlyniad i ddiffyg staff, mae pwysau ychwnegol ar staff i weithio fwy o oriau / dyddiau ychwanegol sy'n creu straen ychwanegol ar unigolion. Nid yw'n bosib chwaith i staff fynychu hyfforddiant fel rhan o'u datblygiad proffesiynol gan nad oes staff i weithio yn lle a chadw at gymarebau staffio AGC"*

**Darparu i'r dyfodol**
Gofynnwyd i'r darparwr o fewn yr HAG, ar sail y sefyllfa bresennol (Gorffennaf 2021) am pa hyd yr oeddent yn hyderus y byddai'n ariannol gynaliadwy parhau i redeg eu darpariaeth gofal plant

| Math o Ofal Plant | Dim yn gwybod | 6 mis | Blwyddyn neu fwy |
|---|---|---|---|
| Gwarchodwyr | 11 | 3 | 47 |
| Gofal Dydd Llawn | 13 | 3 | 41 |
| Sesiynol | 6 | 3 | 21 |
| Gofal Tu allan i Oriau Ysgol | 3 | 2 | 7 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGC 2021*

Mae'n rhaid ystyried cyfyngiadau Cofid ar adeg cyflwyno'r HAG, a fyddai o bosib wedi adlewyrchu yn yr ymatebion uchod.

## 11. Datblygu'r Gweithlu

Gofynwyd i ddarparwyr nodi cymwysterau staff o fewn yr HAG, y cwestiwn a ofynnwyd oedd "Faint o staff sydd â'r rhain fel eu cymhwyster uchaf?" Roedd y canlyniadau fel a ganlyn:

| | Cymhwyster Gofal Plant, Dysgu a Datblygiad ar lefel 2 | Cymhwyster Gofal Plant, Dysgu a Datblygiad ar lefel 3 | Cymhwyster Gofal Plant, Dysgu a Datblygiad ar lefel 5 | Cymhwyster perthnasol i ofal plant ond heb ei restru | Dim cymwysterau Ymarferydd Gofal Plant ffurfiol |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofal Dydd Llawn | 59 | 250 | 55 | 35 | 56 |
| Sesiynol | 10 | 69 | 7 | 4 | 10 |
| Gofal Tu allan i Oriau Ysgol | 12 | 15 | 1 | 3 | 3 |

*Ffynhonnell: Data HAG AGC 2021*

Mae'r wybodaeth o'r datganiad HAG ar gyfer cymwysterau Gwarchodwyr Plant i'w gweld isod. Y cwestiwn a ofynnwyd oedd “Pa rai o’r cymwysterau canlynol sydd gennych chi?”

| | Uned CYPOP 5 neu IHC & PCP | Cymhwyster Gofal Plant, Dysgu a Datblygiad ar lefel 2 | Cymhwyster Gofal Plant, Dysgu a Datblygiad ar lefel 3 | Cymhwyster Gofal Plant, Dysgu a Datblygiad ar lefel 5 | Cymhwyster perthnasol i ofal plant ond heb ei restru |
|---|---|---|---|---|---|
| Gyda’r cymhwyster | 27 | 18 | 29 | 1 | 17 |
| Astudiaeth yn parhau | | | 1 | 2 | 1 |
| Dim hefo’r cymhwyster | 35 | 34 | 29 | 56 | |

Cyrsiau hyfforddi gwarchodwyr plant - O fis Medi 2019 newidiodd yr hyfforddiant gwarchodwyr plant, disodlwyd y cwrs CYPOP 5 gan ddwy uned sef Uned 326 Cyflwyniad i ofal plant yn y cartref (IHC) ac Uned 327 Paratoi ar gyfer ymarfer ym maes gwarchod plant (PCP). Disgwylir i Nanis gwblhau Uned 326 yn unig.

O fewn y datganiad HAG gofynnwyd i leoliadau roi data ar gymwysterau Gwaith Chwarae eu staff. O’r rhai a ymatebodd dyma’r canlyniadau:

**Nifer y staff sy’n meddu ar Gymhwyster Gwaith Chwarae fesul math o Ofal Plant.**

| Cymwysterau Gwaith Chwarae | Gofal Dydd Llawn | Sesiynol | Gofal tu allan i oriau ysgol | Gwarchodwyr |
|---|---|---|---|---|
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Ymarfer Gwaith Chwarae (L2APP) | 2 | 0 | 2 | 1 |
| Diploma Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae | 4 | 0 | 5 | 1 |
| Diploma Lefel 2 Gwaith Chwarae; * Rhoi Egwyddorion ar Waith (P3) - yn cynnwys dyfarniad, tystysgrif a diploma | 1 | 3 | 3 | 0 |
| Dyfarniad Lefel 3 mewn Rheoli Cynllun Chwarae Gwyliau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dyfarniad Lefel 3 mewn Pontio i Waith Chwarae o'r Blynyddoedd Cynnar | 39 | 1 | 4 | 0 |
| Diploma Lefel 3 Gwaith Chwarae | 24 | 0 | 13 | 0 |
| Diploma Lefel 3 Gwaith Chwarae; * Rhoi Egwyddorion ar Waith. (P3) - yn cynnwys dyfarniad, tystysgrif a diploma | 4 | 2 | 1 | 1 |
| Diploma Lefel 5 mewn Gwaith Chwarae | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Cymhwyster sy'n berthnasol i chwarae, ond heb ei restru | 6 | 2 | 0 | 6 |
| Ymarferwyr Chwarae heb unrhyw gymwysterau ffurfiol | 78 | 7 | 1 | 4 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y staff sy'n ymarferwyr chwarae | 153 | 15 | 28 | 14 |

Mae mwy o staff mewn lleoliadau yn cael eu hannog i ddilyn hyfforddiant cymhwyster Chwarae yn unol â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant. Bydd cynlluniau i'r dyfodol i ddarparu cyfleoedd hyfforddiant Chwarae yn cael eu hamlinellu yn adran Cynllun Gweithredu'r adroddiad hwn.

O fewn y datganid HAG gasglwyd data gan ddarparwyr ar nifer y rhai a nododd eu bod wedi cael hyfforddiant ychwanegol/arbenigol mewn cefnogi plant ag ADY/AAA.
Dengys y tabl isod yr ymatebion fesul math o ddarpariaeth:

| Math o Ofal Plant | Do | Naddo | Heb Ymateb |
|---|---|---|---|
| Gwarchodwyr | 12 | 48 | 1 |
| Gofal Dydd Llawn | 45 | 12 | |
| Sesiynol | 21 | 9 | |
| Gofal Tu allan i Oriau Ysgol | 11 | 1 | |

**Hyfforddiant gan Cyngor Gwynedd**

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r Uned Gofal Plant wedi cynnig amrywiaeth o hyfforddiant i'r darparwyr gofal plant. Mae hyn er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol Gofal Plant ac i ddarparu datblygiad proffesiynol parhaus i holl staff y darpariaethau.

Mae Cofid19 wedi rhoi heriau ychwanegol inni yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ran cynnal cyrsiau wyneb yn wyneb, ac rydym wedi gorfod addasu a newid y ffordd yr ydym yn cynnal ein cyrsiau.

Yn ystod 2019/20 bu i 365 unigolion fynychu hyfforddiant boed yn amrywio o gyrsiau cymorth cyntaf, diogelu plant, makaton a chyflwyniad ADY. Yn anffodus bu gofyn inni orfod gohirio cyrsiau oedd wedi cael ei drefnu ar gyfer canol / diwedd Mawrth 2020.

Yn ystod 2020/21 bu i 368 o unigolion fynychu hyfforddiant amrywiol.

Diogelu Plant - Roeddem yn ffodus iawn i fedru symud cyrsiau Diogelu Plant ar-lein o fis Gorffennaf ymlaen. Er bod y niferoedd oedd yn cael mynychu yn llai na'r hyn oedd yn cael mynediad i gwrs wyneb yn wyneb. Mae'r cyrsiau bellach dal ar-lein a llawer o'r mynychwyr yn gweld hyn yn llawer iawn cyfleus. Mae'r Sir yn ardal eang iawn ac felly roedd gofyn i rai mynychwyr drafaelio i gael mynychu cwrs wyneb yn wyneb.

Cymorth Cyntaf - Ail ddechreuodd ein cyrsiau Cymorth Cyntaf Pediatrig wyneb yn wyneb yn fis Chwefror 2021, ond gyda nifer is o 6 yn mynychu i sicrhau bod canllawiau cofid yn cael eu dilyn. Yn ystod y cyfnod lle nad oedd hyfforddiant ar gael mi oeddem yn cyfeirio pawb i ddilyn cwrs ar-lein.

Makaton - Yn ystod y flwyddyn bu inni gynnal pedwar hyfforddiant Lefel 1 + 2 ar-lein. Roedd y nifer oedd yn medru mynychu hyfforddiant yma yn llawer llai na be fuasai wedi gallu mynychu "wyneb yn wyneb" gan ei fod yn hanfodol bod yr hyfforddwraig yn medru gweld pob mynychwr ar sgrin.

Bu cydweithio unwaith eto eleni gyda Dietegwyr Iechyd Cyhoeddus i gynnal cyrsiau bwyta'n dda. Yn anffodus rodd y niferoedd fynychodd yr hyfforddiant yn ystod y cyfnod yn isel. Prif resymau oedd diffyg cyrsiau gyda'r nos/penwythnosau ag darparwyr methu rhyddhau staff yn ystod y dydd oherwydd diffyg staff/ problemau staffio. Rydym wrthi yn trafod opsiynau posib er mwyn ceisio trefnu cyrsiau ar amseroedd cyfleus i'r darpariaethau ag opsiynau amrywiol o ran diwrnodau/amseroedd.

Anfonwyd dros 60 o becynnau gweithgareddau awyr agored i ddarparwyr gofal plant y sir. Crëwyd y prosiect gan Elfennau Gwyllt er mwyn helpu darpariaethau i wneud gwell defnydd o'r awyr agored. Bu i bob darpariaeth dderbyn bocs yn llawn adnoddau a llyfryn yn llawn syniadau o weithgareddau awyr agored ar gyfer celf a chrefft, STEM a chysylltu natur. Trefnwyd sesiynau ar-lein i drafod syniadau yn rhan o'r hyfforddiant.

Gyda Cofid yn gyfnod pryderus i bawb, penderfynwyd cynnal hyfforddiant er mwyn lles y staff.
Trefnwyd hyfforddiant (6 sesiwn) gyda'r nos ar-lein yn edrych ar elfennau gwahanol o ran lles ag iechyd - hyfforddiant ioga cyflwyniad i ymwybyddiaeth ofalgar/meddylgarwch, a maeth ag iechyd.

2021-22
Yn ystod y flwyddyn bu inni barhau i gynnal pob hyfforddiant ar-lein oni bai am gyrsiau cymorth cyntaf oedd yn cael ei cynnal wyneb yn wyneb ond gyda niferoedd llai yn mynychu.
Yn ystod y flwyddyn bu inni gynnal:-
Cyrsiau Bwyta'n dda Cyn Ysgol a Lefel 2 Sgiliau Bwyd a Maeth drwy ofal Dietegwyr Iechyd Cyhoeddus.
Cyrsiau Cymorth Cyntaf - 231 wedi mynychu.
Cyrsiau Diogelu Plant - 214 wedi mynychu ar lein.
Trefnwyd mwy o gyrsiau Iechyd a Lles meddyliol i blant, ag bu hefyd gynnal hyfforddiant "Dawn Deud Stori".
Bu i 40 unigolyn cael cyfle i ddilyn hyfforddiant Makaton Lefel 1 +2 , a bu i 7 unigolion fynychu cwrs "refresher".

Mynychwyd 252 hyfforddiant “In the Moment Planning” gyda’r hyfforddwraig Anne Ephgrave..

Trefnwyd hyfforddiant “Schema” ar gyfer ein darparwyr addysg feithrin a bu i 169 fynychu’r hyfforddiant. Bwriad yr hyfforddiant yw helpu ymarferwyr y blynyddoedd cynnar i nodi sgemâu ac i ddeall pa mor bwysig ydynt a'r rôl hanfodol y maent yn ei chwarae yn nysgu'r plentyn sy'n tyfu.

Cafwyd sesiwn flasu Ysgol Goedwig, gyda mwy o gyrsiau Blas ar Ysgol Goedwig, Blas ar Ysgol Draeth ag Lefel 2 Ymarferwr Awyr Agored wedi trefnu.

Cyrsiau hyfforddi gwarchodwyr plant - O fis Medi 2019 newidiodd yr hyfforddiant gwarchodwyr plant, disodlwyd y cwrs CYPOP 5 gan ddwy uned sef Uned 326 Cyflwyniad i ofal plant yn y cartref (IHC) ac Uned 327 Paratoi ar gyfer ymarfer ym maes gwarchod plant (PCP). Disgwylir i Nanis gwblhau Uned 326 yn unig. Mae hyfforddiant i Warchodwyr Plant a Nanis wedi bod ar-lein eleni oherwydd Cofid-19. Yn ystod mis Hydref 2021 i fis Mawrth 2022, yn unol â’r arian ychwanegol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru,roedd PACEY Cymru yn gallu Cynnig hyfforddiant cyn cofrestru â chymorthdal gyda chyfraniad o £50 yn ofynnol. Cyn ac ar ôl y prosiect hwn, rydym fel awdurdod lleol yn ariannu lleoedd ar yr hyfforddiant cyn cofrestru hwn, ac mae hefyd angen cyfraniad o £50 gan ddysgwyr.

Yn ystod 2021-22 bu i PACEY dderbyn arian er mwyn ariannu ffioedd hyfforddiant ar gyfer unigolion. Yn y blynyddoedd cyn hynny, ag o eleni mi fyddwn fel awdurdod yn ariannu’r hyfforddiant ond yn gofyn am cyfraniad o £50.

ADY: yn dilyn cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru bod deddf newydd ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) - Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, roedd yn bwysig sicrhau bod hyfforddiant perthnasol yn cael ei rhoi i’r darpariaethau er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o’r drefn oedd yn cael ei rhoi ar waith yn raddol o Fedi 2021.
Yn ystod y flwyddyn trefnwyd hyfforddiant datblygu proffil un tudalen, delio gyda sgyrsiau anodd, cyflwyno prosesau ADY, cefnogi plant ag anawsterau ymlyniad (attachment difficulty), rhestr wirio arsylwi, therapi chwarae’n seiliedig ar berthynas ag ‘Trauma informed schools’ i’r blynyddoedd cynnar.

Yn ogystal â’r hyfforddiant uchod, cyflwynwyd 4 sesiwn ymwybyddiaeth am waith yr Uned Gofal Plant, a’r gefnogaeth sydd ar gael i bob darparwr. Yn ogystal cyflwynwyd gwybodaeth am y Sustem Ddigidol Genedlaethol newydd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant.
Roedd hefyd yn gyfle i’r darparwyr drafod unrhyw beth oedd yn eu pryderu hefyd.

Mae wedi bod yn gyfnod heriol i ddarparwyr yn y blynyddoedd diwethaf. Mae prinder staff oherwydd salwch, cofid, neu fethiant i recriwtio wedi bod yn heriol ac ar brydiau nid ydynt wedi gallu anfon staff ar hyfforddiant, neu wedi gorfod tynnu allan funud olaf.

Rydym wedi cynnal hyfforddiant ar benwythnosau, gyda'r nos ag yn ystod yr wythnos er mwyn caniatáu mynediad i bawb sydd eisiau mynychu.

## 12. CYSGA

Mae Uned Blynyddoedd Cynnar Cyngor Gwynedd yn cyd-weithio'n agos gyda'r Adran Addysg, ac yn gyfrifol am gefnogi ac ariannu'r darparwyr Addysg Feithrin nas-gynhelir.
Mae Swyddogion yr Uned wedi bwydo gwybodaeth a sylwadau i'r Cynllun Strategol Gymraeg mewn Addysg 2022-2032, ac yn gweithredu unrhyw argymhellion a osodir.

Iaith Dysgu
Nod y Polisi Iaith yw sicrhau bod holl ddisgyblion y sir, yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Disgwylir i holl sefydliadau addysg y sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd.
Mae'r Polisi Iaith yn rhoi pwyslais ar drochi dysgwyr 0-7 oed yn y Gymraeg, sicrheir bod pob lleoliad Blynyddoedd Cynnar yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer y Gymraeg, a sicrhau fod pob plentyn yn cael asesiad sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg ar fynediad ac ar derfyn addysg feithrin rhan amser ac ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.

Er mai nod cyffredinol y Polisi o ran cyfrwng yr addysg yw datblygu dwyieithrwydd, fe bwysir y fantol o blaid y Gymraeg. Mae hyn yn arbennig o wir yn y blynyddoedd cynnar [meithrin ac yn y blynyddoedd yn arwain at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen] er mwyn gosod sylfeini cadarn ar gyfer datblygiad pellach.

Ein nod yw sicrhau y bydd yr holl rhanddeiliaid yn gweithredu'n effeithiol mewn perthynas â'r Gymraeg er mwyn sicrhau dilyniant o un cyfnod allweddol i'r nesaf yn unol â'r trefniadau a nodir yn y **Cytundeb Partneriaeth** rhwng yr Awdurdod a'r ysgolion a'r cylchoedd meithrin.

Mae 100% o blant meithrin/ tair oed Gwynedd yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn y lleoliadau nas-gynhelir. O fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun byddwn yn anelu i barhau i gynnal y safonau uchel o gyrraedd y targed o 100% o blant 3 oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
Byddwn yn manteisio ar bob cyfle i gyfathrebu a chyd-gynllunio gyda chyrff allanol ym maes y Blynyddoedd Cynnar, gan gynnwys Mudiad Meithrin, i gryfhau ac ehangu'r ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg, er mwyn sicrhau llwybr di-dor at addysg ddwyieithog, yn unol â Pholisi Iaith y Sir.

Byddwn yn parhau i gyd-weithio gyda chyrff cyhoeddus megis Cymraeg i Blant, Consortia Rhanbarthol, RhAG, Urdd Gobaith Cymru a Mentrau Iaith.

Ar ddiwedd y cynllun deng mlynedd bydd Gwasanaethau Addysg y Blynyddoedd Cynnar yn cynnal yr un safonau uchel, ac yn sicrhau darpariaeth addas i ganiatáu i bob disgybl ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog ymhob un o'r darpariaethau.
Mae hybu'r defnydd o'r Gymraeg hefyd yn un o amcanion gwella Cyngor Gwynedd, gyda Chynllun Strategol y Cyngor yn datgan mai'r nod yw gweld: "Pobl Gwynedd yn manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, y gweithle, ac wrth gyrchu gwasanaethau cyhoeddus".

## 13. Rhaglenni Ariannu Gofal Plant

### 13.1 Cynnig Gofal Plant Cymru

Mae Uned Gofal Plant Gwynedd yn gweinyddu'r Cynnig Gofal Plant Cymru ar gyfer trigolion Gwynedd. Mae'r Uned hefyd yn gweinyddu ceisiadau gan rieni, ac yn gwneud taliadau misol i ddarparwyr, ar gyfer Cyngor Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sir Conwy.

Mae'r cynnig a gyflwynwyd fel peilot (i rai ardaloedd o Wynedd ac Ynys Môn) yn 2017 bellach yn cael ei ddefnyddio gan dros 1800 o deuluoedd y flwyddyn, dros y tair sir.


Mae'r Cynnig Gofal Plant yn gynllun sy'n rhoi mynediad i rieni sy'n gweithio; i uchafswm o 20 awr o ofal plant yn ystod tymor ysgol, a 30 awr o ofal yr wythnos yn ystod y gwyliau am hyd at 48 wythnos o'r flwyddyn.

Mae prif ddyletswyddau'r tîm y Cynnig Gofal Plant yn cynnwys asesu ceisiadau rhieni a darparwyr, monitro hawliadau a newidiadau, gweinyddu taliadau misol i dros 300 o ddarparwyr, a hefyd fod yn rheng flaen ar gyfer holl drigolion y tair sir.

Mae'r ffigyrau isod yn dangos y nifer o blant sydd wedi elwa o'r cynllun ym mhob ardal o Wynedd ers Medi 2017:

| ARDAL | MEDI 2017 | ION 2018 | MAI 2018 | MEDI 2018 | ION 2019 | MAI 2019 | MEDI 2019 | ION 2020 | MAI 2020 | MEDI 2020 | ION 2021 | MAI 2021 | MEDI 2021 | ION 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **ARDAL 1** | 119 | 205 | 251 | 143 | 237 | 293 | 171 | 236 | 209 | 142 | 161 | 238 | 158 | 219 |
| **ARDAL 2** | | 203 | 280 | 202 | 274 | 329 | 214 | 274 | 271 | 177 | 195 | 299 | 192 | 253 |
| **ARDAL 3** | | | 33 | 47 | 83 | 104 | 44 | 70 | 48 | 57 | 68 | 104 | 72 | 99 |
| **ARDAL 4** | 32 | 55 | 70 | 44 | 66 | 80 | 53 | 73 | 50 | 38 | 64 | 81 | 60 | 76 |
| **ARDAL 5** | 18 | 41 | 48 | 34 | 44 | 48 | 26 | 36 | 31 | 22 | 19 | 30 | 25 | 55 |

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **ARDAL 6** | 32 | 57 | 70 | 32 | 75 | 89 | 49 | 69 | 58 | 37 | 55 | 82 | 58 | 68 |
| **ARDAL 7** | | 27 | 45 | 35 | 58 | 64 | 48 | 69 | 42 | 26 | 36 | 46 | 30 | 45 |
| **ARDAL 8** | | | 31 | 23 | 34 | 39 | 24 | 34 | 24 | 16 | 30 | 35 | 15 | 32 |
| **CYFANSWM** | **201** | **588** | **828** | **560** | **871** | **1046** | **629** | **861** | **733** | **515** | **628** | **915** | **610** | **847** |




Uchafbwynt plant ar y cynnig i weld ystod tymor yr hâf pan fydd plant o bob un o'r tri thymor yn gymwys. Mae'r ffigurau'n gostwng ym mis Medi pan nad yw’r plant bellach yn gymwys wrth ddechrau Addysg llawn amser. Fodd bynnag, yn nhymor mis Medi y gwelir y nifer fwyaf o geisiadau newydd.

Mae effaith Cofid19 i’w gweld yn glir yn ystod 2020 (bron i 30% yn llai o blant ar y Cynnig rhwng mis Mawrth a mis Hydref). Parhaodd y cynllun i dalu am rai misoedd i ddarparwyr a oedd ar agor hyd yn oed os nad oedd plant yn mynychu. Cyflwynwyd y cynllun C-CAS ar gyfer gweithwyr allweddol hefyd yn ystod y misoedd rhwng Ebrill a Medi 2020.

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y cynllun rhaid i rieni naill ai fod yn gweithio'r hyn sy'n cyfateb i 16 awr yr wythnos ar yr isafswm cyflog, neu fod yn derbyn budd-daliadau penodol. Mae'r tabl isod yn nodi'r nifer o geisiadau sy'n cael eu asesu'n anghymwys bob tymor;

| | CHWE-MAI 2019 | MEH-MEDI 2019 | HYD 19-ION 2020 | CHWE-MAI 2020 | MEH-MEDI 2020 | HYD 20-ION 2021 | CHWE-MAI 2021 | MEH-MEDI 2021 | HYD 21-ION 2022 | CHWE-MAI 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PLANT DDIM YN GYMWYS | 7 | 9 | 5 | 6 | 7 | 6 | 11 | 15 | 9 | 12 |


Mae'r rhan fwyaf o geisiadau'n anghymwys oherwydd nad yw rhieni'n bodloni'r meini prawf isafswm cyflog/oriau gwaith. Yng Ngwynedd mae cyfartaledd o 2.25 cais yn cael eu gwrthod yn fisol. Dros y flwyddyn mae hyn yn cyfateb i oddeutu 2.7% o geisiadau a wrthodwyd.

Mae bron i bob darparwr gofal plant wedi'u cofrestru ar gyfer y cynllun. Mae niferoedd yn cynyddu ychydig bob blwyddyn gyda darparwyr newydd yn cofrestru.


| | **MEDI 2017** | **GORFF 2018** | **GORFF 2019** | **GORFF 2020** | **GORFF 2021** | **EBRILL 2022** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| NIFER DARPARWYR WEDI COFRESTRU | | 142 | 145 | 150 | 149 | 153 |
| NIFER DARPARWYR A PHLANT SYDD YN GYMWYS | 44 | 122 | 136 | 72 | 128 | 128 |

Fel arfer bydd tua 86% o'r darparwyr cofrestredig, gyda phlant sydd wedi cael eu hariannu trwy'r cynllun, a'r eithriad yw 2020 (oherwydd Cofid 19)

Mae 43% o'r lleoliadau sydd wedi'u cofrestru i ddarparu'r Cynnig yng Ngwynedd yn Gylchoedd Meithrin, 37% Gwarchodwyr, 13% yn Feithrinfeydd a 7% yn Glybiau ar ôl Ysgol/Gwyliau




O'r lleoliadau hyn mae 57% o blant yn mynychu Cylchoedd Meithrin, 26% yn mynychu Meithrinfeydd, 12% yn mynychu Gwarchodwyr a 5% yn mynychu Clybiau Ar Ôl Ysgol.



Er bod gwarchodwyr plant yn cyfateb i 37% o leoliadau cofrestredig, dim ond 12% o'r plant cymwys sy'n mynychu oherwydd lleoedd/capasiti cyfyngedig. Fodd bynnag, mae'r gwrthwyneb yn wir am Feithrinfeydd sy'n cyfateb i 13% o fathau o leoliadau, ond mae dros chwarter y plant cymmwys yn mynychu Meithrinfeydd.

Mae cyllid y Cynnig Gofal Plant hefyd yn cael ei ddyrannu i gefnogi plant ag ADY i gael cymorth ychwanegol i fynychu lleoliad gofal plant. Mae'r tabl isod yn dangos nifer y plant gyda ADY a ariennir yng Ngwynedd fesul tymor;

| | MAI 2018 | MEDI 2018 | ION 2019 | MAI 2019 | MEDI 2019 | ION 2020 | MAI 2020 | MEDI 2020 | ION 2021 | MAI 2021 | MEDI 2021 | ION 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| NIFER PLANT ADY | 2 | 1 | 5 | 6 | 6 | 9 | 2 | 2 | 3 | 3 | 6 | 9 |

Oherwydd Cofid 19 a'r gofyniad i aros gartref, gostyngodd nifer y plant a ariennir. Mae pob cais ADY yn cael ei adolygu gan banel gofal plant cyn caniatáu cyllid. Gellir anghenion ADY gael ei amlygu i ni naill ai gan y rhiant ar gais y Cynnig Gofal Plant, gan y lleoliad neu drwy dimau cymorth gofal plant yr Awdurdod Lleol.

Ym mis Ionawr 2023 bydd Sustem Ddigidol Genedlaethol newydd yn cael ei rhoi ar waith. Bydd hyn yn golygu y bydd pob rhiant yng Nghymru yn newid i wneud ceisiadau drwy'r sustem ddigidol genedlaethol newydd. Bydd awdurdodau lleol yn parhau yn gyfrifol am asesu'r ceisiadau hyn a gweithio gyda darparwyr. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i fod yn un o'r 2 sir fydd yn treialu'r system hon i'r Llywodraeth, gan ddechrau yn Haf 2022.

## 13.2 Addysg Feithrin Rhan Amser

**Dadansoddiad o Addysg Feithrin Rhan Amser (Cyfnod Sylfaen)**
Dengys y tabl isod nifer y **darparwyr** a gyllidir i ddarparu Addysg Feithrin Rhan Amser, fesur categori iaith ac ardal:

| | Gofal Dydd Llawn / Meithrinfa | | | | | | | | Gofal Dydd Sesiynol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ardal | | | | | | | | Ardal | | | | | | | |
| Iaith | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| Cymraeg | 8 | 9 | 4 | 4 | 1 | 4 | 3 | 1 | 3 | 8 | 2 | 3 | 2 | 3 | 1 | 1 |
| Cymraeg a Saesneg | | | | | | | | | | | | | | | | |

Mae 57 o ddarparwyr Addysg Feithrin, 55 ohonynt yn Gylchoedd Meithrin y Mudiad Meithrin a 2 meithrinfa gofal dydd llawn.
Ni chyllidir unrhyw warchodwyr plant i ddarparu Addysg Feithrin.

Mae'r holl Addysg Blynyddoedd Cynnar yn cael ei gyflwyno yn ôl polisi iaith Cyngor Gwynedd, gyda'r amodau canlynol yn eu cytundeb:

- Rhaid sicrhau darpariaeth addas i ganiatáu i bob disgybl ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog.

Wrth dderbyn y cytundeb, bydd gofyn i'r darparwr gydymffurfio â'r amcanion perthnasol a nodir yng Nghynllun Addysg Gymraeg Cyngor Gwynedd:

- Rhaid sicrhau sylfaen gadarn ar gyfer y Gymraeg, a sicrhau fod pob plentyn yn cael asesiad sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg (Proffil Cryno CS) ar fynediad ac ar derfyn addysg feithrin rhan amser.


Gwelir isod nifer y plant sy'n mynychu darpariaeth fesul ardal:

| | Darpariaeth gan Ddarparwyr Gofal Plant - Nifer plant 3 oed | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iaith | Ardal 1 | Ardal 2 | Ardal 3 | Ardal 4 | Ardal 5 | Ardal 6 | Ardal 7 | Ardal 8 |
| Cymraeg | 101 | 158 | 61 | 48 | 9 | 35 | 32 | 4 |
| Dwyieithog | | | | | | | | |

| | Darpariaeth gan Ddarparwyr Gofal Plant - Nifer plant 4 oed | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iaith | Ardal 1 | Ardal 2 | Ardal 3 | Ardal 4 | Ardal 5 | Ardal 6 | Ardal 7 | Ardal 8 |
| Cymraeg | | | | | | | 8 | |
| Dwyieithiog | | | | | | | | |

Casglwyd y data gan yr holl ddarparwyr Addysg Feithrin yn ystod tymor haf 2021 . Yr oedd 441 o blant yn cael eu cyllido yn 3 oed, a 8 yn 4 oed.
Dim ond un darpariaeth yn Ardal  7 (Penllyn) a gyllidir ar gyfer plant 4 oed oherwydd nad yw eu hysgol gynradd leol yn derbyn plant tan y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn 4.

Dangys y tabl isod nifer y llefydd Addysg Feithrin sydd ar gael fesul ardal, a nifer y plant oedd yn mynychu yn ystod haf, 2021



Dengys y tabl isod nifer yr **ysgolion** a gyllidir i ddarparu Addysg Rhan Amser Blynyddoedd Cynnar:

| | **Lleoliad yr Ysgolion** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iaith | Ardal 1 | Ardal 2 | Ardal 3 | Ardal 4 | Ardal 5 | Ardal 6 | Ardal 7 | Ardal 8 |
| Dwyieithog | 11 | 23 | 18 | 10 | 6 | 7 | 3 | 5 |
| Saesneg | 1 | | | | | | | |

Mae pob un, ond un, Ysgol Gynradd yng Ngwynedd yn cyflwyno Addysg Rhan Amser Blynyddoedd Cynnar yn Gymraeg.

Dangosir nifer y plant sy'n mynychu'r ddarpariaeth a ddarperir gan yr ysgolion isod:

| | **Nifer plant 3/4 oed** | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ardal 1 | | Ardal 2 | | Ardal 3 | | Ardal 4 | | Ardal 5 | | Ardal 6 | | Ardal 7 | | Ardal 8 | |
| Iaith | yb | yh | yb | yh | yb | yh | yb | yh | yb | yh | yb | yh | yb | yh | yb | yh |
| Dwyieithog | 233 | 37 | 237 | 85 | 139 | 30 | 89 | 12 | 34 | 28 | 17 | 40 | 11 | 29 | 26 | 30 |
| **Cyfanswm** | 270 | | 322 | | 169 | | 101 | | 62 | | 57 | | 40 | | 56 | |

Darparwyd y data yn y tabl gan yr Adran Addysg am blant oedd yn mynychu ysgol ym Medi 2021.
Mae 73% o'r plant yn mynychu sesiynau bore.

Ar hyn o bryd mae 1526 o lefydd Addysg Blynyddoedd Cynnar ar gael ar draws y sir; mae 449 o'r rhain mewn lleoliadau gofal plant a 1077 yn ysgolion cynradd yr awdurdod lleol.

Mae ysgolion cynradd yn derbyn plant yn nhymor yr Hydref yn unig, tra bod lleoliadau gofal plant yn derbyn plant yn nhymhorau'r Hydref, Gwanwyn a Haf.
Mae nifer y llefydd fydd eu hangen yn cael ei ddadansoddi trwy ddata poblogaeth / genedigaethau byw; mae'r niferoedd yn amrywio bob blwyddyn a nifer y llefydd yn hyblyg. Bydd lleoliadau ac ysgolion yn gwneud llefydd ychwanegol ar gael os bydd galw gan rieni a bod ganddynt le.

**Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol**

Ar draws Gwynedd mae digon o lefydd Addysg Feithrin Rhan Amser i'r holl blant sydd eisiau manteisio ar eu hawl, fodd bynnag rydym yn ymwybodol nad yw rhai lleoliadau ym mhob ardal yn gallu cynnig eu hawl lawn i bob plentyn, ond mae digon o leoedd mewn lleoliadau eraill. Gall hyn olygu bod rhieni'n gorfod teithio cryn bellter er mwyn cael mynediad i addysg gynnar i'w plentyn.
Rydym yn ymwybodol nad oes darpariaeth Addysg Feithrin yn ardal orllewinol Ardal 3 (Pen Llŷn), gyda'r angen i deithio i ardaloedd eraill er mwyn cael mynediad i'r ddarpariaeth.

Mae mwy yn cymryd llefydd yn yr ysgolion cynradd lleol o gymharu â'r lleoliadau gofal plant nas cynhelir. Fodd bynnag, mae mwy o hyblygrwydd yn y lleoliadau gofal plant am eu bod yn derbyn plant bob tymor a gellir rhannu'r hawl ar draws mwy nag un lleoliad. Hefyd, nid oes isafswm nifer y sesiynau y mae'n rhaid eu cymryd er mwyn derbyn yr hawliad.

Mae Grŵp Ansawdd Blynyddoedd Cynnar Gwynedd yn cydlynu a rheoli'r cymorth sydd ei angen gan y lleoliadau Cyfnod Sylfaen nas cynhelir. Mae'r Athrawon Ymgynghorol Cyfnod Sylfaen yn categoreiddio'r lleoliadau ar system goleuadau traffig er mwyn rheoli dwysedd y cymorth i'r lleoliadau. Mae hefyd yn cael ei nodi yn eu cytundeb gyda Chyngor Gwynedd pe byddai ansawdd y gwasanaeth yn gwanhau maent yn cael eu categoreiddio i gael cefnogaeth bellach. Mae hyn yn sicrhau ansawdd y gwasanaeth.

O'r 22 arolwg Estyn a wnaed ar leoliadau nas gynhelir rhwng Medi 2018 a Mawrth 2020, graddiwyd 100% yn 'Dda'.
Mae hyn yn cymharu gyda 86% yn 'Dda' a 14% yn 'Foddhaol' a adroddwyd arnynt yn Asesiad 2017-22.
Ni fu unrhyw arolygiadau Estyn rhwng Mawrth 2020 ac Ionawr 2022 oherwydd pandemic Cofid-19

Dim ond 2 Meithrinfa Dydd Llawn sydd gyda Cytundeb i darparu Addysg Feithrin Blynyddoedd Cynnar, gyda gweddill y ddarpariaeth mewn Cylchoedd Meithrin.
Mae llawer o rieni sy'n gweithio angen gwasanaethau ychwanegol megis clybiau brecwast/gofal cofleidiol er mwyn gallu derbyn eu hawliad.


### 13.3 Dechrau'n Deg

Mae gan y chwe ardal Dechrau'n Deg ddarpariaeth amrywiol o ofal plant i'r plant dwy oed. Yn rhan o'r cynllun mae 3 meithrinfa - un breifat, un yn cael ei rheoli gan Barnardos, ac un yn cael ei rheoli gan Gyngor Gwynedd. Cylchoedd meithrin yw'r 11 darpariaeth arall – un ar gau oherwydd diffyg staff ers 2 flynedd. Comisiynwyd lleoliad newydd yn Chwefror 2022 i ddarparu mwy o ofal plant wrth ymestyn i

LSOA newydd Bowydd a Rhiw yn ardal Blaenau Ffestiniog yn ystod 22/23, mae buddsoddiad cyfalaf wedi ei rhaglennu i sefydlu lleoliad newydd ar safle Ysgol Maenofferen i'r cylch.

Mae'r holl leoliadau yn cael eu monitro'n agos gan athrawon Dechrau'n Deg sydd yn ymweld yn rheolaidd i gefnogi a gweithio'n agos gyda'r Mudiad Meithrin i wella safonau yn barhaus.

Gwelwyd ers 2017-18 fod % presenoldeb ein lleoliadau gofal plant wedi gostwng o 81% yn 17-18 i 74% yn 19-20, ac yna yn ystod blwyddyn gyntaf Cofid i 46%. Bu i nifer fawr o leoliadau Dechrau'n Deg gau yn ystod 20-21. O fedi 2020 gwelwyd plant yn dychwelyd yn raddol yn ôl i'r lleoliadau. Bu gweddill 21-22 yn flwyddyn lle gwelwyd nifer o leoliadau yn parhau i gau yn sgil cofid, a hefyd swyddogion yn gadael eu swyddi, a lleoliadau'n methu llenwi a phenodi'r swyddi hynny. Gwelsom fod presenoldeb wedi cynyddu yn ystod 21-22 i 68%, byddwn yn parhau i gefnogi'r lleoliadau i wella presenoldeb.





Gwelsom o 2018-19 ostyngiad graddol yn y sesiynau a fynychwyd gan blant Dechrau'n Deg yn y lleoliadau Gofal Plant. Roedd gwaith cychwynnol wedi digwydd i adnabod yr angen i wneud gwaith pellach i ddatblygu cydweithio rhwng y lleoliadau gofal plant a rhieni i hyrwyddo 'r gwasanaeth maent yn gynnig. Yn ystod cyfnod cychwynnol Cofid 19-20 a 20-21, gwelwyd gostyngiad sylweddol yn y nifer sesiynau a fynychwyd. Bu i nifer fawr o leoliadau gau o'r cyfnod Mawrth 2020- Medi 2020, ac ni ddarparwyd sesiynau i'r plant. Bu i nifer o leoliadau gynnig cefnogaeth dros y ffôn a rhannu pecynnau efo 'r rhieni a'r plant. Yn medi 2020 agorodd mwyafrif y lleoliadau a gwelwyd

nifer o blant yn dychwelyd yn raddol i fynychu sesiynau. Mae nifer sesiynau Dechrau'n Deg a fynychwyd wedi cynnydd yn 21-22 o gymharu â 19-20 a 20-21 wrth i hyder rhieni ddychwelyd, a'u bod yn barod i'w plant ddychwelyd yn ôl i'r lleoliadau.

| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer sesiynau Dechrau'n Deg oedd ar gael** | 34134 | 36611 | 33940 | 29012 | 31785 |
| **Nifer sesiynau Dechrau'n Deg a fynychwyd** | 27756 | 28806 | 24999 | 13293 | 21593 |

Yn dilyn penodi Swyddog Datblygu Gofal plant Dechrau'n Deg, dechreuodd y gwaith o gydweithio efo'r darpariaethau Gofal Plant i wella presenoldeb, a chynyddu'r sesiynau mae'r plant yn fynychu. Mae'r gwaith yma yn gyfuniad o gydweithio efo'r lleoliadau Gofal plant, gweddill swyddogion a thimau aml asiantaethol Dechrau'n Deg. Gwella y ffordd mae gwybodaeth am leoliadau a sesiynau Dechrau'n Deg, yn cael ei rannu efo rhieni, ar y pwynt lle maen nhw yn cofrestru eu plant i leoliad gofal plant Dechrau'n Deg yw'r nod.
Yn y cyfnod nesaf, bydd y Swyddog yn datblygu system i gofrestru ar lein, ac yn cydweithio efo adrannau o fewn Cyngor Gwynedd. Mae'r swyddog wedi cychwyn yn barod i greu dull o hyrwyddo'r ddarpariaeth sydd yn cael ei chynnig yn y lleoliadau, drwy greu fideos fydd yn galluogi rhieni i gael y wybodaeth yn ddigidol. Gobeithiwn y bydd y gwaith yma yn gwneud y broses yn haws i rieni gofrestru, ond hefyd yn gwerthu'r gwasanaeth yn fwy effeithiol, a chyfrannu at wella presenoldeb yn y tymor hir.



Mae tîm Dechrau'n Deg yn monitro'r ffigyrau presenoldeb yn rheolaidd gyda'r lleoliadau, ac ymdrinnir â phresenoldeb isel trwy drafodaethau amlasiantaethol os oes angen, i drafod materion sy'n codi, a phroblemau sydd gan rai rhieni wrth fynychu'r lleoliadau.

Mae'r rhan fwyaf o rieni, nad ydynt yn manteisio ar yr hawl i ofal plant, yn defnyddio math arall o ofal plant nad ydyw wedi'i gontractio o fewn y rhaglen, h.y. meithrinfa diwrnod llawn neu Gylch Meithrin y tu allan i'r dalgylch.

**Datblygiadau a buddsoddiad Cyfalaf Lleoliadau gofal Plant ardaloedd Dechrau'n Deg**

| Blwyddyn | Datblygiadau |
|---|---|
| **2017/18** | Datblygu trydydd caban a gofod tu allan a'r safle Cylch Caban Cegin.<br>Addasiadau i ystafell plant hŷn ym Meithrinfa Plas Pawb.<br>Sefydlu system ddiogelwch i drafnidiaeth ar safle Plas Ffrancon i gefnogi plant Cylch Cefnfaes. |
| **2018/19** | Sefydlu system ddiogelwch i drafnidiaeth ar y safle Plas Pawb i gefnogi'r ddau leoliad Gofal plant.<br>Adnoddau i'r Cylch newydd yn Caban Cegin.<br>Datblygu Pram shed a CCTV ar gyfer y gofal plant ar safle Plas Pawb. |
| **2019/20** | Datblygu llecyn chwarae tu allan Cylch Cefnfaes, Bethesda. |
| **2020/21** | Datblygu cysgodfannau allanol amrywiol i leoliadau gofal plant - Dolgellau, Meithrinfa Caban Bach, Meithrinfa Ogwen.<br>Datblygiad mawr i ddatblygu'r ardal tu allan ar safle Plas Pawb – ar gyfer defnydd Cylch Maesincla a Meithrinfa Plas Pawb. |
| **2021/22** | Pryniant a chynllunio i sefydlu caban newydd i ddarpariaeth gofal plant newydd yn Blaenau Ffestiniog.<br>Canopis ardal tu allan i Cylch Talysarn, Meithrinfa Plas Pawb, Cylch Maesincla, a Chylch Seiont a Pheblig. |

**Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol**

Ansawdd y gofal plant yw cryfder y rhaglen.
Buddsoddodd Dechrau'n Deg yn natblygiad gweithlu gofal plant Dechrau'n Deg gyda dewislen o hyfforddiant megis Elklan, Makaton, sgrin Wellcomm, Hyrwyddo Ymddygiad Cadarnhaol, 'In the moment Planning' 'Loose parts' a 'Schemas' – arweiniad i leoliadau i ddilyn y plentyn, Yoga, Maethiad, Cymorth Cyntaf, Hylendid Bwyd a Diogelu Plant.
Buddsoddiad Cyfalaf i ddatblygu ardaloedd tu allan mewn lleoliadau ar draws y chwe ardal.

Hefyd, cyrhaeddodd mwyafrif y staff gymhwyster Lefel 3 neu'n uwch yn y 13 lleoliad Dechrau'n Deg.

| | |
|---|---|
| **Nifer lleoliadau** | **13** |
| **Nifer arweinwyr gofal a gymhwysodd i lefel 5 (4 gynt)** | **11** |
| **Nifer staff arall a gymhwysodd i lefel 5 (4 gynt)** | **6** |
| **Nifer staff arall a gymhwysodd i lefel 3** | **59** |
| **Nifer staff arall a gymhwysodd yn is na lefel 3** | **26** |

*Ffigyrau Mai 2022 – Data Monitro Dechrau'n Deg*

Mae'r holl leoliadau wedi cyrraedd nod sicrwydd ansawdd gofal plant neu'n gweithio tuag ato.

Cofrestrodd yr holl leoliadau Dechrau'n Deg gyda Chynllun Cyn-Ysgolion Iach a Chynaliadwy Gwynedd ac y maent wedi derbyn hyfforddiant a chefnogaeth gan y cydlynydd a swyddogion i hybu bwyta'n iach, sgiliau coginio, hylendid bwyd, gweithgaredd corfforol, etc.

Mae holl ddarparwyr gofal plant Dechrau'n Deg yn cynnig gwasanaeth dwyieithog i'r plant.

### 13.4 Clybiau Brecwast am Ddim

Dadansoddiad o Ddarpariaeth Clwb Brecwast am Ddim

| Ardal | Enw'r Ysgol | Nifer yn Mynychu |
|---|---|---|
| 1 | Bodfeurig | 10 |
| | Penybryn, Bethesda | 57 |
| | Llanllechid | 48 |
| | Glancegin | 25 |
| | Abercaseg | 30 |
| | Y Felinheli | 30 |
| | Hirael | 15 |
| | Llandygai | 36 |
| | Tregarth | 24 |
| | Cae Top | 46 |
| | Y Garnedd | 87 |
| | Ein Harglwyddes | 29 |
| 2 | Gwaun Gynfi | 31 |
| | Llanrug | 41 |
| | Bethel | 17 |
| | Brynaerau | 5 |
| | Gelli | 33 |
| | Dolbadarn | 38 |
| | Felinwnda | 4 |
| | Llandwrog | 10 |
| | Llanllyfni | 10 |
| | Baladeulyn | 6 |
| | Nebo | 6 |
| | Penisarwaen | 14 |
| | Bro Lleu | 60 |
| | Rhiwlas | 29 |
| | Rhosgadfan | 14 |
| | Talysarn | 9 |
| | Waunfawr | 28 |

| | | |
|---|---|---|
| **2** | Yr Hendre | 60 |
| | Bontnewydd | 57 |
| | Bro Llifon | 46 |
| | Maesincla | 20 |
| | Santes Helen | 7 |
| **3** | Nefyn | 2 |
| | Abererch | 15 |
| | Chwilog | 24 |
| | Edern | 13 |
| | Tudweiliog | 25 |
| | Pont y Gof | 14 |
| | Pentreuchaf | 10 |
| | Bro Plenydd | 10 |
| | Llanbedrog | 22 |
| | Llangybi | 9 |
| | Morfa Nefyn | 11 |
| | Yr Eifl | 16 |
| | Cymerau | 37 |
| | Foelgron | 10 |
| **4** | Beddgelert | 10 |
| | Borthygest | 13 |
| | Treferthyr | 24 |
| | Llanystumdwy | 13 |
| | Garndolbenmaen | 9 |
| | Eifion Wyn | 16 |
| | Y Garreg | 6 |
| | Y Gorlan | 25 |
| | Cefn Coch | 32 |
| | Talsarnau | 23 |
| | Tanycastell | 14 |

| Ardal | Enw’r Ysgol | Nifer yn Mynychu |
|---|---|---|
| 5 | Bro Cynfal | 10 |
| | Edmwnd Prys | 19 |
| | Manod | 27 |
| | Tanygrisiau | 30 |
| | Bro Hedd Wyn | 26 |
| | Maenofferen | 36 |
| 6 | Y Traeth | 17 |
| | Dyffryn Dulas | 8 |
| | Llanbedr | 4 |
| | Bro Idris - safle Dolgellau | 15 |
| | Bro Idris - safle Llanelltyd | 17 |
| | Bro Idris - salfe Dinas Mawddwy | 10 |
| | Bro Idris - safle Rhydymain | 12 |
| 7 | O M Edwards | 16 |
| | Bro Tryweryn | 13 |
| | Ffridd y Llyn | 26 |
| 8 | Penybryn, Tywyn | 56 |
| | Pennal | 5 |
| | Craig y Deryn | 12 |

Mae gan 78 ysgol gynradd ar draws Gwynedd ddarpariaeth clwb brecwast am ddim.
Nid oes cyfyngiad ar nifer y plant gaiff fynychu.
Mae mwyafrif y lleoliadau ar agor am 8yb

### 13.5 Credyd Treth Gwaith/ Credyd Cynhwysol a Gofal Plant a Gefnogir gan Gyflogwr/ Gofal Plant Rhydd o Dreth

Yn yr arolwg rhieni, gofynnwyd a oedd rhieni yn derbyn unrhyw help, heblaw am gynllun Cynnig Gofal Plant Cymru, tuag at gostau gofal plant. Ymatebodd 130 o rieni y cwestiwn:

| Cymorth tuag at gostau gofal plant | Ymateb fesul canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Elfen Gofal Plant y Credyd Treth Gwaith/Credyd Cynhwysol | 34.62% | 45 |
| Talebau gofal plant / gofal plant heb dreth | 38.46% | 50 |
| Grant gofal plant i fyfyrwyr | 2.31% | 3 |
| Cyfraniadau Cyflogwyr | 1.54% | 2 |
| Arall | 24.62% | 32 |

Roedd yn ymddangos nad oedd rhai yn gwybod am y cynlluniau, ac mae adborth gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn dangos bod diffyg ymwybyddiaeth ymysg rhieni o’r cynlluniau gwahanol.

Yn aml, y cynllun Gofal Plant Di-dreth yw'r unig gynllun sydd ar gael i rieni sy'n gweithio.

Mae darparwyr gofal plant a ymatebodd i’r cwestiwn ynghylch adran gofal plant Di-dreth y ffurflen HAG yn nodi bod y rhan fwyaf yn ymwybodol o’r cynllun ac yn ei weithredu. Fodd bynnag, roedd y cwestiwn ar yr HAG yn ymwneud â nifer y rhieni oeddynt yn derbyn taliadau ar hyn o bryd yn hytrach nag a fyddent yn barod i gael taliad drwy'r cynllun pe byddent yn cael eu gofyn. Mae’n bosibl iawn y bydd y nifer a fyddai’n gwneud hynny yn uwch na’r nifer a ddangosir isod:

| Math o Ofal Plant | Nifer yn y Sir | Nifer sy’n derbyn taliadau drwy’r Cynllun Gofal Plant Di-dreth |
|---|---|---|
| Gwarchodwyr | 61 | 49 |
| Gofal Dydd Llawn | 57 | 36 |
| Sesiynol | 30 | 14 |
| Tu allan i Oriau Ysgol | 12 | 10 |
| **Cyfanswm** | **160** | **109** |

## 14. Canlyniadau Ymgynghori gyda Rhanddeiliaid

Ymgynghorwyd ag amrywiaeth o randdeiliaid allweddol, a chrynhoir y canfyddiadau isod:

**Asesiad Anghenion Llesiant**
Asiwyd yr ADGP yn agos â'r Asesiad Anghenion Llesiant Lleol gyda'r un ardaloedd yn cael eu defnyddio ar gyfer y ddau.
Cynhwyswyd data poblogaeth am yr Asesiad Anghenion Llesiant Lleol yn yr ADGP er mwyn sicrhau cysondeb gwybodaeth.
Defnyddiwyd ymarferiad corfforaethol 'Ardal Ni 2035' ar gyfer yr Asesiad tro hyn, a dansoddwyd yr ymatebion a dderbyniwyd, gyda'r canfyddiadau canlynol ynghylch gofal plant:

**Beth sydd ddim mor dda am yr ardal?**

Bro Ardudwy (Ardal 4/6)

- Diffyg darpariaeth gwasanaeth Mam a'i Phlentyn a rhai yn gorfod teithio pellter i gael "creche".
- Diffyg gofal plant yn yr ardal – gorfod mynd i Borthmadog am ofal plant.

Bro Ffestiniog (Ardal 5)

- Pryder am leihad mewn gwasanaethau – h.y. clybiau ieuenctid, llyfrgelloedd, cludiant cyhoeddus, gofal plant.

**Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal?**

Bro Ardudwy

- Darpariaeth gofal plant addas yn yr ardal.

Bro Ffestiniog

- Gofal plant fforddiadwy ar gael i bawb. Byddai'n dda gweld cyfleoedd yn lleol i gael hyfforddiant mewn gofal plant, a menter gydweithredol yn cynnig gofal plant yn lleol.

**Bwrdd Diogelu Plant**
Derbyniwyd manylion am nifer y plant sy'n derbyn gofal a phlant ar y gofrestr amddiffyn plant; nid oedd sylwadau pellach am ddigonolrwydd gofal plant yn y sir.

**Adran Plant**
Anfonwyd holiadur byr at Swyddogion Cefnogi Teulu, Tîm o Amgylch y Teulu ac Ymwelwyr Iechyd Dechrau'n Deg i ganfod eu barn, derbyniwyd 3 ymateb i'r cwestiynau canlynol:

**Ydi'r ddarpariaeth gofal plant yng Ngwynedd yn cwrdd ag anghenion y teuluoedd rydych yn cefnogi?**

- Yndi ar y cyfan

- Teuluoedd yn cael trafferth cael mynediad i ofal plant sydd yn cyrraedd eu anghenion. Diffyg newid trefniadau ble mae angen, ymestyn oriau ayyb
- Mae prinder gofal plant yn amlwg yng Ngwynedd erbyn hyn – dwi wedi bod yn trio ffendio gofal plant yn ardal Porthmadog i riant yn ddiweddar a does dim argaeledd i blant o dan ddwy oed.

**Oes digon o lefydd gofal plant ar gyfer eich anghenion?**

- Nagoes, yn enwedig o amgylch Caernarfon
- Nagoes; 0-4 oed. Gofal plant i rieni fynychu cyfarfodydd /grwpiau dros Arfon a Dwyfor.
- Dim argaeledd i blant o dan ddwy oed yn ochra' Porthmadog a Cricieth. Ymwybodol bod llefydd yn brin iawn yn y categori oedran yma ar draws Gwynedd yn gyffredinol. Prinder gofal plant ym Mhen Llŷn hefyd.

**Ydi'r ddarpariaeth gofal plant ar gael ar yr amseroedd sydd ei angen?**

- Yndi
- Nac ydi; sesiwn bore 9-12 neu 1-4. Ni sydd angen trefnu rownd argaeledd gofal plant
- Nac ydi; os oes llefydd ar gael, prin iawn ydyn nhw yn amal a dim ond ambell slot ar gael. Mae gofyn bwcio fisoedd ymlaen llaw (cyn i'r babi gyrraedd) er mwyn sicrhau bod lle i'r plentyn er mwyn i rieni fynd nol i weithio – mae'n rhwystredig i rhai rhieni sydd ddim yn medru cynllunio cymaint o flaen llaw / yn bryderus am y geni ayyb

**Ydi ansawdd y ddarpariaeth yn safonol, ac yn cwrdd ag anghenion y plentyn/plant?**

- Ydi
- Ydi
- Dwi bob amser yn clywed am ansawdd arbennig a'r plant yn setlo yn dda yn y darpariaethau. Clywed llawer am altrad mewn datblygiadau plant wedi iddyn nhw gychwyn yn y darpariaethau hefyd.

**<u>Adrannau'r Awdurdod Lleol</u>**

**Adran Ymchwil a Dadansoddeg**: Cynhaliodd yr Uwch-Swyddog Ymchwil a Dadansoddeg yr holl ddata o'r arolwg rhieni ar-lein, ei ddadansoddi, a hefyd darparu llawer o'r data poblogaeth. Yr oedd eu gwaith ar yr Asesiad Anghenion Llesiant hefyd yn sicrhau cysondeb gwybodaeth ar draws y ddau adroddiad.

**Adran Addysg**: Mae'r Uned Blynyddoedd Cynnar yn wastad wedi gweithio'n agos gyda'r Adran Addysg yng nghyswllt cyllid Addysg Feithrin Blynyddoedd Cynnar ac wedi sicrhau digon o leoliadau nas cynhelir i gwrdd ag anghenion rhieni ar draws y sir.
Amlygwyd cydweithio agos fel rhywbeth hanfodol wrth i ni fynd ymlaen at ddarpariaeth newydd Ysgolion yr 21ain ganrif a'r angen am ofal plant o safon ar y safle.

**Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd**: mae'r GGD yn eistedd o fewn Uned Blynyddoedd Cynnar y Cyngor ac yn sicrhau gwybodaeth i deuluoedd a swyddogion proffesiynol o fewn, a thu allan, i'r Cyngor.


Maent yn allweddol pwysig yn casglu a rhannu gwybodaeth, ac yn sicrhau bod yr wybodaeth ar bas data DEWIS wedi diweddaru gyda manylion cyfredol lleoliadau gofal plant y Sir.
Mae cwmni ymgynghori allanol wedi comisiynu yn ddiweddar i ymgynghori gyda rhieni a swyddogion proffesiynol er mwyn canfod eu barn am yr wybodaeth mae'r GGD yn darparu a rhannu. Bydd argymhellion yr adroddiad yma yn rhan o gynllun gweithredu'r Asesiad hwn.

**Adran Gynllunio**: Mae'r Adran Gynllunio yn rhannu manylion llawn o'r holl safleoedd sydd efo caniatâd cynllunio, gyda'r diweddariad diwethaf yn Ebrill 2021.
Mae'r lleoliadau sydd hefo hawl cynllunio wedi rhannu i'r 'unedau sydd heb ddechrau' a'r 'unedau wedi dechrau' a'r math o ddatblygiad.
O'r diweddariad diwethaf, mae'r ardaloedd isod angen monitro o ran y datblygiadau tai newydd gan bod cyflenwad cyfynedig o ofal plant ac addysg feithrin ar gael:
Deiniolen; Rachub; Pwllheli; Nefyn; Chwilog; Criccieth; Bermo; Tywyn.

Mae unrhyw ddatblygiadau newydd yn ardal Caernarfon angen ei fonitro. Mae Swyddogion yr Uned Gofal Plant yn ymwybodol nad oes lleoedd ar gael yn y 2 feithrinfa o fewn y dref ar hyn o bryd i blant dan 2 oed.
Mae cydweithredu rhwng yr Adran Gynllunio, yr Adran Addysg a'r Uned Blynyddoedd Cynnar, i sicrhau fod llefydd digonol o ofal plant ac addysg Feithrin, yn angenrheidiol.

**Prifathrawon ysgolion cynradd**
Anfonwyd holiadur at bennaeth pob ysgol gynradd ym mis Mai 2022. Derbyniwyd 32 ymatebion o bob cwr o'r sir
**Cwestiwn 1: Oes gennych chi ofal plant ar safle eich ysgol ar hyn o bryd?**
Cylch Meithrin – 9
Cofleidiol – 7
Clwb ar ôl Ysgol – 7
Clwb gwyliau – 4
Clwb Brecwast am Ddim neu wedi dalu amdano – 21
Lleoliad Dechrau'n Deg – 2
Dim o'r uchod – 8

**Cwestiwn 2: A ydych yn ymwybodol o unrhyw ddarparwyr gofal plant lleol sy'n casglu plant o'ch ysgolion?**




**Cwestiwn 3: yn eich barn chi, a oes digon o ofal plant ar gael yn lleol i gwrdd ag anghenion y teuluoedd sy'n mynychu eich ysgol chi?**
Oes – 10   Na – 16
Ddim yn gwybod – 5
Sylwadau a dderbyniwyd: Gwasanaeth Derwen a Hafan y Ser yn darparu peth gofal.

**Cwestiwn 4: A yw rhieni wedi dod i gysylltiad â chi am ofal plant?**
Do – 14
Na – 12
Sylwadau a dderbyniwyd: Clwb Gofal ar ol ysgol Newydd wedi cychwyn yn yr ysgol dan ofal y Cylch Meithrin. Rhieni wedi cysylltu i holi am drefniadau ein darpariaeth. Rhieni wedi cysylltu am glwb brecwast ag ar ôl ysgol.

**Cwestiwn 5: Oes gennych chi le yn eich ysgol lle gallai darpariaeth gofal plant newydd gael ei ddatblygu?**
Oes – 7
Na – 17
Ddim yn gwybod – 1

Sylwadau a dderbyniwyd: Byddai angen estyniad pellach ar gyfer unrhyw ddatblygiad. Mae Neuadd yr ysgol wedi cael ei defnyddio i gynnal y cylch feitrhin ond doedd hynny ddim yn siwtio'r ysgol. Gellir defnyddio'r Neuadd ar ol oriau ysgol. Dibynnu ar pryd y buasai'r darpariaeth yn cael ei gynnig h.y gwyliau neu gyda'r nos yn opsiwn. Gall ystafell y cylch gael ei ddefnyddio ar gyfer gofal ôl ysgol. Cais cynllunio Caban darpariaeth Meithrin ar y safle yn y broses o gael ei chwblhau.

**Cwestiwn 6: Mewn perthynas â fforddiadwyedd gofal plant, beth yw'r tebygolrwydd y bydd teuluoedd isio gofal plant os caiff ei gynnig?** (Wrth feddwl am eich ateb, ystyriwch gyfansoddiad economaidd poblogaeth eich ysgol, y defnydd tebygol o ffrindiau a theulu fel opsiwn gofal plant, ayb.)
Sylwadau a dderbyniwyd: Llawer wedi holi i ni gynnig oriau ychwanegol i'n disgyblion meithrin ond nid yw'r capasiti staffio yn cyd-fynd a rheolau gwarchod plant. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth agos gyda cylchoedd gwarchod a meithrin yr ardal. Mae defnydd yn cael ei wneud o'r ddarpariaeth wraparound a clwb ar ôl ysgol ar hyn o bryd ac maen clwb gwyliau yn cael ei gynnig sydd fel arfer yn rhedeg yn ddyddiol yn ystod y gwyliau. Mae rhieni'n ei chael yn anodd ar ôl ysgol. Mae'r boreau yn eithaf gan fod cydweithio yma rhwng y clwb brecwast, cylch meithrin a ninnau. Mae un neu ddau riant wedi symud o'r ardal oherwydd problem gofal plant. Mae llawer o neiniau yn gofalu am blant ar ôl ysgol. Dwi'n awyddus iawn i gynnig mwy o glybiau ar ôl ysgol a gofal dan tua 5 o'r gloch, gan obeithio cydweithio efo'r cylch meithrin. Rydym wedi cynnal ymchwiliad i weld beth fyddai'r galw am ofal plant yn yr ysgol ond doedd dim digon o alw am ofal i gyfiawnhau cychwyn clwb ar ôl ysgol. Mae llawer mwy o rieni a neiniau a teidiau yn gweithio erbyn hyn ac mae'r angen am ofal plant yn cynyddu. Mae rhieni lle nad oes ganddynt deulu estynedig i'w helpu wedi cysylltu â'r ysgol yn holi os oes yna ddarpariaeth gofal ar ôl ysgol ar gael. Wedi cynnig yn ddiweddar canran isel iawn oedd eisiau'r gofal. Ardal ddifreintiedig- os oes darpariaeth rhad/am ddim yna bydd dipyn o ofyn. Os yn costio yn sylweddol e.e. clwb gofal ôl ysgol yna rhagwelir y buasai llai o ddiddordeb. Ardal eithaf difreintiedig felly nifer o rieni ddim yn gweithio- er hyn gallai gwasanaeth gofal plant fod yn help i rai gallu chwilio am waith.

**<u>Cyflogwyr</u>**
Derbyniwyd ymatebion gan 2 gyflogwr yn unig yng Ngwynedd. Un oedd yr awdurdod lleol sy'n cyflogi 6287 aelod o staff, a ffederasiwn ffermwyr ieuanc Eryri oedd y llall sy'n cyflogi 1 aelod o staff.
Mae'r ddau gyflogwr yn cynnig - oriau gweithio hyblyg, oriau yn ystod tymor ysgol a gweithio o adref , gyda'r awdurdod lleol hefyd yn cynnig gwaith shifft, rhannu swydd a dychwelyd i'r gwaith yn raddol.
Nid yw'r awdurdod lleol yn ystyried bod gofal plant yn broblem o ran recriwtio a chadw staff ond yn nodi efallai y gall gwelliannau fod, bod darpariaethau ar gael ar wahanol adegau, sesiynau mwy hyblyg, mwy fforddiadwy, mewn lleoliad gwahanol a gofal plant sy'n darparu well o ran cwrdd ag anghenion ychwanegol neu anabledd plentyn. Nid yw'r awdurdod bellach yn Cynnig talebau gofal plant.
Mae Ffederasiwn Ffermwyr Ieuanc Eryri yn nodi bod gofal plant ychydig o broblem o rhan recriwtio a chadw staff ag yn nodi y dylai'r Cynnig Gofal Plant fod ar gael unwaith mae plentyn yn troi yn 2 oed, yn teimlo ei fod yn cael ei gynnig rhy hwyr i rhai plant e.e pryd mae nhw yn y dosbarth meithrin yn yr ysgol.

**Adran Gwaith a Phensiynau**
Ymgynghorwyd ag Ymgynghorwyr Cyflogaeth Rhieni PaCE yng Ngwynedd am eu bod yn gweithio'n agos gyda rhieni lle mae gofal plant yn brif rwystr i gyrchu cyfloed am hyfforddiant neu waith. Er na chafwyd llawer o ymateb dyma'r ymateb a dderbynwyd:-
Ni chredir bod digon o ofal plant yn y Sir er mwyn fodloni anghenion:- rhieni sydd yn gweithio, teuluoedd ag incwm isel, rhieni sengl, teuluoedd o gefndir lleiafrifol ethnig, teuluoedd â phlant ag anghenion dysgu, teuluoedd cymraeg eu hiaith.
"Yn gyffredinol nid oes digon o ofal plant fforddiadwy yng Nghymru yn berthnasol i'r categori, yn ansicr pam y byddai angen gofal plant ar aelwydydd di-waith".
"Diffyg Gofal Plant yn gyffredinol, yn enwedig mewn pentrefi, nid yw rhai ysgolion yn Ngwynedd yn cynnig clybiau cyn ac ar ôl ysgol, a gorfodir rhieni i aros ar fudd-daliadau".
Y prif rhwystrau yn ei tyb nhw yw:-
"diffyg argaeledd, yn enwedig pan fydd plentyn yn symud i addysg ran amser, gan nad oes gwasanaeth coflediol digonol. Mae teuluoedd di-waith a theuluoedd incwm isel yn derbyn cymorth, ond mae pobl mewn cyflogaeth yn talu hyd at £1000 y mis am ofal plant heb gymorth, dyma'r teuluoedd y dylid eu cefnogi i aros mewn cyflogaeth".
"Diffyg gofal plant, yn enwedig ym mhentrefi anghysbell Gwynedd"
Os oes gwelliannau yn medru cael ei gwneud. Credir y dylid cael mwy o ddarpriaeth cofleidiol mewn ysgolion cynradd, a mwy o gefnogaeth ar gael i deuluoedd mewn cyflogaeth. Cynnydd mewn cyfleusterau gofal plant yng Ngwynedd gyfan.

Roedd y swyddogion i gyd yn ymwybodol o'r Cynnig Gofal Plant a Gofal Plant sy'n rhydd o Dreth (Tax Free Childcare). Roedd pob un yn credu bod y Cynnig Gofal Plant i Gymru wedi helpu teuluoedd di-waith gyda plant 3 i 4 oed i gael gwaith.

**CWLWM (Mudiadau Ambarél)**
Mudiad Meithrin
Graddiwyd y canlynol yn Dda: ansawdd y darpariaeth a darpariaeth Gymraeg/ddwyieithog
Graddiwyd y canlynol yn Foddhaol: ystod darparwyr, nifer o lefydd,fforddiadwyedd, hyblygrwydd o ddarpariaeth a sesiynau, priodoldeb amserau agor a lleoliad a hygyrchedd gofal plant.

Nododd y Mudiad Meithrin ar y cyfan mae nifer dda o ddarpariaethau gofal ac addysg Feithrin cyn oed ysgol ar draws Gwynedd mewn ardaloedd trefol a gwledig. Yn ystod y flwyddyn diwethaf mae rhai bylchau wedi eu cau e.e Blaenau Ffestiniog. Mae'r gofal cyn oed ysgol yn cael ei ddiawllu ond mae bwlch yn parhau yn y gofal ar ol ysgol a gwyliau. Mae bylchau mewn ardaloedd eraill Clynnog/Trefor/ Garndolbenmaen/Llanaelhaearn, yn bennaf oherwydd methiant i staffio'r lleoliadau. Mae'r mudiad yn gweld yr her o gael digon o weithlu cymwys yn un cynyddol.
Gyda dyfodiad y Cynnig Gofal a chynnydd yn y grantiau addysg plant 3 oed mae heriau cynaladwyedd wedi gostwng rhywfaint. Fodd bynnag yn nol y mudiad mae angen niferoedd cadarn o blant i sicrhau bod darpariaethau'n hyfyw.Rhaid sicrhau bod digon o blaen mewn lleoliad i'w gynnal yn y tymor hir. Mae'n bwysig bod gwybodaeh am enedigaethau a'r angen am ddarpariaethau mewn ardal yn cael ei wneud cyn bod lleoliadau newydd yn cael eu hagor. Gan bod costau rhedeg unrhyw fusnes yn cynyddu'n flynyddol gyda codiadau mewn cyflogau, costau

bwyd, rhent, gwresogi mae'n bwysig bod graddfeydd grantiau'n cadw i fyny gyda'r cynnydd i sicrhau cynaladwyedd lleoliadau gofal plant. Mae'n rhaid sicrhau bod graddfeydd cyflog yn adlewyrchu baich gwaith staff.

Mae'r Mudiad yn teimlo fod gweithio mewn partneriaeth aml asiantaeth yn gweithio'n dda ac yn sicrhau cysondeb mewn gofal. Mae'n gweithio'n arbennig o dda o gael trafodaeth o'r dechrau cyntaf gan dynnu ar arbenigedd y gwahanol ddarparwyr.
Mae cyd-gynllunio yn holl bwysig hefyd gyda llais i flaenoriaethau pob asiantaeth. Trwy gyd-weithio mae posib dod a cyllid at ei gilydd i sicrhau lleoliadau cadarn at y dyfodol.

Dyma awgrymiadau am welliannau ar gyfer y grwpiau canlynol:
**Teuluoedd ar incwm isel** – sicrhau mynediad teg iddynt at y gwasanaeth gan sicrhau nad ydynt yn methu allan oherwydd cyfyngiadau grantiau e.e plant 3 oed sy'n cael eu penblwydd yn ystod tymor yr haf yn methu allan ar dymor o addysg am ddim. System fel yr hen gymorthdal ffioedd yn dda i sicrhau nad ydi'r plant yn syrthio drwy'r rhwyd.
**Teuluoedd gyda phlant ag anableddau** -hyfforddiant penodol ar staff Dwylo ychwanegol i sicrhau bod y plant yn derbyn y gefnogaeth orau a gyfer eu hanghenion. System a chefnogaeth i'r plant sydd ddim yn ddigon dwys i gael cefnogaeth 1:1 ond sydd angen hwb a chynhaliaeth tymor byr. Sicrwydd o adnoddau a chyfarpar priodol i leoliadau fel bod y plant yn cael y mwyaf allan o'u cyfnod.
**Teuluoedd sy'n gweithio** – annog lleoliadau gofal plant i gynnig gofal tu allan i oriau arferol gyda'r nos ac ar benwythnos.Arbennig o wir mewn ardaeloedd sy'n dibynnu'n helaeth ar yr diwydiant twristiaeth.
**Teuluoedd sy'n chwilio am waith** – Sicrhau bod y gallu gan leoliadau i gynnig rhywfaint o ofal am ddim i deuluoedd sy'n chwilio am waith e.e i rieni fynd i gyfweliadau.

<u>PACEY Cymru</u>
Nid oedd gan PACEY Cymru y wybodaeth fanwl yn lleol i Wynedd am yr farchnad gofal plant gyfan i wneud sylwadau. Ond dyma rai sylwadau cyffredinol.

Mae PACEY Cymru yn bryderus iawn i nodi gostyngiad cyffredinol yn nifer y gwarchodwyr plant ledled Cymru ac maent wedi bod yn adrodd ar hyn am y pum mlynedd diwethaf. Mae hyn yn cael ei effeithio gan nifer llai o unigolion yn dymuno cofrestru fel gwarchodwr plant yn ogystal a chynnydd mewn dadgofrestriadau sy'n gadael y sector mewn sefyllfa fregus. Mae ffigyrau Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn dangos bod nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig yng Nghymru wedi gostwng 30% ers 2014 a bellach ar lai na 1500. Mae adroddiad blynyddol AGC yn dangos bod cwymp o 8% yn nfier y gwarchodwyr plant yngh Nghymru rhwng mis Mawrth 2018 a Mawrth 2020 yn unig, ag gwydd PACEY Cymru fod hyn wedi gostwng ymhellach yn ystod y misoedd diwethaf. Yng Ngwynedd mae PACEY Cymru ar ddallt bod 11 dad-gofrestriad yn y naw mis rhwng Ebrill 2021 a Rhagfyr 2021 (ond mi wyddom bod y nifer yn isel gan bod nifer ar rhestr "suspended" ag heb dad-gofrestru yn llwyr). Yn Ngwynedd mae 2 gofrestriad newydd wedi bod yn ystod yr un cyfnod.
Mae PACEY Cymru yn croesawu'r cyfle i weithio gyda'r Gwynedd i archwilio ffyrdd o gefnogi recriwtio a chadw gwarchodwyr plant yn lleol. Mewn perthynas â chynaliadwyedd darparwyr gofal plant presennol, mae PACEY Cymru yn teimlo y dylid rhoi sylw i osgoi dadleoli'r ddarpariaeth bresennol wrth gynllunio darpariaeth gofal plant newydd. Mae agor mwy o ofal plant ar safloedd ysgol (gan gynnwys y rhai nad

ydynt wedi cofrestru) yn effeithio ar y galw am ddarparwyr gofal plant eraill. Mae hyn yn ol PACEY Cymru yn ogystal â'r diffyg cyfleoedd i warchodwyr plant i ddarparu gwasanaethau a gomisiynir fel Dechrau Deg ac Addysg Feithrin yn cael effaith ar gynaliadwyedd i warchodwyr plant. O fis Ebrill 2021, mae PACEY Cymru wedi bod yn canolbwyntio ar hyrwyddo gwarchod plant fel dewis gyrfa. Yn ystod y misoedd a blynyddoedd nesaf mi fydd PACEY Cymru a'r awdudord yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn ceisio hyrwyddo gyrfa fel gwarchodwr plant.

**Teuluoedd ar incwm isel**

**Teuluoedd gyda phlant ag anableddau**

**Teuluoedd sy'n gweithio**

Mae PACEY Cymru yn teimlo bod gan warchodwyr rol arbennig yn sicrhau gwelliannau o rhan y gofal plant sydd ar gael i rhieni. Mae PACEY Cymru yn bryderus yn y gostyniad yn nifer o warchodwyr plant yn lleol a chenedlaethol ag yn awyddus i ystyried adolygiad o brosesau comisiynu i gynnwyr gwarchodwyr plant. Teimlai PACEY Cymru y gall Nanis Cymeradwy fod yn opsiwn i gefnogi rhai teuluoedd sy'n gweithio.

**Teuluoedd sy'n chwilio am waith**

Mae PACEY Cymru yn gweithio mewn partneriaeth ag Gwynedd,Canolfan Byd Gwaith, PaCE, Gyrfa Cymru ac asiantaethau eraill i greu diddordeb a chynyddu recriwtio i fod yn warchodwr plant, sydd nid yn unig yn darparu opsiynau gofal plant ehangach i deuluoedd yn eu hardal leol ond sy'n cefnogi pobl yn ol i'r gwaith.

<u>Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs</u>

Mi oedd Clybiau Plant Cymru Kids' Club yn teimlo bod partneriad CWLWM sy'n cefnogi meysydd eraill o ofal plant (e.e darpariaeth blynyddoedd cynnar a gwarchodwyr plant) mewn sefyllfa well i wneud sylwadau ar ddigonolrwydd, ansawdd a fforddiadwyedd yr gofal plant yng Nghwynedd.

O ran ei gwybodaeth o Clybiau Ar Ôl Ysgol yng Ngwynedd:

Mi oedd gan CPCKC bryderon ynghylch cynadladwyedd y ddarpariaethau presennol oherwydd effaith cofid 19- mae rhai darparwyr wedi tynnu'n ôl o ddarparu'r gofal a gynigwyd yn flaenorol ar safleoedd ysgol, ac mae ysgolion yn edrych ar gymryd drosodd y ddarpariaeth. Bydd hyn yn effeithio ar argaledd gofal plant cofrestredig nes bod y darpariaethau newydd yn cofrestru.

Mae 26% o'r clybiau ar ôl ysgol sy'n cael eu rhedeg ar hyn o bryd yng Ngwynedd yn ddigofrestredig, sydd yn ei tro yn effeithio ar ansawdd a fforddiadwyedd gan nad yw teuluoedd yn gallu cael mynediad I Gofal Plant Di-Dreth a Cynnig Gofal Plant.

Mae darpariaeth gofrestredig yn cael ei chynnig yn bennaf o fewn Meithrinfeydd sydd a oblygiadau yn aml o ran y ffioedd a godir, a nifer y llefydd sydd ar gael i plant oedran ysgol yn nol Clybiau Plant Cymru.

Dyma awgrymiadau am welliannau ar gyfer y grwpiau canlynol:

**Teuluoedd ar incwm isel**

Gweithwyr ar incwm isel yn dueddol o fod yn gweithio oriau shift, nid yw'r oriau agor ar gyfer darpariaeth yn gyfleus ar gyfer gweithwyr ar shitiau. Cefnogi datblygiad gofal plant cofrestredig ac annog cofrestru fel bod modd cefnogi teuluoedd incwm isel i elwa ar gynlluniau cymroth ariannol. Ymchwilio i ehangu cynlluniau cymorth ariannol presennol o ran cymhwysedd ac ystod oedran i sicrhau y gellir cael effaith hirdymor ar gynifer o deuluoedd a phosib. Mae rhai cynlluniau presennol yn dibynnu ar feini prawf cymhwysedd penodol e.e Dechrau Deg sy'n defnyddio cod post.

**Teuluoedd gyda phlant ag anableddau**
Sicrhau bod cyllid ar gael a cymorth i ddatblygu a chynnal darpariaeth ar gyfer plant ag anableddau, yn ogystal a chyllid a chymorth i sicrhau bod yr holl darpariaethau yn gallu bod yn gynhwysol a hygyrch (e.e cyllid ar gyfer cymorth un i un /hyfforddiant ychwanegol i staff).
**Teuluoedd sy'n gweithio**
Angen sicrhau bod digon o darpariaethau gofal plant cofrestredig o safon ar gael i bob oedran (blynyddoedd cynnar a chyn-ysgol a darpariaeth cofllediol ar ddiwedd diwrnod ysgol i blant hyn).
Ymestyn yr ystod oedran y gall plant gael mynediad i'r Cynnig Gofal Plant , gall costau gofal plant gyfrannu at y tlodi mewn gwaith y mae rhai teuluoedd sy'n gweithio yn ei brofi. Angen hyrwyddo Gofal Plant Di-Dreth yn well, er mwyn sicrhau bod y rhieni hynny sy'n gymwys yn ei ddefnyddio. Cred CPCKC ei fod yn hanfodol bod darpariaeth gofal plant sy'n parhau ar agor yn cael ei cefnogi i barhau i gynnig gwasanaethau i deuluoedd lleol, a bod digon o gyllid a chefnogaeth i atal codi ffioedd yn ddiangen- hyn yn cynnwys cadw ethos sy'n canolbwyntio ar y gymuned pan fydd ysgolion/adeiladau cymunedol/awudrodau lleol yn ystyried taliadau rhent.
Angen sicrhau bod digon o ofal plant fforddiadwy o ansawdd da ym mhob cymuned sydd angen mynediad. Mae pob cymuned yn wahanol felly mae angen sicrhau bod y math o wasaneth ar gael i'r gymuned. Mae nifer y lleoliadau gwirfoddol a arweinir gan gymuned wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd, ag yn effeithio ar ardaloedd gwledig/difreintiedig gan arwain at lai o incwm gan nad ydynt yn mynd mewn i'r gwaith neu angen lleihau ei oriau. (darpariaethau a reolir yn breifat yn disodli'r lleoliadau hyn yn aml a bydd angen ffioedd uwch i dalu costau).
Gall mynediad a chostau i gofal yn ystod gwyliau ysgol fod yn her i rieni/gofalwyr sy'n gweithio. Mi all mentrau a rhaglenni eraill a defnyddir fel gofal plant e.e gwersylloedd Chwaraeon, SHEP a.y.b gael effaith ar darpariaethau gwyliau.
**Teuluoedd sy'n chwilio am waith**
Cred CPCKC bod angen i Lywodraeth Cymru ehangu'r cynlluniau cymorth ariannol presennol o ran cymhwysedd i gynnwys rhieni/gofalwyr sy'n chwilio am waith. Hefyd cynnydd yn yr ystod oedran o blant sy'n gallu cael mynediad at ofal plant a ariennir- nid yw anghenion gofal plant yn dechrau a gorffen o fewn ystod oedran 3-5.Gall costau gofal plant oed ysgol barhau i fod yn rhwystr i rieni/gofalwyr.
<u>Blynyddoedd Cynnar Cymru</u>
Graddwyd y canlynol yn Dda:- Ansawdd y Ddarpariaeth, ystod o ddarparwyr, fforddiadwyedd, hyblygrwydd o ddarpariaeth a sesiynau, priodoldeb amserau agor a darpariaeth ddwyieithog/cymraeg.
Nid oedd yn medru graddio nifer o lefydd a lleoliad a hygyrchedd gofal plant.

Hyd at 31/03/22 mi oedd gan Blynyddoedd Cynnar Cymru 19 aelod yn Ngwynedd yn amrywio o warchodwyr, gofal sesiynol a gofal dydd llawn sydd yn dangos y cymysgedd o ddarpariaeth sydd ar gael i gefnogi teuluoedd yn Ngwynedd.
Cred BCC y byddai yn dda gweld cefnogaeth gan Awdurdod Lleol i'r gwahanol gynlluniau Sicrhau Ansawdd sydd ar gael gan rai partneriaid Cwlwm gan fod y cynlluniau hyn yn annod darparwyr i feddwl am elfennau o'u hymarfer a meysydd i'w hystyried yn ddyfnach.
Dyma awgrymiadau am welliannau ar gyfer y grwpiau canlynol:
**Teuluoedd ar incwm isel**
Nid yw BCC yn ymwybodol o unrhyw fylchau mawr yn yr ardal, ac cred yr ymdrinnir ag unrhyw rai a nodir. Yn nol BCC mae llawer o ddarparwyr gofal plant yn ddarparwyr elusennol, mae'r math hwn o statws sefydlu/ cyfreithiol yn ei tyb nhw yn ei gwneud yn fwy fforddiadwy gan mai eu nod yw bod yn gynaliadwy ac yn canolbwyntion ar y gymuned yn hytrach nag i ffod yn broffidiol.

**Teuluoedd gyda phlant ag anableddau**
Mae pob darparwr gofal plant yn gynhwysol ac yn gweithio gyda'r holl bartion dan sylw i sicrhau bod eu darpariaeth yn hygyrch i bob plentyn waeth beth fo'i anghenion ychwanegol. Mae'r Awdurdod Lleol wedi cydweithio i ddatblygu "Map Darpariaeth ADY Blynyddoedd Cynnar Gwynedd a Môn' mewn partneriaeth â lleoliadau blynyddoedd cynnar a chynrychiolwyr o Gyrff Iechyd, Gofal a Gwirfoddol er mwyn nodi a rhestru strategaethau ac adnoddau effeithiol.
**Teuluoedd sy'n gweithio**
Gweithiodd yr Awdurdod a chyrff ymbarél yn galed iawn pan sefydlwyd cynllun y Cynnig Gofal Plant i sefydlu systemau a lleoliadau wedi'u cofrestru i allu cefnogi pob teulu cymwys. Gweithiodd yr holl bartneriaid yn galed i rannu'r wybodaeth a dderbyniwyd i sicrhau bod darparwyr yn deal y Cynnig a sut y dylent ei hyrwyddo i'r teuluoedd cymwys. Estynnodd llawer o ddarparwyr eu gwasnaethau i ddiwallu anghenion teuluoedd sy'n gweithio gydag eraill yn uno er mwyn symleiddio gwasanaethau.
<u>NDNA</u>
Nid oedd NDNA yn medru ymateb o rhan yr amrywiaeth o ddarpariaeth oedd ar gael yn Ngwynedd ar teulu rheini/gofalwyr.
Cred NDNA bod Cofid 19 a'r mesurau amddiffynnol a gymerwyd gan meithrinfeydd wedi arwain at diffyg incwm sylweddol i lawer o feithrinfeydd ac wedi creu ansicrwydd am y dyfodol. Mae llawer o leoliadau'n wynebu materion cynaliadwyedd a fydd yn effeithio ar y lleoedd gofal plant sydd ar gael yn y dyfodol. Gwaethygir hyn gan argyfwng costau byw a chostau busnes uwch.
Mae recriwtio, yn enwedig staff cymwysedig, yn broblem fawr i'r sector. Bydd costau staffio uwch, yn anochel, yn effeithio ar fforddiadwyedd gofal plant i rieni.
Mae pryder y gallai lleoliadau newydd sy'n agor ar safleoedd ysgol fod mewn perygl o ddisodli lleoedd gofal plant presennol mewn meithrinfeydd, a bydd hyn yn y pen draw yn arwain at feithrinfeydd yn mynd yn anghynaliadwy neu'n faich ariannol mwy ar deuluoedd plant iau/ heb ei hariannu.
Dyma awgrymiadau am welliannau ar gyfer y grwpiau canlynol:
**Teuluoedd ar incwm isel**
Sicrhau bod teuluoedd yn cael y wybodaeth diweddaraf am y mathau o ofal plant a'r dewisiadau sydd ar gael iddynt a chyfathrebu effeithiol am y cymorth ariannol sydd ar gael. Yn benodol, sicrhau bod pob plentyn sydd â haw li oriau o ofal plant a ariennir yn eu derbyn.
**Teuluoedd gyda phlant ag anableddau**
Sicrhau bod teuluoedd yn cael y wybodaeth diweddaraf am eu dewisiadau. Dealltwriaeth a hyfforddiant llawn yn y systemau ADY newydd a'i ofynion ar ddarparwyr.
**Teuluoedd sy'n gweithio**
Sicrhau bod digon o leoedd mewn lleoliadau gofal dydd gan fod y rhain yn diwallu anghenion teuluoedd sy'n gweithio yn well ac yn sicrhau bod y Cynnig Gofal Plant yn cael ei gyfathrebu'n effeithiol.
**Teuluoedd sy'n chwilio am waith**
Darparu cymorth ariannol gyda chostau gofal plant am gyfnod cychwynnol pan fydd rhaint yn dechrau gweithio.

## 15. Crynodeb – Dadansoddiad o’r Bylchau a Meysydd i'w Gwella

Mae bylchau sy'n ymwneud â hygyrchedd, fforddiadwyedd a chynaliadwyedd gofal plant i'w gweld yn yr adrannau canlynol.

**HYGYRCHEDD**

**Daearyddol**

- Mae dosbarthiad anwastad iawn o’r holl ddarparwyr gofal plant ar draws Gwynedd; fodd bynnag mae hyn yn wir hefyd am y boblogaeth gyfan, a rhaid holi a fyddai’n ddichonadwy neu yn gynaliadwy rhedeg gwasanaeth gofal plant mewn rhai ardaloedd.
- Ychydig neu ddim dewis o Warchodwyr Plant mewn rhai ardaloedd
- Cyflenwad cyfyngedig sydd o glybiau gwyliau a chynlluniau chwarae adeg gwyliau
- Diffyg darpariaeth clybiau ar ôl ysgol yn Ardaloedd 4, 5, 6, 7 ac 8 ond mae argaeledd o fewn mathau eraill o ofal plant
- Diffyg darpariaeth Addysg Feithrin ym mhen draw Llŷn

**Oriau agor**

- Dim ond 2 leoliad sydd wedi nodi eu bod yn cynnig gofal oriau anghymdeithasol
- Nid yw nifer o’r Gwarchodwyr Plant a Gofal Sesiynol yn cynnig gofal bob dydd o'r wythnos, a rhai darparwyr Gofal Dydd Llawn mond yn cynnig gwasanaeth 4 diwrnod yr wythnos
- Nid yw gofal Sesiynol ar agor yn ystod y gwyliau, ac mae 27 o’r 57 ddarpariaeth sydd wedi cofrestru fel Gofal Dydd Llawn ar agor tymor ysgol yn unig. Gall hyn olygu bwlch mewn gofal gwyliau mewn ym mhob ardal, heblaw Ardal 1(Bangor)
- Nid yw nifer o’r darpariaethau sydd wedi cofrestru fel Gofal Dydd Llawn yn cwrdd ag anghenion y rhan fwyaf o rieni sy’n gweithio, gyda 27 yn agor ar ôl 08:45, a 26 yn cau cyn 16:00. Mae angen i fathau eraill o ofal plant fod ar gael i gwrdd ag anghenion rhieni sydd yn gweithio oriau hirach.
- Nid oedd lleoliadau Sesiynol a Gofal Dydd Llawn sy'n cynnig gofal sesiynol, yn gallu cynnig gofal i rieni sy'n weithwyr allweddol yn ystod camau cynnar pandemig Covid-19. Roedd hyn oherwydd bod llawer yn cau a rhoi eu staff ar ffyrlo.

**Oedran**

- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer plant hŷn yn gyfyngedig
- Nododd 19 o rieni ‘Nid oes yna ofal plant ar gael sy’n addas ar gyfer oedran fy mhlentyn’
- Un ddarpariaeth yn Ardal 1 ac un yn Ardal 2 yn nodi bod ganddynt restr aros ar gyfer gofal ar ôl ysgol
- Amrywiaeth fwy eang o ddarparwyr yn cynnig gofal i blant o 2 – 4 oed

**Iaith**

- Ni ddywedodd yr un rhiant a lenwodd yr arolwg ar-lein nad oedd modd iddynt ddod o hyd i ofal plant addas yn Gymraeg, ac roedd 85% yn defnyddio gofal plant drwy gyfrwng Cymraeg
- Darpariaeth Gwarchodwyr Plant Saesneg yn unig sydd ar gael yn Ardaloedd 6 ac 8
- Rhai darpariaethau gofal ar ôl ysgol a Sesiynol Saesneg yn Ardal 1, a Gofal Dydd Llawn yn Ardaloedd 6 ac 8

**FFORDDIADWYEDD**

- Mae rhieni a rhanddeiliaid yn amlygu fforddiadwyedd fel rhwystr i ddefnyddio gofal plant, gyda llawer o rieni yn dibynnu ar deulu neu ffrindiau
- Mae rhai cynlluniau cymorth ariannol yn ddibynnol ar feini prawf cymhwyster penodol e.e. mae meini prawf côd post i Dechrau'n Deg, cymhwysedd cyflogaeth i'r Cynnig Gofal Plant Cymru a Gofal Plant Di-dreth
- Mae rhai clybiau tu allan i oriau ysgol heb eu cofrestru ac felly ni all rhieni gyrchu credydau treth i dalu ffioedd
- Mae ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth ariannol sydd ar gael yn isel iawn
- Y bwlch cymhwysedd sydd wedi achosi'r anhawster mwyaf yw nad yw myfyrwyr yn gallu manteisio ar y Cynnig Gofal Plant i Gymru, ac mae hyn yn arbennig o anodd i'r rheini sy'n rhieni sengl neu'r rhai sy'n dilyn hyfforddiant galwedigaethol fel nyrsio

**CYNALIADWYEDD**

Mae blaenoriaethau rhanddeiliaid yn amrywio yn ôl a ydynt yn ddefnyddwyr neu'n ddarparwyr gofal plant. Er y gall rhieni deimlo bod gofal plant yn ddrud, ar y llaw arall, mae darparwyr yn profi ffactorau a all wneud eu darpariaeth yn anodd ei chynnal.

Mae'r heriau a wynebwyd o ganlyniad i'r pandemig wedi effeithio ar gynaladwyedd rhai rhannau o'r sector gofal plant i raddau mwy nag eraill. Cafwyd ymchwyddiadau achlysurol ac yna gostyngiad yn y galw am ofal plant pan gyflwynwyd mesurau gwahanol ac yna llacio a greodd ansicrwydd i lawer o ddarparwyr gofal plant o ran gwybod beth fyddai gwir natur y farchnad yn y dyfodol.

Mae 11 darpariaeth wedi nodi nad ydynt yn hyderus y byddai'n ariannol gynaliadwy parhau i redeg eu gwasanaeth gofal plant am fwy na 6 mis.

Mewn sgyrsiau gyda darparwyr gofal plant yn ystod cyfnod Covid-19 maent wedi nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu tanbrisio ar adegau o gymharu â'r sylw a roddir i sectorau eraill megis ysgolion a gofal cymdeithasol.

**Cadw staff**

- Mae recriwtio a chadw staff yn arbennig staff sy'n siarad Cymraeg yn heriol gan fod cyfleoedd ar gyfer gwell cyflogau a dyrchafiad yn bodoli mewn mannau eraill e.e. ysgolion.
- Gall darparu cymorth ychwanegol i blant ADY/AAA fod yn heriol o ran recriwtio staff addas

Yn gyffredinol, yn ystod 2020-21 a 2021-22 mae'r pecynnau cymorth a roddwyd gan y Llywodraeth wedi helpu'r sector i aros yn gynaliadwy.

**Galw**

- Mae diffyg cysondeb yn y galw gan rieni sy'n effeithio ar gynaliadwyedd lleoliadau
- Dim digon o alw wedi nodi gan rhai Penaethiaid i gyfiawnhau cychwyn clwb ar ôl ysgol, a rhai yn nodi os oes darpariaeth rhad/am ddim yna bydd dipyn o ofyn, os yn costio yn sylweddol e.e. clwb gofal ôl ysgol yna rhagwelir y buasai llai o ddiddordeb

- Er bod galw am ofal plant mwy hyblyg gall hyn fod yn anghynaladwy i ddarparwyr. Gall yr angen i gynllunio ac ariannu staffio ar gyfer nifer y plant sy'n mynychu fod yn ddrud os na chaiff y lleoedd hynny eu llenwi ar y funud olaf.
- Mae nifer y grantiau cynaliadwyedd wedi cynorthwyo darparwyr yn ariannol ond mae rhai yn wynebu heriau gyda gorbenion dyddiol fel costau tanwydd uwch, staffio, rhent a chostau rhedeg cyffredinol.

**Meysydd i'w Gwella**
O'r adroddiad a'r dadansoddiad o'r bylchau mae'n amlwg bod rhai meysydd penodol i’w gwella yn y ddarpariaeth gofal plant yng Ngwynedd. Bydd y pwyntiau hyn yn cael eu hystyried yng nghynllun gweithredu'r ADGP.